



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



Department of
**Agriculture, Environment
and Rural Affairs**

www.daera-ni.gov.uk

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y
Llywodraeth – SENSITIF SWYDDOGOL

Dyddiad: Mawrth 2022

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, datblygu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota arobryn.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 asiantaeth a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn fwy glân, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr gwell i'r dyfodol.



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

packaging@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	4
Y camau nesaf.....	8
Nodiadau i ddarllenwyr	9
Targedau	9
Data taliadau cost net lawn, rhwymedigaethau ailgylchu ac adrodd am ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad Cynhyrchwyr â Rhwymedigaeth	16
Cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr – gofyniad derbyn yn ôl gorfodol.....	24
Ffioedd wedi’u Modiwleiddio a Labelu	26
Taliadau ar gyfer rheoli gwastraff deunydd pacio	33
Gweinyddu a Llywodraethu’r Cynllun.....	51
Ailbroseswyr ac Allforwyr	55
Cydymffurfio a gorfodi.....	58
Gweithredu EPR deunydd pacio yn raddol o 2023 ymlaen.....	61
Deunydd pacio y gellir ei ail-lenwi a’i aildefnyddio	62
Crynodeb o gostau a manteision y polisiau	65
Dylunio digidol	68
Atodiad 1 - Swyddogaethau craidd Gweinyddwr y Cynllun.....	69

Crynodeb Gweithredol

Mae gan Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig nodau uchelgeisiol i ddiogelu ein hinsawdd, sbarduno twf gwyrdd, a lleihau gwastraff diangen. Mae ein cynlluniau ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn rhan allweddol o gyflawni'r nodau hynny. Mae'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr bresennol am ddeunydd pacio wedi bod ar waith ers 1997, ond nid yw erioed wedi talu costau llawn gwaredu gwastraff deunydd pacio. Bydd Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio (EPR) yn symud y gost lawn o ymdrin â gwastraff deunydd pacio cartrefi oddi wrth drethdalwyr a chynghorau lleol i'r cynhyrchwyr deunydd pacio (gan gymhwyso 'egwyddor y llygrwr sy'n talu'), gan roi cyfrifoldeb am gostau eu deunydd pacio drwy gydol ei gylch bywyd ar ysgwyddau cynhyrchwyr. Bydd hyn yn annog cynhyrchwyr i leihau eu defnydd o ddeunydd pacio a defnyddio deunydd pacio sy'n haws ei ailgylchu. Bydd cynhyrchwyr yn talu mwy am ddeunydd pacio llai cynaliadwy, gan gymell deunydd pacio sy'n defnyddio llai o ddeunydd ac sy'n haws ei ailgylchu. Bydd disgwyl i gynhyrchwyr gyrraedd targedau ailgylchu uchelgeisiol newydd hefyd a defnyddio labeli diamwys clir ar ailgylchadwyedd i'w gwneud yn hawdd i ddefnyddwyr wneud y peth iawn.

Mae ymrwymadau Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i gyflawni EPR yn cynnwys y rhai yn *Resource and Waste Strategy for England* yn 2018; Maniffesto'r Ceidwadwyr yn 2019; *Making Things Last* gan Lywodraeth yr Alban; *Mwy nag Ailgylchu – strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti* gan Lywodraeth Cymru; *Waste Management Plan and draft Environmental Strategy 2021* Gogledd Iwerddon 2019.

Cawsom 1,241 o ymatebion i'r ail ymgynghoriad a chynhaliwyd gweithdai a chyfarfodydd ychwanegol yn dilyn ei gyhoeddi. Daeth 28% o'r ymatebion gan lywodraeth leol, 24% gan ddylunwyr/gweithgynhyrchwyr/trawsnewidyddion a dosbarthwyr deunydd pacio, a 24% gan weithgynhyrchwyr/brandiau cynnyrch a manwerthwyr. Ceir dadansoddiad manylach yn y dadansoddiad cysylltiedig llawn o'r ymatebion.

Newidiadau yn dilyn yr ymgynghoriad

Bydd y diwygiadau'n gofyn am waith manwl i'w gweithredu, a rhaid iddynt sicrhau y gellir eu cyflawni, caniatáu amser i fusnesau baratoi ac osgoi rhoi baich ar ddefnyddwyr. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, mae'r diwygiadau wedi'u haddasu yn y ffyrdd canlynol:

- Byddwn yn gweithredu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr fesul cam o 2024 ymlaen yn awr, yn hytrach na 2023, gan ganolbwyntio ar daliadau am wastraff deunydd pacio cartrefi a deunydd pacio mewn biniau stryd a reolir gan awdurdodau lleol o fis Ebrill 2024 ymlaen. Bydd hyn yn symleiddio'r broses gyflwyno ac yn cael gwared ar risgiau.
- Byddwn yn cyflwyno ffioedd wedi'u modiwlleiddio yn seiliedig ar ailgylchadwyedd o 2025 ymlaen, yn hytrach na 2024. Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ni fyddwn yn cyflwyno taliadau am wastraff deunydd pacio sy'n cael ei daflu fel sbwriel; mae Cymru a'r Alban yn ystyried camau i wneud cynhyrchwyr yn atebol am y costau hyn, a byddant yn cyflwyno eu cynigion maes o law.

- Byddwn yn parhau â'r trefniadau presennol (a elwir yn 'system Nodyn Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio (PRN)') i ddangos bod rhwymedigaethau ailgylchu wedi'u cyflawni.
- Byddwn yn parhau i archwilio taliadau am wastraff deunydd pacio a gesglir yn fasnachol (gan fusnesau a sefydliadau eraill sy'n talu am gasglu eu gwastraff), gan sefydlu tasglu, gyda chynrychiolaeth draws-sector, i ddatblygu'r dystiolaeth, dadansoddi a nodi opsiynau.
- Rydym wedi penderfynu cynnal y trothwy ar gyfer costau cynhyrchwyr a rhwymedigaethau ailgylchu sef trosiant o £2 filiwn a 50 tunnell o ddeunydd pacio yn cael ei drin bob blwyddyn, yn hytrach na'i ostwng. Fodd bynnag, bydd trothwy is sef trosiant o £1 filiwn a 25 tunnell o ddeunydd pacio a drafodir bob blwyddyn yn cael ei gyflwyno i gynhyrchwyr adrodd am ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad yn unig.
- Bydd yn ofynnol rhoi label 'peidiwch ag ailgylchu' ar unrhyw ddeunydd pacio compostadwy sy'n fioddiraddiadwy, gan ganiatáu amser i adeiladu'r dystiolaeth y gellir ei gasglu a'i gompostio'n ddiogel ar wahân.
- Bydd Gweinyddwr Cynllun (SA) yn cael ei benodi. Bydd yn dechrau paratoi yn 2023 a bydd yn gwbl weithredol yn 2024. Barn ddangosol gan Drysorlys EM¹ yw ei bod yn debygol yr ystyrir y bydd yr SA o fewn y sector cyhoeddus. Yng ngoleuni'r cyngor hwn, mae'r Llywodraeth yn ystyried opsiynau i sefydlu'r SA o fewn y sector cyhoeddus, ond gan barhau â chyfraniad sylweddol gan y diwydiant wrth gyflawni ei swyddogaethau. Bydd y penderfyniad terfynol ar yr SA yn cael ei wneud gan y pedair llywodraeth.
- Bydd y cynllun EPR yn cael ei adolygu ar ôl dwy flynedd o'i weithredu; bydd yr adolygiad hwn yn ystyried cynigion y tasglu, yn ogystal â'r cynnydd o ran lleihau cyfanswm y deunydd pacio mewn biniau stryd a deunydd pacio sy'n cael ei daflu ar y llawr.

Penderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn sgil yr ymgynghoriad

Ceir rhagor o fanylion am y penderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn yr ymateb hwn ym mhrif gorff y ddogfen, ac mae'n cadarnhau y byddwn yn cyflwyno Rheoliadau ar gyfer:

- Cynhyrchwyr i dalu costau rheoli gwastraff deunydd pacio cartrefi
- Taliadau i awdurdodau lleol a chynghorau (cynghorau lleol yng Ngogledd Iwerddon) ar gyfer casglu gwastraff deunydd pacio cartrefi, a deunydd pacio wrth fynd a waredir mewn biniau stryd
- Ffioedd wedi'u modiwlleiddio i gymell y defnydd o ddeunydd pacio y gellir ei ailgylchu

¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n gyfrifol am ddsbarthiad ystadegol yr SA yn y pen draw. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu'r SA yn ffurfiol unwaith y bydd yr SA yn weithredol.

- Cynllun derbyn yn ôl gorfodol ar gyfer casglu ac ailgylchu cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr (cwpanau coffi tafladwy)
- Labelu deunydd pacio'n orfodol ar gyfer ailgylchadwyedd gydag un fformat labelu
- Targedau ailgylchu gwastraff deunydd pacio blynyddol hyd at 2030
- Samplu gwastraff yn well er mwyn galluogi gwell data ar wastraff deunydd pacio
- Gofyniad i gynhyrchwyr penodol roi gwybod am ddeunydd pacio'r genedl sy'n cael ei roi ar y farchnad
- Gofynion cryfach ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr
- Penodi Gweinyddwr Cynllun.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd edrych ar fesurau ychwanegol i leihau'r defnydd o ddeunydd pacio ymhellach. Bydd yn cwblhau'r adolygiad ôl-weithredu o'r Rheoliadau Deunydd Pacio (Gofynion Hanfodol) sy'n ceisio lleihau'r defnydd o ddeunydd pacio, a ddechreuodd yn 2021, a bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu mesurau i annog defnyddio deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio / ail-lenwi.

Effeithiau ariannol

Rydym yn disgwyl i gostau cynhyrchwyr â rhwymedigaeth fod tua £1.7 biliwn bob blwyddyn.² Mae tua £1.2 biliwn o'r gost hon yn deillio o reoli gwastraff cartrefi ac mae'n cael ei hariannu gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd, gyda thua £800 miliwn o gostau ailgylchu deunydd pacio cartrefi a chostau Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu Cartrefi, £300 miliwn o gostau gweddilliol deunydd pacio cartrefi a disgwylir i reoli deunydd pacio mewn biniau stryd gostio £100 miliwn. Disgwylir hefyd y bydd costau pellach ar gyfer gweinyddu systemau (gan gynnwys costau ymgyrchoedd cyfathrebu a chostau rheoleiddiwr) tua £100 miliwn; disgwylir i gostau PRN fod tua £300 miliwn. Bydd hyn yn creu cymhelliant cryf i gynhyrchwyr leihau deunydd pacio a chynyddu ei ailgylchadwyedd, gan leihau'r costau y maent yn eu hysgwyddo o dan EPR.

Mae Asesiad Effaith Terfynol drafft yn cyd-fynd â'r ymateb hwn, sy'n manylu ar gostau a manteision y penderfyniadau a amlinellir yn yr Ymateb hwn gan y Llywodraeth. Cyhoeddir fersiwn derfynol yr Asesiad Effaith hwn ochr yn ochr â'r Rheoliadau.

Mae ein dadansoddiad cychwynnol yn dangos na fydd hyn yn arwain at unrhyw gynnydd sylweddol mewn prisiau i ddefnyddwyr (gan gynnwys prisiau bwyd). Fel rhan o'r broses o gyflwyno EPR yn raddol, bydd ffioedd cynhyrchwyr yn cael eu modiwlleiddio (amrywio) i adlewyrchu meini prawf fel ailgylchadwyedd, gan roi mwy o reolaeth i gynhyrchwyr dros y ffioedd y maent yn eu talu ac unrhyw effaith ar brisiau i ddefnyddwyr. Bydd hyn yn cymhell gwelliannau i ailgylchadwyedd deunydd pacio hefyd sy'n un o nodau allweddol y diwygiad hwn.

² Nid yw amcangyfrifon yn y paragraff hwn yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu

Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd

Ar 24 Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon ail ymgynghoriad yn ystyried cynllun dychwelyd ernes (DRS) ar gyfer cynwysyddion diodydd untro, yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol yn 2019.

Mae'r Llywodraeth yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn cyhoeddi ymateb llawn maes o law. Fodd bynnag, mae'n bwysig egluro pa ddeunyddiau sydd o fewn cwmpas cynllun dychwelyd ernes (ac felly nid ar gyfer EPR). Rydym yn disgwyl gweithio'n agos gyda diwydiant i archwilio'r ffordd orau o ddatblygu'r gwaith o gyflawni yn y maes hwn.

Maint cynwysyddion sydd o fewn cwmpas Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS)

Bydd Defra, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gweithredu DRS sy'n cynnwys popeth yn unol â barn y rhan fwyaf o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw. Felly, bydd cynwysyddion diodydd untro sy'n cynnwys rhwng 50ml a 3ltr o hylif yn rhan o'r cynllun dychwelyd ernes ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn cynnwys cynwysyddion a werthir yn unigol ac fel rhan o becyn amlbecyn ac mae'n cyd-fynd â dull yr Alban.

Deunyddiau sydd o fewn cwmpas DRS

Archwiliodd yr ymgynghoriad y syniad o gynnwys poteli polyethylen terephthalate (PET); caniau dur ac alwminiwm; a photeli gwydr mewn cynllun dychwelyd ernes. Cododd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad bryderon ynghylch cynnwys gwydr, yn enwedig y ffordd y caiff gwydr ei gasglu mewn peiriannau gwerthu gwrthdro, wrtho iddo gael ei falu a'i gymysgu o bosibl, gan arwain yn y pen draw at wydr o ansawdd gwaeth na'r hyn a gesglir ar hyn o bryd drwy gasglu deunydd ailgylchadwy ar garreg y drws. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y cynnydd posibl mewn costau trin a chymhlethdod cyfarpar sy'n deillio o gasglu poteli gwydr mewn DRS. Bydd angen gwagio peiriannau gwerthu gwrthdro yn amlach a bydd risgiau diogelwch yn gysylltiedig â thrin gwydr sydd wedi torri. Yn ogystal, mae pwysau gwydr a'r posibilrwydd o wydr yn torri yn peri risgiau diogelwch i ddefnyddwyr hefyd yn sgil cludo poteli gwydr trwm i fannau dychwelyd.

Gan ystyried y pryderon hyn, ni fydd Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cynnwys gwydr yn eu DRS. Bydd poteli diodydd gwydr o fewn cwmpas EPR, a fydd yn gosod targedau ar gynhyrchwyr mewn perthynas ag ailgylchu gwydr ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt dalu am y gost o reoli deunydd pacio gwydr a gynhyrchir gan aelwydydd. Bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i adolygu cynnwys gwydr pan fydd y cynllun yn gwbl weithredol i sicrhau bod cynwysyddion diodydd gwydr yn cyrraedd y targedau ailgylchu gofynnol.

Wrth asesu'r ystod o ddeunyddiau sydd i'w cynnwys, ystyriodd Llywodraeth Cymru effaith DRS yn erbyn y gyfradd ailgylchu sylfaenol yng Nghymru, a gofynion statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ymrwymadau cyffredinol i ddod yn

genedl ddi-garbon a diwastraff net erbyn 2050. Mae ffactorau eraill yn cynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad yn gofyn am gynnwys ystod mor eang â phosibl o ddeunyddiau; datblygiadau mewn atebion technoleg ddigidol DRS ar gyfer cynllun dychwelyd ernes a allai ganiatáu dychwelyd poteli ernes drwy'r seilwaith casglu presennol ar garreg y drws a thrwy hynny leihau'r ddibyniaeth ar ddychwelyd i beiriannau gwerthu gwrthdro manwerthwyr; a chyfradd ddychwelyd well gyffredinol o'r asesiad effaith economaidd wrth gynnwys gwydr yn y cynllun yng Nghymru. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r opsiwn a argymhellir fel y nodir yn yr ymgynghoriad a chyflwyno DRS sy'n cynnwys popeth yng Nghymru sy'n cynnwys plastig PET, caniau dur ac alwminiwm, a photeli gwydr.

Y camau nesaf

Bydd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon yn cyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad DRS yn fuan. Yn ogystal, ar gyfer Lloegr, byddwn yn cyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gasgliadau ailgylchu cyson hefyd. Bydd rhagor o wybodaeth am yr amserlenni gweithredu ar gyfer DRS a chasgliadau ailgylchu cyson yn Lloegr yn cael ei chynnwys yn ymatebion pob llywodraeth. Bydd pob llywodraeth yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddeall effaith y cynigion hyn ar weithrediad marchnad fewnol y DU.

Byddwn yn datblygu Offeryn Statudol (OS) yr EPR yn 2022, gyda'r bwriad o'i osod gerbron y Senedd yn gynnar yn 2023. Bydd yr OS yn OS unigol ar gyfer y DU i gyd a wneir gan ddefnyddio pwerau cydamserol yn Neddf yr Amgylchedd a chyda cydsyniad Gweinidogion y Gweinyddiaethau Datganoledig. Yn amodol ar gwblhau'r broses seneddol, rydym yn disgwyl i'r rheoliadau ddod i rym yn Haf 2023. Bydd y rheoliadau hyn yn penodi gweinyddwr y cynllun a fydd yn paratoi i daliadau EPR ddechrau yn 2024.

Er mwyn sicrhau y gellir gweithredu EPR o 2024 ymlaen, byddwn yn datblygu OS Adrodd Data ar wahân hefyd, a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2023. Bydd y rheoliadau hyn mewn grym am flwyddyn. Byddant yn cwmpasu rhwymedigaethau casglu data ac adrodd ar gyfer cynhyrchwyr ar gyfer 2023 yn unig. Cânt eu diddymu gan y Rheoliadau EPR a fydd yn cynnwys darpariaethau a fydd yn union yr un fath a fydd yn gymwys i adroddiadau data o 2024 ymlaen.

Wrth i'n cynigion polisi terfynol a'r gofynion deddfwriaethol manwl gael eu llunio dros y misoedd nesaf, byddant yn gosod y sylfaen gadarn ar gyfer buddsoddiad a arweinir gan fusnesau ac awdurdodau lleol yn y sector i wneud y gorau o ddewisiadau deunydd pacio, buddsoddi mewn gwell systemau casglu a didoli, a chynyddu capasiti ailbrosesu domestig.

Efallai y bydd angen nifer fach o fân welliannau i'r system PRN; rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y diwygiadau hyn ochr yn ochr â'r ymateb hwn.³

Nodiadau i ddarllenwyr

Ceir rhai achosion lle nad yw canrannau'r ymatebion a gofnodir yn dod i gyfanswm o 100%, oherwydd talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Ffordd gryno o gyfeirio at y gwahanol reoliadau sy'n gweithredu gofynion ar gyfer cyfleusterau deunyddiau i samplu ffrydiau mewnbwn ac allbwn ac adrodd ar ganlyniadau i reoleiddwyr yw "Reoliadau MF". Yng Nghymru a Lloegr, dyma Ran 2 o Atodlen 9 i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016; yn yr Alban, dyma'r Cod Ymarfer ar Samplu ac Adrodd mewn Cyfleusterau Adfer Deunyddiau. Nid oes unrhyw ofynion samplu cyfatebol ar waith yng Ngogledd Iwerddon, felly mae cyfeiriad at y 'Reoliadau MF' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at ofynion newydd y bydd yn ofynnol eu cyflwyno yng Ngogledd Iwerddon drwy reoliadau.

Targedau

Targedau ailgylchu gwastraff deunydd pacio busnesau 2023 o dan reoliadau 2007 (Cwestiwn 7)

Gwnaethom gynnig y dylai'r targedau ailgylchu gwastraff deunydd pacio ar gyfer 2022, a bennwyd o dan Reoliadau Gwastraff Deunydd Pacio presennol 2007 (y cyfeirir atynt fel y 'targedau busnes' fel arfer), barhau yn 2023 i ddarparu parhad mewn blwyddyn pan fydd angen i fusnesau baratoi ar gyfer newidiadau i'r drefn cyfrifoldeb cynhyrchwyr a fydd yn digwydd yn 2024. Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn. Atebodd 976 o ymatebwyr y cwestiwn hwn: roedd 78% yn cytuno â'r cynnig, roedd 9% yn anghytuno ac ni fynegodd 13% farn.

³ <https://consult.defra.gov.uk/packaging-extended-producer-responsibility/>

Penderfyniad – targedau ailgylchu deunydd pacio busnesau 2023

Byddwn yn cadw targedau ailgylchu gwastraff deunydd pacio busnesau 2022 yn 2023 ar gyfer pob math o ddeunydd pacio. Caiff y targedau hyn eu cyflwyno drwy ddiwygiad i Reoliadau 2007. Rydym yn derbyn y bydd gan fusnesau ofynion ychwanegol yn 2023 wrth iddynt baratoi ar gyfer cyflwyno EPR yn 2024.

Bydd targedau ailgylchu gwastraff deunydd pacio yn cael eu gosod o dan reoliadau EPR o 2024 ymlaen, a nodir ein cynigion isod.

Fframwaith ar gyfer targedau deunydd pacio

Gwnaethom gynnig fframwaith targedau ar gyfer deunydd pacio o fewn cwmpas y rheoliadau EPR, yn gryno, roedd hyn yn nodi:

- Ffocws cychwynol ar gynyddu ailgylchu deunydd pacio tra'n dangos ein hawydd i fwy o ddeunydd pacio y gellir ei aildefnyddio a'i ail-lenwi gael ei ddefnyddio;
- Targedau ailgylchu i'w gosod ar gyfer plastig, cerdyn, dur, alwminiwm, gwydr a phren, hyd at 2030 yn y lle cyntaf. Bydd y targedau hyn yn cael eu sefydlu ledled y DU a bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban eu cyrraedd;
- Cyflwyno targedau ailgylchu ar gyfer deunyddiau mathau ychwanegol o ddeunydd pacio yn y dyfodol;
- Ystyried yr angen am is-dargedau ychwanegol i anfon deunydd yn ôl i'r un cymwysiadau neu gymwysiadau tebyg (y cyfeirir atynt fel targedau 'dolen gaeedig'); ac
- Ystyriaeth bellach i dargedau neu rwymedigaethau i gymell y defnydd o systemau deunydd pacio y gellir eu hail-lenwi a'u haildefnyddio.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r fframwaith arfaethedig. O'r 384 o ymatebion: roedd 75% yn cytuno â'r cynnig, roedd 12% yn anghytuno ac ni fynegodd 13% farn.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai targedau lluosog ei gwneud yn aneglur pa dargedau y dylid canolbwyntio arnynt, yn enwedig os ydynt yn adrodd ar dargedau fesul gweinyddiaeth ddatganoledig. Roedd pryderon hefyd ynghylch y canfyddiad o ddiffyg ffocws ar ganlyniadau amgylcheddol a allai annog ymddygiad gwrthgynhyrchiol ymhlith cynhyrchwyr deunydd pacio a chynhyrchwyr gwastraff. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r cynigion arwain at dagfa seilwaith, gan y gallai diffyg capasiti ailbrosesu yn y DU rwystro cynnydd. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch bwch rhwng yr hyn sy'n bosibl ar hyn o bryd a'r hyn y byddai angen ei roi ar waith i gyflawni targedau yn y dyfodol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr amserlen ar gyfer gweithredu'r fframwaith yn rhy araf ac y dylid cyflymu'r broses o gyflawni targedau lle bo hynny'n bosibl.

Mae gweddill yr adran hon yn mynd i'r afael ag elfennau penodol o'r fframwaith hwn. Mae'r adran 'Deunydd pacio y gellir ei ail-lenwi a'i aildefnyddio' 'Refillable and reusable

packaging' yn rhoi crynodeb o'r adborth a ddarparwyd ar rai opsiynau cychwynol a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Targedau ailgylchu deunydd pacio yn ôl math o ddeunydd (Cwestiynau 8-18)

Gwnaethom gynnig isafswm cyfraddau targed ailgylchu ar gyfer 2024 a 2030 ar gyfer chwe math o ddeunydd pacio (gweler isod yn Nhabl 1) a chynnig gosod targedau blynyddol hyd at 2030. Nodwyd y byddai angen cyrraedd y targedau hyn ym mhob gweinyddiaeth ddatganoledig a byddem yn rhagori ar y safonau a bennwyd ar gyfer 2030 ar gyfer aelodau'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd.

Plastig:

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r targed gofynnol arfaethedig i'w gyrraedd erbyn 2030 ar gyfer plastig. O'r 928 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, nid oedd 54% yn cytuno nac yn anghytuno, roedd 30% yn cytuno ac roedd 16% yn anghytuno. Dywedodd rhai ymatebwyr a gytunodd fod targed uchel ar gyfer ailgylchu plastig yn gadarnhaol, cyhyd â bod y seilwaith ar waith i ddioli ac ailbrosesu'r deunydd a gesglir.

Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar yr angen i fanylion DRS Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon fod yn hysbys gan gynnwys y perfformiad a ragwelir. Roeddent yn tynnu sylw hefyd at yr angen i gadarnhau a fyddai'n ofynnol casglu ffilmiau a deunydd pacio hyblyg i'w hailgylchu o gartrefi a busnesau, gan y bydd hyn yn effeithio ar y cyflenwad o ddeunydd pacio plastig i'w ailgylchu ac felly targedau o dan EPR. Teimlai rhai ymatebwyr fod y targed arfaethedig yn rhy isel os yw'r Llywodraeth am arwain ar faterion amgylcheddol a chymell busnesau a defnyddwyr i newid y ffordd y maent yn cynhyrchu ac yn defnyddio deunydd pacio plastig. Awgrymodd rhai y dylai gyd-fynd â tharged Cytundeb Plastigau'r DU o ailgylchu neu gompostio 70% o ddeunydd pacio plastig erbyn 2025.

Pren:

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn y dylid gosod targed ailgylchu uwch na'r gyfradd a roddwyd ar gyfer pren yn 2030, a oedd yn isafswm yn ein barn ni. O'r 852 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 62% yn ansicr, roedd 23% yn credu y dylem osod targedau uwch ac roedd 16% yn credu na ddylem. Roedd y gefnogaeth i beidio â gosod targedau uwch yn cynnwys y gellid cyflawni'r rhain drwy ddargyfeirio pren i ailgylchu o lwybrau aildefnyddio gwell,⁴ yn hytrach na thrwy ddargyfeirio mwy o bren rhag cael ei waredu fel tirlenwi. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y byddai angen targedau uwch er mwyn

⁴ Atgyfnerthir hyn gan y ffaith bod cyfran uchel o ddeunydd pacio pren yn baledau.

blaenoriaethu ailgylchu dros gynhyrchu ynni, yn unol â'r hierarchaeth wastraff ac egwyddorion economi gylchol. Roedd llawer o'r farn bod y cynigion ar gyfer pren yn ddiffygiol o ran uchelgais, yn enwedig o'u cymharu â'r targedau ar gyfer deunyddiau eraill.

Gofynnwyd hefyd a ddylid gosod is-darged i annog marchnadoedd terfynol hirdymor ar gyfer pren wedi'i ailgylchu. O'r 842 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 68% o'r ymatebwyr yn ansicr, roedd 27% yn cefnogi'r cynnig ac nid oedd 5% yn cefnogi'r cynnig. Roedd pryderon yn eang, gan gynnwys nad oedd is-darged yn ymarferol, na fyddai'n sicrhau marchnad, byddai'n cyfaddawdu eglurder a sefydlogrwydd a ddarperir gan y targed cyffredinol, ac yn atal ailddefnyddio rhag cael ei flaenoriaethu dros sefydlu marchnadoedd terfynol ar gyfer pren wedi'i ailgylchu.

Alwminiwm:

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r targed ailgylchu ar gyfer alwminiwm i'w gyrraedd erbyn 2030 fod yn uwch na'r gyfradd yn Nhabl 1. O'r 899 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, ni fynegodd 52% farn, credai 46% y gallai'r targed fod yn uwch ac roedd 2% yn credu na allai fod yn uwch. Roedd pryderon yn ymwneud â'r effaith y byddai cyflwyno DRS yn ei chael ar gyfraddau ailgylchu, y deunydd pacio alwminiwm a fyddai'n rhan o gasgliadau ailgylchu cartrefi (aerosolau a ffoil yn benodol), ac a allai capasiti ailbrosesu'r DU ymdopi ag ailgylchu mwy o'r mathau hyn o ddeunydd pacio.

Dur:

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r targed gofynnol arfaethedig i'w gyrraedd erbyn 2030 ar gyfer dur. O'r 886 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, ni fynegodd 46% farn, roedd 40% yn cytuno ac roedd 14% yn anghytuno. Er bod bron i dri chwarter y rhai a fynegodd farn yn cytuno â'r cynigion, mynegwyd pryderon ynghylch a fyddai modd cyflawni'r targed hwn yn sgil deunydd yn cael ei golli o'r system (oherwydd tan-adrodd gan fasnachwyr sgrap bach a ffactorau eraill).

Papur/Cerdyn:

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r targed gofynnol arfaethedig i'w gyrraedd erbyn 2030 ar gyfer papur/cerdyn. O'r 934 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 65% yn cytuno â'r targed gofynnol arfaethedig ar gyfer papur a cherdyn, roedd 7% yn anghytuno ac ni fynegodd 28% farn. Roedd gan lawer o ymatebwyr bryderon y gallai cyflawni'r targed fod yn ddibynnol ar systemau casglu priodol a'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o ddioli papur a cherdyn. Roeddent yn teimlo y gallai fod yn anodd cyrraedd y targedau arfaethedig os yw deunyddiau plastig hyblyg yn gymysg â phapur a cherdyn mewn casgliadau ailgylchu.

Gwydr:

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r targed gofynnol arfaethedig i'w gyrraedd erbyn 2030 ar gyfer gwydr. O'r 887 o ymatebwyr a atebodd y

cwestiwn hwnnw, roedd 49% yn cytuno â'r targed arfaethedig, roedd 6% yn anghytuno ac ni fynegodd 45% farn. Roedd y prif bryder yn ymwneud ag ansicrwydd ynghylch yr effaith y byddai DRS yn ei chael ar ailgylchu gwydr, a sut y gallai'r cynlluniau hyn effeithio ar ymddygiad defnyddwyr (gan gynnwys ailgylchu deunydd pacio gwydr nad yw ar gyfer diodydd, sy'n golygu y gallai fod yn anodd cyrraedd y targed arfaethedig ar gyfer deunydd pacio gwydr o fewn cwmpas EPR). Teimlai rhai ymatebwyr fod y targed arfaethedig yn ddiffygiol o ran uchelgais gan fod gwydr yn hawdd ei ailgylchu. Gofynnwyd am farn hefyd am y lefel y dylem osod targed ail-doddi ar gyfer gwydr nad yw'n boteli, hyn yng nghydestun cynnwys cynwysyddion diodydd gwydr o fewn cwmpas DRS. Roedd yr awgrymiadau'n amrywio rhwng 70% a 90%.

Deunydd pacio cyfansawdd seiliedig ar ffeibr:

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i osod targedau ailgylchu ar gyfer deunydd pacio cyfansawdd seiliedig ar ffeibr. O'r 962 o ymatebwyr, roedd 42% yn cytuno, 19% yn anghytuno a 40% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y gallai targed ar gyfer pob cyfansoddyn seiliedig ar ffeibr fod yn ddiangen gan y gallai cyfansoddion ffeibr eraill ddod o fewn y system modiwliddio ffioedd EPR arfaethedig. Roedd llawer yn pryderu hefyd na fyddai'r targed yn seiliedig ar ddata dibynadwy, yn enwedig yn dilyn COVID-19, ac y byddai'n anodd ei fesur. Teimlai'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig y byddai'n ysgogi ac yn galluogi ailgylchu mwy effeithiol ac yn cymell llai o ddefnydd o ddeunydd.

Targedau 'dolen gaeedig':

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y gallai fod angen targedau ailgylchu 'dolen gaeedig'⁵ ar gyfer plastig, yn ogystal â'r dreth ar ddeunydd pacio plastig. O'r 990 o ymatebwyr, roedd 40% yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd 32% yn anghytuno ac ni fynegodd 27% farn. Roedd llawer yn pryderu y gallai ychwanegu targedau ailgylchu dolen gaeedig ar gyfer plastig achosi cymhlethdodau diangen ac anwybyddu natur fyd-eang y gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion plastig. Mynegodd llawer bryderon hefyd ynghylch y seilwaith annigonol ar gyfer casglu ar garreg y drws a dibyniaeth ar allforio cynhyrchion ailgylchadwy, sy'n golygu nad oes llawer o botensial ar gyfer targedau ailgylchu dolen gaeedig yn y DU. Fodd bynnag, mynegodd y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig gefnogaeth i dargedau ailgylchu dolen gaeedig gan deimlo y byddent yn helpu i ysgogi cefnogaeth a chyllid ar gyfer buddsoddi mewn ailgylchu plastig a seilwaith.

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi a allai unrhyw ddeunydd pacio arall elwa ar dargedau ailgylchu dolen gaeedig. Atebodd cyfanswm o 725 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda

⁵ Digwyddiad dolen gaeedig yw un lle na ellir aildefnyddio deunydd pacio fel hambyrddau bwyd neu ei ddarparu i'w ailgylchu ac y gellir casglu deunydd pacio compostadwy i'w gompostio mewn cyfleuster sy'n derbyn y deunydd.

llawer yn awgrymu deunyddiau penodol gan gynnwys: alwminiwm, cardbord, deunyddiau compostadwy, gwydr, metel, plastig, dur a phren. Dywedodd rhai nad ailgylchu dolen gaeedig yw'r canlyniad mwyaf dymunol bob amser ar gyfer deunydd pacio gan ei fod yn gorsymleiddio llif y deunydd felly gallai danseilio amcanion cynaliadwyedd ehangach.

Penderfyniadau ar dargedau ailgylchu ar gyfer deunydd pacio o fewn cwmpas EPR

Byddwn yn mabwysiadu'r fframwaith fel canllaw i osod targedau ar gyfer deunydd pacio sydd o fewn cwmpas y rheoliadau EPR.

Byddwn yn gosod targedau ailgylchu blynyddol ar gyfer y chwe deunydd pacio (plastig, papur/cerdyn, dur, alwminiwm, gwydr, pren) ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2024 a 2030. Mae'r targedau ar gyfer 2024 a 2030 i'w gweld yn Nhabl 1 isod. Bydd targedau ar gyfer y blynyddoedd rhyngddynt yn cael eu gosod ar lwybr i gyrraedd targedau 2030.

Nid ydym yn cynnig targedau ailgylchu ar gyfer deunydd pacio pren ar hyn o bryd. Byddwn yn gwneud gwaith pellach gyda'r sector pren i archwilio opsiynau ar gyfer gosod rhwymedigaethau ailddefnyddio ar gyfer paledi pren, yn hytrach na thargedau ailgylchu. Byddai targedau ailgylchu'n cael eu gosod ar gyfer pob deunydd pacio pren arall, er mwyn sicrhau bod paledi'n cael eu defnyddio cyhyd ag y bo modd, ac i osgoi targedau ailgylchu uwch gan ddatgymell systemau dolen gaeedig ar gyfer paledi. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2022 gyda'r trefniadau a'r targedau newydd yn weithredol o 2024 ymlaen.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i dargedau ailgylchu ar gyfer deunydd pacio cyfansawdd seiliedig ar ffeibr gael eu cyrraedd o 2026 ymlaen, ar ôl ymgysylltu â chynhyrchwyr â rhwymedigaeth, sefydliadau deunyddiau a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Bydd y targed ail-doddi gwydr yn cael ei gynyddu i 80% erbyn 2030; ni fyddwn yn cyflwyno unrhyw dargedau dolen gaeedig ychwanegol ar hyn o bryd; ond bydd targedau'n cael eu hadolygu'n gyson.

Bydd cynhyrchwyr yn dangos eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau ailgylchu drwy gaffael nodiadau adfer gwastraff deunydd pacio (allforio) fel o dan y trefniadau presennol.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflwyno rhwymedigaethau ailddefnyddio/ail-lenwi a byddwn yn cyflwyno ein cynigion gyda'r bwriad o'u cyflwyno yn 2025.

Tabl 1: Targedau ailgylchu ar gyfer deunydd pacio sydd o fewn cwmpas rheoliadau EPR

	Targedau ar gyfer 2024		Targedau ar gyfer 2030	
	Cynigiwyd yn yr ymgynghoriad	Targedau arfaethedig terfynol	Cynigiwyd yn yr ymgynghoriad	Targedau arfaethedig terfynol
Plastig	41%	51%	56%	62%
Pren	38%	I'w gadarnhau	39%	I'w gadarnhau
Alwminiwm	30%	45%	30%	50%
Dur	85%	82%	92%	85%
Papur/ Cerdyn	76%	80%	85%	89%
Gwydr	71%	75%	81%	83%
Ail-doddi gwydr	Amherthnasol	74%		80%
Cyfradd ailgylchu gyffredinol	63%	68%	81%	76%

Mae ein penderfyniadau ar dargedau ailgylchu'n ystyried penderfyniadau polisi terfynol ar gwmpas DRS yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a phenderfyniadau ar bolisiâu eraill a fydd yn effeithio ar gyfraddau ailgylchu deunydd pacio megis y mesurau cysondeb ailgylchu yn Lloegr. Rydym wedi cael trafodaethau pellach gyda sefydliadau masnach perthnasol hefyd. Ar gyfer sawl deunydd, mae'r targedau wedi'u cynyddu o'r rhai a gynigiwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae targedau gwydr wedi cynyddu, gan adlewyrchu'r penderfyniad i beidio â chynnwys cynwysyddion diodydd gwydr yn y DRS yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae targedau alwminiwm wedi cynyddu i adlewyrchu'n well y deunydd pacio alwminiwm sy'n cael ei adfer i'w ailgylchu o Ludw Gwaelod Llogswr a chyfraddau cipio uwch ar gyfer deunydd pacio caniau nad ydynt yn ddiodydd. Mae targedau plastig wedi cynyddu i adlewyrchu'r gofyniad i gyflwyno casgliadau ffilmau a deunyddiau hyblyg plastig ailgylchadwy erbyn 31 Mawrth 2027.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w gwneud yn ofynnol i dargedau ailgylchu gwastraff deunydd pacio gael eu bodloni ar wahân ym mhob rhan o'r DU. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau'r data cyfredol ar ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad ac ailgylchu gwastraff deunydd pacio, rydym yn cydnabod na fydd hyn yn bosibl o 2024 ymlaen. Byddwn yn cyflwyno mesurau i wella data ar ddeunydd pacio a gwastraff deunydd pacio (gweler yr adrannau ar 'Adrodd am ddeunydd pacio a roddwyd ar ddata'r farchnad ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban (Cwestiwn 26)' 'Reporting packaging placed on the market data for England, Northern Ireland, Scotland, and Wales (Question 26)' ac 'Adrodd ar ddata i gefnogi taliadau (Cwestiynau 56 i 65)' 'Data reporting to support payments (Questions 56 to 65)', gan gynnwys gofynion i 'werthwyr' adrodd am ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad ym mhob gweinyddiaeth ddatganoledig a chyflwyno Olrhain Gwastraff Digidol. Bydd hyn yn galluogi i ddata deunydd pacio a gwastraff deunydd pacio gael ei gasglu a'i adrodd ar gyfer pob rhan o'r DU. Bydd gosod a mesur targedau ailgylchu

gwastraff deunydd pacio gan weinyddiaeth ddatganoledig yn rhan o waith y tasglu gwastraff busnes arfaethedig ac adolygiad 2026/27. Yn y cyfamser, byddwn yn rhoi cyfres o fesurau perfformiad ar waith i fonitro effaith y diwygiadau hyn a deall a yw'r amcanion polisi a ddymunir yn cael eu cyflawni.

Data taliadau cost net lawn, rhwymedigaethau ailgylchu ac adrodd am ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad Cynhyrchwyr â Rhwymedigaeth

Perchnogion Brand a Mewnforwyr (Cwestiynau 19 ac 20)

Amlinellodd yr ymgynghoriad sawl dosbarth o gynhyrchwyr a fydd â rhwymedigaeth i dalu costau rheoli gwastraff; Perchennog y Brand a'r Mewnforiwr yw dau o'r rhain.⁶ Esboniwyd pam ein bod yn credu mai rhoi rhwymedigaeth ar y dosbarthiadau hyn o gynhyrchwyr fyddai'r dull mwyaf effeithiol.

Perchnogion brandiau

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno mai Perchnogion Brand sydd yn y sefyllfa orau i ymateb yn effeithiol ac yn gyflym i gymhellion a ddarperir drwy'r cynllun. O'r 994 a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd 59% yn cytuno, roedd 20% yn anghytuno ac nid oedd 21% yn cytuno nac yn anghytuno. Mynegodd rhai ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynigion bryderon, gan gynnwys na fyddai Perchnogion Brand yn gallu trosglwyddo costau ac felly byddent yn wynebu baich ariannol sylweddol oherwydd yr angen i gadw prisiau'n gystadleuol. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai gan Werthwyr (manwerthwyr) fwy o reolaeth a dylanwad dros y deunydd pacio a ddefnyddir ac y byddent mewn sefyllfa well i fodloni gofynion adrodd data.

Mewnforwyr

⁶ Gweler tudalen 46 y ddogfen ymgynghori i weld y diffiniadau arfaethedig o'r rhain a'r mathau eraill o gynhyrchwyr. Gellir gweld y ddogfen yma: <https://consult.defra.gov.uk/extended-producer-responsibility/extended-producer-responsibility-for-packaging/>

Gofynnwyd a oes unrhyw sefyllfaoedd lle byddai'r dull arfaethedig o ymdrin â mewnforywr yn arwain at fewnforio deunydd pacio i'r DU nad oes rhwymedigaeth yn gysylltiedig ag ef.⁷ Atebwyd y cwestiwn hwn gan 654 o ymatebwyr. Mynegodd llawer o'r sylwadau gefnogaeth i'r cynnig a theimlent y byddai'n cipio'r holl ddeunydd pacio y bwriedir iddo'i wneud. Teimlai rhai bod y cynigion wedi'u gorgymhlethu ac y gallent achosi heriau o ran y dehongliad cywir o ba gategori y byddai busnes yn perthyn iddo, yn ogystal â chreu dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y deunydd pacio. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai canllawiau rheoliadol yn helpu i wneud y rhwymedigaeth yn gliriach.

Penderfyniadau ar Berchnogion Brandiau a Mewnforywr

Byddwn yn gosod rhwymedigaeth ar Berchnogion Brandiau a Mewnforywr (yn ogystal â chynhyrchwyr eraill, a drafodir ymhellach isod) fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Credwn na fydd y cynhyrchwyr hyn yn ysgwyddo'r holl gost ariannol, ac y byddant yn hytrach yn ceisio trosglwyddo rhai o'r costau hyn. Er y bydd gan Werthwyr rywffaint o ddylanwad dros y deunydd pacio a ddefnyddir ar y cynhyrchion y maent yn eu gwerthu, credwn mai Perchnogion Brand yn gyffredinol fydd yn cael y dylanwad mwyaf. Yn ogystal, bydd gan Berchnogion Brandiau fynediad at wybodaeth fanwl am y deunydd pacio a ddefnyddir, gan wneud rhwymedigaethau adrodd yn llai cymhleth. Byddwn yn sicrhau eglurder o ran y rhwymedigaethau yn y cyfnod cyn i'r rheoliadau newydd ddod i rym.

Dull ar gyfer busnesau bach (Cwestiynau 21, 22 a 27)

Amlinellwyd tri opsiwn gennym ar gyfer creu rhwymedigaeth yn ymwneud â llawer mwy o ddeunydd pacio, tra'n sicrhau nad yw'r cynhyrchwyr lleiaf yn cael gorfod wynebu'r baich adrodd yn uniongyrchol. Roedd Opsiwn 1 yn cynnig gostwng y trothwy de minimis presennol.⁸ Roedd Opsiynau 2 a 3 yn cynnig gosod rhwymedigaeth ar weithgynhyrchwyr, mewnforywr a chyfanwerthwyr (Opsiwn 2), neu ar weithgynhyrchwyr a mewnforywr yn unig (opsiwn 3), lle mae deunydd pacio heb ei lenwi yn cael ei werthu i fusnesau o dan y trothwy de minimis.

Gofynnwyd i randdeiliaid pa un o Opsiynau 2 a 3 a fyddai'n fwyaf effeithiol o ran cipio mwy o ddeunydd pacio a sicrhau bod y busnesau lleiaf yn cael eu diogelu rhag baich gormodol. O'r 940 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 32% yn cefnogi Opsiwn 3, roedd 15% yn cefnogi Opsiwn 2, nid oedd 31% yn cefnogi'r naill opsiwn na'r llall, ac nid oedd 22% yn gwybod.

⁷ Ac eithrio os yw'r mewnforywr neu'r perchennog cyntaf o dan y de minimis, neu os caiff y deunydd pacio ei allforio wedyn.

⁸ Mae hwn yn drothwy y mae'n rhaid i fusnes fod yn fwy nag ef i fod dan rhwymedigaeth.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn bod achos cryf i leihau'r trothwy de minimis yn Opsiwn 1, pe bai Opsiwn 2 neu 3 yn cael eu gweithredu. O'r 929 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 57% o blaid gostwng y trothwy de minimis presennol i drosiant o £1 filiwn a 25 tonnall o ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad, nid oedd 16% yn cefnogi hyn ac roedd 27% yn ansicr. Roedd y rhai a oedd o blaid yn credu y byddai gostwng y de minimis yn arwain at sefyllfa decach a'i fod yn gyson â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Cododd rhai bryderon am y baich cynyddol ar Weinyddwr y Cynllun ac ar y cynhyrchwyr bach newydd.

Gofynnwyd hefyd a ddylid dileu'r "dull dyrannu" sydd â'r nod o leddfu beichiau adrodd ar gwmnïau ychydig dros y lefel de minimis. O'r 915 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 59% yn cytuno y dylid dileu'r dull dyrannu ac roedd 6% yn anghytuno, ac nid oedd y 34% arall wedi mynegi barn.

Penderfyniadau ar fusnesau bach

Byddwn yn cynnal y trothwy de minimis presennol (trosiant o £2 filiwn a 50 tonnall o ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad) ar gyfer cynhyrchwyr y mae'n ofynnol iddynt dalu ffioedd i dalu costau gwaredu ac sydd â rhwymedigaethau o dan y system PRN.

Yn ogystal â hyn byddwn yn creu trothwy de minimis o drosiant o £1 filiwn a 25 tonnall. Bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr sydd rhwng y ddau drothwy adrodd faint o ddeunydd pacio, yn ôl deunydd a math o ddeunydd pacio, y maent yn ei roi ar y farchnad yn 2024. Ni fydd yn ofynnol iddynt dalu ffioedd i dalu costau gwaredu na chael PRNs/PERNs. Byddwn yn defnyddio'r dull hwn tan o leiaf 2026, pan fyddwn yn ei adolygu. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar gynhyrchwyr bach, tra'n parhau i'w cynnwys yn y system, gan gynyddu eu hymwybyddiaeth o effeithiau eu deunydd pacio. Bydd yn darparu gwybodaeth ychwanegol am faint o ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad i lywio adolygiad 2026/7.

Byddwn yn gweithredu Opsiwn 3, gan roi rhwymedigaeth ar weithgynhyrchwyr a mewforwyr deunydd pacio heb ei lenwi am y deunydd pacio hwnnw oni bai ei fod yn cael ei werthu i gynhyrchydd sydd â rhwymedigaeth cost gwaredu. Bydd hyn yn arwain at roi gwybod am fwy o ddeunydd pacio yn y system a rhannu'r costau'n decach ymhlith cynhyrchwyr, tra'n diogelu'r busnesau lleiaf rhag rhwymedigaethau adrodd beichus.

Ni fyddwn yn cynnwys dull dyrannu, gan nad yw hyn yn gyson ag egwyddor y "llygrwr sy'n talu" ac ni fyddem yn caniatáu i ffioedd gael eu modiwlleiddio.

Marchnadoedd ar-lein (Cwestiynau 23 i 25)

Amlinellodd yr ymgynghoriad ein cynnig i roi rhwymedigaeth ar Farchnadoedd Ar-lein (OMPs) ar gyfer deunydd pacio wedi'i lenwi a werthir yn y DU drwy eu platfformau gan

fusnesau y tu allan i'r DU.⁹ Nid yw hyn yn cynnwys busnesau sy'n defnyddio eu gwefannau neu eu hapiâu eu hunain i werthu eu nwyddau'n uniongyrchol i gwsmeriaid, neu ddeunydd pacio a werthir gan un aelwyd breifat i'r llall.

Gwnaethom gynnig hefyd y byddai'n ofynnol i OMPs gyflwyno cymaint o ddata â phosibl ar bwysau gwirioneddol deunydd pacio a roddir ar farchnad y DU, gyda'r opsiwn iddynt gynnig methodoleg i'r rheoleiddwyr y gellid ei defnyddio i wneud iawn am fylchau yn eu data. Gwnaethom ystyried ymestyn y rhwymedigaeth ar OMPs i gynnwys deunydd pacio heb ei lenwi a werthir mewn meintiau mawr drwy OMPs o'r tu allan i'r DU (gyda throthwy i osgoi targedu symiau bach sy'n cael eu cyflenwi i unigolion at ddibenion heblaw pacio). Yn olaf, amlinellwyd ein hystyriaeth o roi rhwymedigaeth ar dai cyflawni.¹⁰

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn y dylid rhoi rhwymedigaeth ar OMPs am ddeunydd pacio heb ei lenwi yn ogystal â deunydd pacio wedi'i lenwi. Atebodd 949 o ymatebwyr y cwestiwn hwn: roedd 77% yn cytuno, roedd 7% yn anghytuno ac roedd 16% yn ansicr. Awgrymodd sylwadau cefnogol y byddai rhoi rhwymedigaeth ar OMPs ar gyfer deunydd pacio heb ei lenwi yn cyfrannu at sefyllfa decach ac yn gyson ag egwyddor y llygrwr sy'n talu. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai fod perygl y byddai deunydd pacio'n cael ei adrodd ddwywaith, gan y byddai'n anodd i OMPs wybod a yw'r gwerthiant y maent yn ei hwyluso i gynhyrchwyr heb rwymedigaeth.

Gofynnwyd hefyd a oedd rhanddeiliaid yn rhagweld unrhyw broblemau o beidio â rhoi rhwymedigaeth ar OMPs yng nghyswllt deunydd pacio a werthir drwy eu platfformau gan fusnesau yn y DU. O'r 910 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 38% yn teimlo y byddai problemau, roedd 22% yn teimlo na fyddai problemau a 40% yn ansicr.¹¹ Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y byddai'r cynnig yn effeithio'n anghymesur ar gostau busnesau yn y DU o gymharu â busnesau tramor. Fodd bynnag, ein barn ni yw ei bod yn ymarferol i'r rheoleiddwyr fonitro cydymffurfiaeth busnesau yn y DU yn effeithiol, ond nid yw'n bosibl gwneud yr un peth gyda busnesau nad ydynt yn y DU. Felly, rydym wedi penderfynu na fyddai'n briodol i Farchnadoedd Ar-lein ysgwyddo'r rhwymedigaeth am ddeunydd pacio a werthir gan fusnesau yn y DU. Byddwn yn eithrio gwerthiannau gan fusnesau'r DU, er mwyn canolbwyntio'r rhwymedigaeth ar werthiannau gan fusnesau nad ydynt yn y DU.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn bod unrhyw rwystrau i OMPs ddatblygu methodoleg ar gyfer llenwi unrhyw fylchau yn eu data mewn pryd ar gyfer dechrau adrodd ym mis Ionawr 2022. O'r 901 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 33% yn cytuno

⁹ Mae OMPs yn rhoi platfform i eraill ei ddefnyddio i werthu eu nwyddau. Er enghraifft, byddai gan OMP rhwymedigaeth am y deunydd pacio o amgylch teledu pe bai'n cael ei werthu gan fusnes o Ffrainc yn uniongyrchol i ddefnyddiwr yn y DU. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw rwymedigaethau a all fod ganddynt fel Perchennog Brand neu ddothbarth arall o gynhyrchydd.

¹⁰ Mae tai cyflawni'n fusnesau sy'n storio ac yn darparu cynnyrch ar ran eu cleientiaid.

¹¹ Wrth adolygu ymatebion i'r cwestiwn hwn, rydym yn cydnabod nad yw rhai rhanddeiliaid wedi deall ein cynnig yn llawn o reidrwydd, ac rydym wedi ceisio darparu eglurder ychwanegol yn yr ymateb hwn.

bod rhwystrau, roedd 19% yn anghytuno a 49% yn ansicr. O ystyried y bydd EPR yn cael ei weithredu yn 2024, bydd angen i OMPs fod yn barod i ddechrau coladu data yn 2023, yn hytrach na 2022.

Trafodwyd eithrio gwerthiannau rhwng aelwydydd preifat. Rydym wedi penderfynu mabwysiadu 'dull ansoddol', yn seiliedig ar adborth gan OMPs a chynseiliau a osodwyd mewn mannau eraill wrth lunio polisiau yn y DU.¹² Ni fydd gan y rheoliadau drothwy rhifiadol ar gyfer pennu a yw gwerthiant rhwng aelwydydd preifat; bydd angen i OMPs ddiffinio sut y byddant yn nodi'r gwerthiannau hyn a chyflwyno'r dull hwn i'r rheoleiddwyr fel rhan o'u methodoleg adrodd.

Awgrymwyd hefyd y gellid ehangu'r rhwymedigaeth ar OMPs i gynnwys tai cyflawni,¹³ a nodwyd ein bod yn datblygu ein syniadau ar hyn. Er bod tebygrwydd rhwng y ddau, mae OMPs yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau archebion a darparu 'blaen siop' a brand credadwy i fusnesau nad ydynt wedi cael mynediad i farchnad y DU fel arall o reidrwydd; nid yw tai cyflawni'n ymwneud â hwyluso gwerthiant.¹⁴

¹² Mae CThEM yn defnyddio dull ansoddol o ddiffinio busnes; mae Deddf TAW ddiwygiedig 1984 yn defnyddio dull goddrychol ac yn diffinio OMPs (mewn perthynas â TAW) ym Mharagraff 5(1)(a); mae Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 yn defnyddio dull ansoddol o ddiffinio pwy sy'n fasnachwr a phwy sy'n ddefnyddiwr ym Mharagraff 2(2) i Baragraff 2(4).

¹³ Credwn fod tŷ cyflawni'n fusnes sy'n storio ac yn pacio nwyddau sy'n eiddo i unigolyn arall, gyda'r bwriad o'u gwerthu gan yr unigolyn hwnnw.

¹⁴ Gall rhai OMPs redeg gwasanaethau tŷ cyflawni hefyd.

Penderfyniadau ar farchnadoedd ar-lein

Byddwn yn rhoi rhwymedigaeth ar OMPs mewn perthynas â deunydd pacio wedi'i lenwi a werthir yn y DU drwy eu platfformau gan fusnesau y tu allan i'r DU. Byddwn yn eithrio deunydd pacio a werthir gan un aelwyd breifat i'r llall drwy OMPs, ac ni fyddwn yn rhoi rhwymedigaeth ar OMPs mewn perthynas â deunydd pacio a werthir yn y DU drwy eu platfformau fusnesau sydd wedi'u lleoli yn y DU.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i OMPs gyflwyno cymaint o ddata â phosibl ar bwysau gwirioneddol deunydd pacio a roddir ar farchnad y DU, gyda'r opsiwn iddynt gynnig methodoleg i'r rheoleiddwyr y gellid ei defnyddio i wneud iawn am fylchau data.

Byddwn yn rhoi rhwymedigaeth ar OMPs am ddeunydd pacio heb ei lenwi, ond ni fyddwn yn gosod trothwy ar gyfer penderfynu ble mae deunydd pacio'n cael ei werthu i unigolion at ddibenion nad ydynt yn rhai busnes.

Rhwymedigaethau Cynhyrchwyr i Adrodd Data Deunydd Pacio

Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd, bydd angen i gynhyrchwyr adrodd data manwl ar ddeunydd pacio, gyda dwy elfen allweddol. Yn gyntaf, bydd angen iddynt adrodd ar faint a'r math(au) o ddeunydd pacio y maent wedi'i roi ar y farchnad. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio gan y rheoleiddwyr i gyfrifo eu rhwymedigaethau ailgylchu ac felly'r gofynion i gaffael PRN/PERNs, a chan yr SA i bennu'r ffioedd costau gwaredu y byddant yn eu talu am wastraff deunydd pacio cartrefi, ac i reoli deunydd pacio wrth fynd a roddir mewn biniau stryd. Yn ail, bydd angen iddynt adrodd am fanylion pellach eu deunydd pacio i lywio'r asesiad o'i ailgylchadwyedd ac i alluogi i ffioedd costau gwaredu gael eu modiwliddio, yn ogystal â llywio sut y maent yn labelu eu deunydd pacio. Bydd angen hefyd i werthwyr cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr 'wedi'u llenwi' adrodd (naill ai'n uniongyrchol i'r rheoleiddiwr neu i'r rheoleiddiwr drwy gynllun derbyn yn ôl) pwysau'r cwpanau y maent wedi'u casglu a'u hailgylchu bob blwyddyn.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall yr union wybodaeth y bydd angen i gynhyrchwyr ei hadrodd. Byddwn yn cyhoeddi ac yn cyfleu manylion y gofynion adrodd yn glir unwaith y byddant wedi'u cwblhau. Dyma'r mathau o wybodaeth y disgwyliwn y bydd angen i gynhyrchwyr eu casglu a'u hadrodd (gall y rhain newid:

- Bydd angen i bob cynhyrchydd dan rwymedigaeth gasglu gwybodaeth o dan y categorïau deunyddiau canlynol: Plastig, Gwydr, Dur, Alwminiwm, Pren, Papur/Cerdyn, Cyfansoddion seiliedig ar Ffeibr, Arall.
- Efallai y bydd angen i Berchnogion Brand, Mewnforwyr, Dosbarthwyr a Darparwyr Gwasanaethau gasglu gwybodaeth am ddeunydd pacio hefyd megis:
 - Deunydd pacio sy'n cael ei 'roi mewn biniau stryd yn aml'
 - Gwybodaeth ychwanegol am ddeunyddiau – fel y math o bolymer plastig, pren wedi'i drin/heb ei drin, neu bapur wedi'i lamineiddio

- Swyddogaeth – Cynradd, Cludiant (deunydd pacio a ddefnyddir i ddanfôn nwyddau'n uniongyrchol i aelwydydd), Eilaid neu Drydyddol
- Ffrwd wastraff – tystiolaeth ynghylch a yw deunydd pacio'n debygol o fynd i ffrwd wastraff cartrefi ai peidio yn y pen draw.
- Gwybodaeth am y cynnyrch sydd yn y deunydd pacio – megis bwyd/rhywbeth nad yw'n fwyd, peryglus (fel y'i diffinnir gan EN643)/nad yw'n beryglus, silicôn, mastig ac ati.
- Cydrannau deunydd pacio – y cydrannau sy'n ffurfio'r eitem deunydd pacio gyfan a phwysau pob cydran
- Pethau sy'n tarfu ar ailgylchu – fel cydrannau metel, lliw du carbon, inciau UV a farnais ac ati.
- Galluogwyr ailgylchu – fel inciau canfyddadwy sy'n galluogi didoli ac ailbrosesu gwell
- Fformat/ disgrifiad y deunydd pacio – er enghraifft twb, hambwrdd, bag, bocs, jar, ac ati
- Lliw'r deunydd

Rydym yn datblygu platfform digidol a fydd yn caniatáu i gynhyrchwyr gofrestru ac adrodd ar eu data; bydd data perthnasol yn cael ei rannu gyda'r SA a'r rheoleiddwyr. Bydd yn rhaid i gynhyrchwyr adrodd am ddata deunydd pacio ddwywaith y flwyddyn, ym mis Hydref ac Ebrill bob blwyddyn, gyda phob cyflwyniad data'n cwmpasu cyfnod o chwe mis. Bydd gan gynhyrchwyr dri mis i goladu ac adrodd ar y data hwn: er enghraifft, byddai cyflwyniad mis Ebrill yn gofyn am ddata o chwe mis olaf y flwyddyn galendr flaenorol (h.y. Gorffennaf i Ragfyr). Bydd angen i rai cynhyrchwyr adrodd yn flynyddol hefyd ym mha ran o'r DU y rhoddir eu deunydd pacio ar y farchnad.

Bydd cynhyrchwyr yn gallu cyflwyno tystiolaeth o wastraff deunydd pacio hunanreoledig er mwyn lleihau eu rhwymedigaeth i dalu am yr un math o ddeunydd pacio cartrefi. Gallai hyn fod yn wastraff deunydd pacio a gesglir 'o flaen siop', drwy gynlluniau 'anfon yn ôl' neu gynlluniau eraill a sefydlwyd gan gynhyrchwyr i gasglu deunydd pacio sylfaenol i'w ailgylchu. Dim ond pan nad yw'n ofynnol i awdurdodau lleol (ALLau)¹⁵ gasglu'r deunydd pacio hwnnw i'w ailgylchu y bydd hyn yn bosibl ac y gall y cynhyrchwyr ddarparu tystiolaeth o'i ailbrosesu, ac eithrio pan fydd yn codi fel rhan o system aildefnyddio (e.e. poteli llaeth gwydr). Pan fydd hyn yn digwydd, gellid defnyddio ailgylchu'r deunydd pacio hwn y gellir ei aildefnyddio, pan fydd yn cyrraedd diwedd ei oes, i leihau rhwymedigaeth talu cynhyrchydd, hyd yn oed os yw'r fformat hwnnw o ddeunydd pacio'n cael ei gasglu i'w ailgylchu gan ALLau. Bydd yn ofynnol hefyd i gynhyrchwyr sy'n hunanreoli deunydd pacio ddatgan ym mha ran o'r DU y cafodd ei daflu fel gwastraff er mwyn gallu cyfrifo cyfraddau

¹⁵ Yn y rheoliadau cysondeb ailgylchu yn Lloegr a threfniadau cyfatebol yn y Gweinyddiaethau Datganoledig

ailgylchu ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Bydd hyn yn berthnasol i bob deunydd pacio hunanreoledig, ar wahân i ddeunydd pacio 'anfon yn ôl'.¹⁶

Adrodd data am ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, a'r Alban (Cwestiwn 26)

Cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai'n ofynnol i rai cynhyrchwyr adrodd lle mae deunydd pacio'n cael ei roi ar y farchnad. Byddai'r rhwymedigaeth yn berthnasol i werthwyr, dosbarthwyr, darparwyr gwasanaethau, OMPs a Mewnforwyr, a byddai'n berthnasol i bob math o ddeunydd pacio, gan gynnwys deunydd pacio cludo a dosbarthu.

Gofynnwyd a oes unrhyw fathau o ddeunydd pacio na fyddai'r rhwymedigaeth yn adrodd yn eu cylch fel y cynigiwyd (ac eithrio deunydd pacio sy'n cael ei weithgynhyrchu a'i werthu gan fusnesau sydd islaw'r trothwy de minimis). O'r 905 o ymatebwyr, roedd 16% o'r farn y byddai, roedd 20% yn credu na fyddai, ac roedd 64% yn ansicr. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y dull arfaethedig yn ymdrin yn ddigonol â'r math o ddeunydd pacio, ond nododd rhai bod angen dadansoddi'r cynnig ymhellach er mwyn sicrhau y byddai data cywir yn cael ei gasglu.

Manteisiodd llawer o ymatebwyr ar y cyfle i fynegi pryder ynghylch cymhlethdod a chost y rhwymedigaeth i adrodd ar wahân ar ddata ar ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad ym mhob rhan o'r DU. Gan fod y DU yn farchnad sengl, fe wnaethant ddweud bod cynhyrchwyr â rhwymedigaeth yn anfon eu cynnyrch i ganolfannau dosbarthu neu gyfanwerthwyr ac nad ydynt yn gwybod o reidrwydd i ba fanwerthwyr y bydd eu cynnyrch yn cael ei gyflenwi yn y pen draw a ble y caiff ei werthu.

Rydym wedi penderfynu gweithredu'r cynnig a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad, ond gydag ychwanegiad i fynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid. Ar gyfer deunydd pacio eilaidd a thrydyddol (ond nid deunydd pacio cludiant¹⁷) gall cynhyrchwyr ddefnyddio amcangyfrifon lle nad yw'n ymarferol casglu data cwbl gywir ar ble mae deunydd pacio'n mynd yn y pen draw. Drwy ymgysylltu â chwmnïau technoleg, ein dealltwriaeth ni yw bod technolegau newydd ar y gorwel a fydd yn gwneud olrhain deunydd pacio'n haws yn y dyfodol. Felly, byddwn yn ailystyried caniatáu defnyddio amcangyfrifon ar gyfer adroddiadau deunydd pacio eilaidd a thrydyddol fel rhan o'r adolygiad yn 2026/27.

¹⁶ Er enghraifft, byddai angen i gynhyrchydd olrhain ac adrodd ar wahân faint o wastraff deunydd pacio a gesglir o siopau yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. "Ystyr "anfon yn ôl" yw trefniant a ariennir gan gynhyrchydd, lle y gellir anfon eitemau deunydd pacio sy'n anodd eu hailgylchu fel arfer at ailgylchwyr dynodedig/eu casglu gan gludwyr a'r gwaith trin/ailgylchu yn cael ei drefnu gan y cynhyrchydd.

¹⁷ Deunydd pacio yw hwn a ddefnyddir wrth gyflenwi nwyddau i aelwydydd neu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr, megis blychau cardbord.

Data am benderfyniadau ar adrodd am ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban

Byddwn yn gweithredu'r cynnig y bydd yn ofynnol i rai cynhyrchwyr adrodd lle mae deunydd pacio'n cael ei roi ar y farchnad. Bydd y rhwymedigaeth yn berthnasol i werthwyr, dosbarthwyr, darparwyr gwasanaethau, OMPs a mewnforyr, a byddai'n berthnasol i bob math o ddeunydd pacio, gan gynnwys deunydd pacio cludo a chyflenwi.

Bydd yn ofynnol i'r cynhyrchwyr hynny adrodd yn flynyddol ar ble mae deunydd pacio'n cael ei roi ar y farchnad. Yn y flwyddyn gyntaf, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau fydd Rhagfyr 2024 (ar gyfer data 2023). Bydd hyn yn ymestyn yr amserlen ar gyfer adrodd ac yn rhoi mwy o amser i gynhyrchwyr gasglu ac adrodd ar yr wybodaeth hon yn y flwyddyn gyntaf. O 2025 ymlaen, y dyddiad cau fydd mis Gorffennaf bob blwyddyn, i adrodd data ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Byddwn yn derbyn y defnydd o amcangyfrifon ar gyfer deunydd pacio eilaidd a thrydyddol tan 2027.

Cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr – gofyniad derbyn yn ôl gorfodol

Cwestiynau 28 a 29

Yn 2019, rhoddwyd tua 3.2 biliwn o gwpanau ffeibr ar y farchnad.¹⁸ Gwnaethom gynnig cyflwyno rhwymedigaeth ar werthwyr i gymryd rhan mewn cynllun(iau) derbyn yn ôl ar gyfer cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr wedi'u llenwi (y cyfeirir atynt fel cwpanau tafladwy neu untro'n aml).¹⁹ Byddai'r rhwymedigaeth hon yn cael ei chyflwyno fesul cam, gan roi rhwymedigaeth ar fusnesau mwy erbyn diwedd 2023, a phob busnes erbyn diwedd 2025, a byddai'n cyfrannu at sefydlu targedau ailgylchu ar gyfer deunydd cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffeibr pan gânt eu cyflwyno.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylid rhoi rhwymedigaeth derbyn yn ôl gorfodol, dan arweiniad cynhyrchwyr, ar werthwyr cwpanau cyfansawdd ffeibr wedi'u llenwi. Ymatebodd 919 o randdeiliaid: roedd 71% yn cytuno â chyflwyno cynllun derbyn yn ôl gorfodol, roedd 9% yn anghytuno ac roedd 20% yn ansicr. Roedd y rhai a

¹⁸ Yn 2019, rhoddwyd 3.2 biliwn o unedau deunydd pacio bwyd seiliedig ar ffeibr ar y farchnad hefyd.

¹⁹ Byddai cynllun derbyn yn ôl yn cynnwys gwerthwyr cwpanau cyfansawdd ffeibr wedi'u llenwi yn darparu cynhwysydd(cynwysyddion) penodol i'r cwpanau hyn gael eu gwaredu gan ddefnyddwyr, gan alluogi'r cwpanau i gael eu casglu a'u hanfon i'w hailgylchu. Gall hyn fod drwy drefniadau unigol gyda chwmnïau rheoli gwastraff, neu gall gwerthwyr ddewis ymuno â chynllun sy'n bodoli eisoes, lle mae biniau, casglu ac ailgylchu'r cwpanau hyn yn cael ei drefnu gan gwmni ar wahân. Byddai'r naill lwybr neu'r llall yn golygu y byddai bin penodol ar gael at ddefnydd defnyddwyr.

gytunodd yn credu y byddai hyn yn fwy effeithiol na dull gwirfoddol ac yn disgwyl iddo gynyddu cyfraddau ailgylchu, lleihau gwastraff ac osgoi sbwriel. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai cynllun gorfodol yn creu beichiau ychwanegol ar fusnesau.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â dull graddol arfaethedig o gyflwyno'r rhwymedigaeth i dderbyn yn ôl, gyda rhwymedigaeth ar fusnesau/gwerthwyr mwy cwpanau cyfansawdd ffeibr wedi'u llenwi erbyn diwedd 2023, a rhwymedigaeth ar bob gwerthwr cwpanau cyfansawdd ffeibr wedi'u llenwi erbyn diwedd 2025. Ymatebodd 915 o randdeiliaid: roedd 50% yn cefnogi dull gweithredu fesul cam, nid oedd 29% yn cytuno ac nid oedd y 21% arall yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd rhai o'r rhai a oedd yn cefnogi dull gweithredu fesul cam yn cymharu hynny â'r dull a ddefnyddiwyd i godi tâl am fagiau siopa, gan nodi y byddai dull gweithredu fesul cam yn caniatáu i fusnesau llai ymuno â chynlluniau derbyn yn ôl a sefydlir pan fydd rhwymedigaeth ar fusnesau mwy i wneud hynny. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am y dryswch y gallai hyn ei greu i ddefnyddwyr, ac nad oedd yr amserlenni'n realistig - yn rhy fyr neu'n rhy hir.

Comisiynwyd ymchwil²⁰ gennym i'r ffactorau a allai effeithio ar allu gwerthwyr cwpanau cyfansawdd ffeibr wedi'u llenwi i gyflwyno a gweithredu cynllun derbyn yn ôl, ac i nodi opsiynau ar gyfer pennu lefel trothwy yn seiliedig ar wahanol ddulliau o rannu'r diwydiant a maint busnesau. Roedd prif bryderon y rhai a gyfwelwyd yn ymwneud â chyfyngiadau gofod ar gyfer casglu a storio cwpanau, ac yna niferoedd staff a materion iechyd a diogelwch.²¹ Canfu'r ymchwil mai nifer y cyflogeion (wedi'i fesur ar sail Cyfwerth ag Amser Llawn, FTE) a throsiant busnes oedd yr opsiynau mwyaf ymarferol ar gyfer pennu lefel trothwy bosibl. Byddai defnyddio trosiant (wedi'i fesur mewn bandiau a'i ddefnyddio fel procsi ar gyfer nifer y cwpanau a werthir) yn awgrymu y gellir eithrio cyfran lai o gwpanau o'r rhwymedigaeth (yn hytrach na defnyddio FTE), pe bai trothwy i'w gynnwys ar y sail hon. Fodd bynnag, mae defnyddio trosiant fel procsi ar gyfer nifer y cwpanau a werthir yn dod â'i gymhlethdodau ei hun (e.e. ansefydlogrwydd o flwyddyn i flwyddyn, ac effaith cynhyrchion eraill a werthir yn yr un siop). Mae gan ddefnyddio nifer yr FTE y potensial i eithrio nifer fwy o gwpanau ond mae'n debygol o fod yn werth mwy sefydlog dros amser (gan roi eglurder i werthwyr ynghylch a oes ganddynt rwymedigaeth o 2023 ymlaen ai peidio).

Penderfyniadau ar dderbyn cwpanau cyfansawdd yn ôl yn orfodol

Byddwn yn cyflwyno gofyniad derbyn yn ôl gorfodol ar gyfer cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr. Bydd yn ofynnol i werthwyr cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr wedi'u llenwi sy'n cyflogi 10 neu fwy o bobl cyfwerth ag amser llawn ddarparu bin

²⁰ [Insert link to publication page]

²¹ Mae materion iechyd a diogelwch yn cyfeirio at y problemau hylendid a phlâu posibl sy'n gysylltiedig â storio cwpanau budr.

pwrpasol ar wahân ar gyfer casglu cwpanau yn 2024,²² a hysbysu'r rheoleiddiwr am y tunelledd y maent wedi'i roi ar y farchnad a'r tunelledd y maent wedi'i gasglu a'i anfon i'w ailgylchu. Pan fydd busnes yn ymuno â chynllun derbyn yn ôl, gellir adrodd yr wybodaeth hon wrth y rheoleiddiwr drwy'r cynllun derbyn yn ôl.²³ Amcangyfrifwn y bydd hyn yn cwmpasu tri chwarter y cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr wedi'u llenwi a werthir o ddechrau'r rhwymedigaeth yn 2024.

Byddwn yn adolygu cynnydd y gofyniad ac yn ystyried a ddylid ymestyn y rhwymedigaeth i bob gwerthwr cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr wedi'u llenwi.

Ffioedd wedi'u Modiwleiddio a Labelu

Ffioedd wedi'u modiwleiddio (Cwestiynau 30 a 31)

Ffioedd wedi'u modiwleiddio yw'r cynnydd neu'r gostyngiad mewn ffioedd i gymell cynhyrchwyr i wneud penderfyniadau mwy cynaliadwy wrth ddylunio neu brynu deunydd pacio. Er enghraifft, byddai cynhyrchydd sy'n defnyddio deunydd pacio hawdd ei ailgylchu yn disgwyl talu cyfradd ffioedd is na chynhyrchydd sy'n defnyddio deunydd pacio na ellir ei ailgylchu. Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn y bydd y fframwaith arfaethedig yn arwain at system deg ac effeithiol i fodiwleiddio ffioedd cynhyrchwyr. Nodwyd y dylai fod yn ofynnol i'r SA benderfynu sut i fodiwleiddio'r ffioedd sydd i'w talu gan gynhyrchwyr am gostau rheoli gwastraff. Gwnaethom hefyd gynnig "fframwaith strategol" sy'n nodi'r ffiniau y byddai'r Llywodraeth yn disgwyl i ffioedd wedi'u modiwleiddio weithredu oddi mewn iddynt. O'r 932 o ymatebion, roedd 51% yn cytuno, roedd 17% yn anghytuno a 32% yn ansicr. Teimlai'r rhai a gytunodd ei fod yn ddull teg a fyddai'n helpu i gymell gwell dewisiadau deunydd pacio. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y diffyg manylion am ffioedd wedi'u modiwleiddio yn yr ymgynghoriad gan atal busnesau rhag gwneud newidiadau cyn gweithredu'r EPR. Roedd pryderon eraill yn ymwneud ag ystyried effeithiau amgylcheddol deunydd pacio wrth fodiwleiddio ffioedd.

Gofynnwyd hefyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r SA benderfynu pa fesurau y dylid eu cymryd i addasu ffioedd os na all cynhyrchydd hunanasesu ei ddeunydd pacio neu os yw'n darparu gwybodaeth anghywir (yn ogystal ag unrhyw gamau gorfodi y gallai rheoleiddwyr eu cymryd). O'r 926 o ymatebwyr, roedd 73% yn cytuno, 11% yn anghytuno a 16% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd y rhai a gytunodd yn gwerthfawrogi'r elfen o hyblygrwydd ac yn credu mai'r SA oedd yn y sefyllfa orau i ymdrin â chynhyrchwyr nad oedd wedi hunanasesu eu deunydd pacio (yn ogystal â rôl y

²² Addaswyd y dyddiadau gweithredu i adlewyrchu ein penderfyniad i weithredu EPR o 2024 ymlaen, yn hytrach nag o 2023 ymlaen fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad.

²³ Caiff y rheoleiddiwr ei gadarnhau yn y Rheoliadau.

rheoleiddwyr wrth orfodi'r rheoliadau). Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai'r dull hwn arwain at amwysedd, a bod angen mwy o fanylion am rôl yr SA mewn perthynas â chytundebau o'r fath.

Penderfyniadau ar ffioedd wedi'u modiweiddio

Bydd modiweiddio ffioedd yn dechrau yn 2025. Bydd cynhyrchwyr yn adrodd yn ôl categori deunyddiau yn y flwyddyn gyntaf (2023); bydd y ffioedd y bydd cynhyrchwyr yn eu talu yn 2024 yn cael eu cyfrifo drwy ddsrannu'r costau gwaredu i bob categori deunyddiau. Byddwn yn cyflwyno asesiadau ailgylchu ar gyfer deunydd pacio wedyn wedi'i adrodd o fis Hydref 2024 ymlaen fel y gellir modiweiddio ffioedd yn seiliedig ar ailgylchadwyedd deunydd pacio o 2025 ymlaen. Lle bo modd, bydd yr SA yn rhoi darlun hirdymor (3-5 mlynedd) i gynhyrchwyr dan rwymedigaeth o gostau ffioedd wedi'u modiweiddio cyn dechrau'r cynllun, er mwyn rhoi amser iddynt baratoi a gwneud penderfyniadau ar brisio cynnyrch a defnyddio deunydd pacio.

Byddwn yn cyflwyno'r fframwaith strategol drwy reoliadau. Bydd yr SA yn gyfrifol am benderfynu sut y caiff ffioedd eu pennu a'u modiweiddio'n unol â'r rheoliadau, ac am ddangos bod modiweiddio'n cyflawni'r canlyniadau polisi a ddymunir. Pe bai taliadau sy'n ymwneud â chostau gwaredu gwastraff deunydd pacio gan fusnesau yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol, yna gellid cymhwyso ffioedd wedi'u modiweiddio i'r rhain hefyd.

Yn unol â'r rheoliadau, bydd yr SA yn addasu ffioedd ar gyfer cynhyrchwyr nad ydynt wedi hunanasesu eu deunydd pacio o ran ailgylchadwyedd, o 2025 ymlaen pan fydd ffioedd wedi'u modiweiddio yn cael eu rhoi ar waith. Bydd hyn yn cefnogi, nid yn disodli, gwaith monitro a gorfodi cydymffurfiaeth y rheoleiddwyr. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn y flwyddyn gyntaf pan fydd cynhyrchwyr yn ymgylfarwyddo â'r gofynion newydd.

Labelu Deunydd Pacio (Cwestiynau 32 i 36)

Gwnaethom gynnig y dylai fod yn ofynnol i gynhyrchwyr labelu deunydd pacio penodedig (deunydd pacio sylfaenol yn bennaf) i nodi a oes modd ei ailgylchu ai peidio. Dyma'r opsiwn a ffefrir gennym:

- Byddai'r Llywodraeth yn pennu'r meini prawf y mae'n rhaid i labeli eu bodloni (fformat, maint) mewn rheoliadau;
- Byddai'n ofynnol i gynhyrchwyr farcio eu deunydd pacio gan ddefnyddio label sy'n bodloni'r gofynion hyn, naill ai drwy sefydlu eu label eu hunain neu drwy danysgrifio i gynllun labelu; a
- Byddai pob label yn cael ei gymeradwyo gan y Llywodraeth (neu'r Rheoleiddiwr) cyn ei ddefnyddio.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull o weithredu labelu gorfodol. O'r 983 o ymatebwyr, roedd 55% yn cytuno â'n dull arfaethedig o ddefnyddio labeli cymeradwy, roedd 36% yn anghytuno, ac nid oedd 9% yn cytuno nac yn anghytuno. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r dull arfaethedig, mynegwyd pryderon y gallai arwain at

negeseuon cymysg ac nad oedd yn rhoi digon o bwyslais ar symlrwydd ac eglurder. Cynigiodd llawer o ymatebwyr y dylai 'swoosh' Ailgylchu Nawr gael ei fabwysiadu fel y symbol ailgylchu ar ddeunydd pacio gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n eang a'i adnabod gan ddefnyddwyr.

Dewis arall yn lle defnyddio label cymeradwyo oedd defnyddio un label 'peidiwch ag ailgylchu' i'w roi ar ddeunydd pacio na ellir ei ailgylchu. Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y gallai fod yn ofynnol i bob cynhyrhydd ddefnyddio'r un label 'peidiwch ag ailgylchu'. O'r 973 o ymatebwyr, roedd 84% yn cytuno, 10% yn anghytuno a 6% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Gofynnwyd hefyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwelliannau, megis ychwanegu'r geiriad 'yn y DU' a'u galluogi'n ddigidol. O'r 934 o ymatebwyr, roedd 54% yn cytuno, roedd 35% yn ansicr, ac roedd 10% yn teimlo na fyddai hyn yn ddefnyddiol. Roedd pryderon y gallai mabwysiadu geiriad fel 'yn y DU' effeithio ar fusnesau sy'n mewnfario neu'n allfario cynhyrchion mewn deunydd pacio, gan arwain at gostau ychwanegol.

Gwnaethom gynnig hefyd na fyddai trothwy de minimis i fusnesau labelu eu deunydd pacio, ond gofynnwyd am farn ynghylch a ddylid gorfodi'r busnes sy'n gwerthu deunydd pacio heb ei lenwi i fusnesau bach a micro i labelu'r deunydd pacio heb ei lenwi y maent yn ei werthu. Cynnig arall oedd y dylai labelu deuaidd (rhoi naill ai label 'ailgylchwch' neu 'peidiwch ag ailgylchu' ar ddeunydd pacio) fod ar waith erbyn diwedd mis Mawrth 2025 ar gyfer pob eitem o ddeunydd pacio ac eithrio ffilmiau plastig, a fydd yn ofynnol erbyn diwedd mis Mawrth 2027.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylid rhoi'r gofyniad labelu ar fusnesau sy'n gwerthu deunydd pacio heb ei lenwi yn uniongyrchol i fusnesau bach. O'r 937 o ymatebwyr, roedd 45% yn cytuno, 28% yn anghytuno a 27% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd adborth yr ymatebwyr yn cynnwys mai gallu cyfyngedig sydd gan ddsbarthwyr i reoli dyluniad neu ddefnydd terfynol y deunydd pacio pan gaiff ei werthu heb ei lenwi.

Yn olaf, gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn bod yr amserlenni a gynigiwyd yn rhoi digon o amser i weithredu'r gofynion labelu newydd. O'r 943 o ymatebwyr, roedd 40% yn teimlo nad oedd yr amserlenni'n darparu digon o amser, roedd 32% yn cytuno bod yr amserlenni arfaethedig yn ddigonol, ac roedd 29% yn ansicr. Cododd llawer o ymatebwyr bryderon bod mabwysiadu labelu'n dibynnu ar fynediad i'r adnodd/proses asesu ailgylchadwyedd i'w darparu gan yr SA. Cafwyd awgrymiadau bod angen cyfnod cyflwyno o dair blynedd (yn dilyn penodi'r SA) i weithredu'r gofynion labelu yn llawn.

Penderfyniadau ar labelu

Bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'i chynnig i wneud labelu ailgylchu gorfodol ar ddeunydd pacio yn ofynnol a thrwy gyflwyno gofynion mewn rheoliadau a fydd yn sicrhau eu bod yn gyson â'n rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd.

Mae Defra wedi cytuno â WRAP i ddefnyddio marc ailgylchu Ailgylchu Nawr ar ddeunydd pacio. Mae'r cytundeb hwn yn berthnasol i ddeunydd pacio yn unig ac mae'n golygu y gall y cynhyrchwyr hynny y mae'n ofynnol iddynt labelu eu deunydd pacio ddefnyddio'r marc ailgylchu hwn.²⁴ Bydd hyn yn galluogi un dull gweithredu ledled y DU.



Bydd gofyn i gynhyrchwyr labelu deunydd pacio gan ddefnyddio'r marc Ailgylchu Nawr a geiriad perthnasol (ailgylchwch/peidiwch ag ailgylchu). Byddwn yn rhoi'r gofynion allweddol yn y rheoliadau ac yn cyhoeddi canllawiau i helpu cynhyrchwyr i ddeall y gofynion. Gallai cynhyrchwyr ddewis tanysgrifio i gynllun labelu a defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan y cynllun hwnnw. Ni fydd gwelliannau i labeli (megis 'yn y DU') yn ofyniad rheoliadol ond bydd cyngor yn cael ei gynnwys mewn canllawiau.

Ni fydd trothwy de minimis. Rydym yn derbyn y materion ymarferol sy'n gysylltiedig â'n cynnig i roi'r gofyniad i labelu deunydd pacio ar y busnes sy'n gwerthu deunydd pacio heb ei lenwi i'r defnyddiwr terfynol. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwneuthurwr deunydd pacio ddarparu gwybodaeth am ailgylchadwyedd i'r dosbarthwr sy'n gwerthu deunydd pacio heb ei lenwi i fusnesau bach a micro (neu fusnesau bach a micro wrth werthu'r deunydd pacio'n uniongyrchol). Bydd yn ofynnol i'r busnes sy'n prynu deunydd pacio heb ei lenwi ar gyfer eu cynnyrch ystyried unrhyw newidiadau a wnânt i'r deunydd pacio cyn defnyddio label yn eu hasesiad ailgylchadwyedd.

Bydd yn ofynnol i bob math o ddeunydd pacio (ac eithrio ffilmiau a deunyddiau hyblyg plastig) gael ei labelu fel 'ailgylchwch' neu 'peidiwch ag ailgylchu' erbyn 31 Mawrth 2026. Bydd angen labelu ffilmiau a deunyddiau hyblyg plastig fel 'ailgylchwch' neu 'peidiwch ag ailgylchu' erbyn 31 Mawrth 2027. Bydd cyngor ynghylch labelu ffilmiau a deunyddiau hyblyg plastig wrth i'r seilwaith casglu gael ei gyflwyno yn cael ei gynnwys yn y canllawiau. Bydd yr amserlenni diwygiedig yn osgoi costau gormodol a diangen i gynhyrchwyr ac yn rhoi digon o amser i gwblhau asesiadau ailgylchadwyedd.

Cynigir mai'r Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch (OPSS) fydd y corff gorfodi fydd yn gyfrifol am fonitro a gorfodi'r gofynion labelu ac maent wedi cytuno mewn egwyddor i ymgymryd â'r rôl hon.²⁵

²⁴ Delwedd swyddogol o'r marc Ailgylchu Nawr gan WRAP. Gellid cynnig amrywiad ar y marc hwn i'w ddefnyddio ar ddeunydd pacio na ellir ei ailgylchu.

²⁵ Crëwyd OPSS yn 2018 ac mae'n gorfodi rheoleiddio cynnyrch ar ran BEIS ac, fesul achos, adrannau eraill y Llywodraeth [Introduction to OPSS - delivering for others \(2\).pdf](#)

Ffilm blastig a deunydd pacio hyblyg (Cwestiynau 37 a 38)

Gyda ffilm blastig a deunydd pacio hyblyg yn cyfrif am oddeutu traean o'r deunydd pacio plastig a roddir ar farchnad y DU bob blwyddyn, gwnaethom gynnig y dylid ychwanegu'r deunyddiau hyn at gasgliadau ailgylchu ar garreg y drws ledled y DU erbyn 31 Mawrth 2025 ar gyfer busnesau a 31 Mawrth 2027 ar gyfer aelwydydd. Roedd hyn yn adlewyrchu'r dyddiadau a gynigiwyd ar gyfer Lloegr yn yr ymgynghoriad cyfochrog ar Gysondeb mewn Ailgylchu. Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod ailgylchu o flaen siopau'n cynyddu, gan roi hyder y gall hyn fod yn fodd i gynhyrchwyr wneud cynnydd cynnar o ran cynyddu ailgylchu'r deunydd pacio hwn.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai ALLau ledled y DU nad ydynt yn casglu ffilmau plastig hyd yma ddechrau gwneud hynny erbyn 31 Mawrth 2027. Ymatebodd 968: roedd 65% yn cytuno, roedd 21% yn anghytuno ac ni fynegodd 14% farn. Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i osgoi sefyllfa lle mae ffilmau a deunyddiau hyblyg plastig yn denu ffioedd EPR uchel oherwydd nad oes modd eu hailgylchu'n eang. Roedd cefnogaeth i ehangu casgliadau o flaen siopau a/neu gynlluniau derbyn yn ôl fel cam paratoadol tuag at gasgliadau ar garreg y drws. Roedd rhai ALLau yn pryderu nad oedd yr heriau sy'n gysylltiedig ag ailgylchu ffilmau a deunyddiau hyblyg plastig yn debygol o gael sylw erbyn 2027, gan nodi'r diffyg presennol mewn gallu didoli domestig, sy'n golygu y gallai fod angen casglu'r deunyddiau hyn ar wahân.

Gofynnwyd hefyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y gellid cyflawni casgliadau o ffilmau a deunyddiau hyblyg plastig o eiddo dibreswyl ledled y DU erbyn 31 Mawrth 2025. O'r 911 o ymatebwyr, roedd 54% yn cytuno, roedd 18% yn anghytuno, ac roedd 27% yn ansicr. Cododd rhai ymatebwyr bryderon am y dryswch posibl pe bai dulliau gwahanol o gasglu ffilmau plastig o gartrefi ac o weithleoedd. Roedd rhai ALLau yn pryderu y byddai hyn yn llesteirio cyd-gasglu deunyddiau ailgylchu cartrefi a mannau dibreswyl ar yr un teithiau casglu, sy'n arfer cost-effeithlon ac amgylcheddol effeithlon (gan ei fod yn lleihau symudiadau cerbydau ac felly amser staff, defnydd o danwydd ac allyriadau). Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr y byddai cyflwyno casgliadau gan fusnesau yn gynharach yn helpu i sefydlu'r seilwaith a'r marchnadoedd terfynol cyn casgliadau o gartrefi.

Penderfyniadau ar ffilmau plastig

Bydd ffilm blastig a deunyddiau pacio hyblyg y gellir eu hailgylchu'n cael eu casglu i'w hailgylchu o gartrefi a busnesau ledled y DU erbyn 31 Mawrth 2027.

Caiff y gofyniad hwn ei gyflwyno o dan reoliadau newydd neu reoliadau presennol yng Ngogledd Iwerddon erbyn diwedd mis Mawrth 2027. Bydd y cysondeb mewn rheoliadau ailgylchu yn Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i ALLau, a chasglwyr gwastraff eraill, gasglu ffilmau plastig y gellir eu hailgylchu o gartrefi ac eiddo trefol dibreswyl erbyn yr adeg hon. Yn yr Alban, bydd gofynion casglu ffilm a deunyddiau hyblyg plastig yn cael eu datblygu drwy reoliadau newydd neu reoliadau sy'n bodoli eisoes, ac adolygiadau a

diweddariadau priodol i God Ymarfer Siarter Ailgylchu Cartrefi yr Alban. Bydd Glasbriant Casgliadau Ailgylchu Awdurdodau Lleol Cymru yn cael ei ddiweddarau i gynnwys casglu ffilm blastig ar wahân. Yn ogystal, yng Nghymru, mae'r Rheoliadau Ailgylchu Eiddo Annomestig yn debygol o gynnwys gofyniad i gasglu ffilm blastig ar wahân. Yn Lloegr mae'r penderfyniad hwn wedi'i seilio ar yr ymatebion i'r ymgynghoriadau ar EPR Deunydd Pacio a Chysondeb mewn Ailgylchu (Lloegr) ac mewn rhannau eraill o'r DU ar yr uchelgeisiau polisi sydd gan bob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Yn y cyfnod cyn hyn, bydd casgliadau presennol o ffilmiau plastig i'w hailgylchu ar garreg y drws, o flaen siopau a derbyn yn ôl yn parhau a disgwylir iddynt gynyddu mewn ymateb i sicrwydd ynghylch amseriad cyflwyno'r gofyniad casglu newydd hwn. Gellir disgwyl buddsoddiad mewn cyfleusterau ailbroseu plastig newydd yn y DU hefyd.

Rydym eisoes yn gweld y sector yn ymateb i'r diwygiadau hyn drwy fuddsoddi mewn capasiti ailbroseu plastig. Mae hyn yn cynnwys cyfleuster newydd arfaethedig yn Ne Cymru, ynghyd â buddsoddiad o £20 miliwn gan Lywodraeth y DU mewn pedwar cyfleuster newydd i gefnogi datblygiad technolegau ailgylchu gwastraff plastig newydd. Mae tri o'r rhain yn cynnwys gweithfeydd ailgylchu nad ydynt yn fecanyddol i ailbroseu plastigau gwastraff, gan gynnwys deunyddiau pacio ffilm, sy'n fwy heriol i'w hailgylchu mewn cyfleusterau mecanyddol traddodiadol.²⁶

Wrth i ailgylchu ddatblygu ac wrth i ddyluniadau deunydd pacio newid, disgwylir i'r mathau o ddeunydd pacio, gan gynnwys ffilmiau plastig, y gellir eu hystyried yn ailgylchadwy yn y DU ac felly gellir eu casglu i'w hailgylchu, newid. Bydd modd diweddarau rheoliadau ailgylchu neu drefniadau cyfatebol pob gweinyddiaeth ddatganoledig i gynnwys yr eitemau ychwanegol hynny.

27 28

Deunydd pacio plastig compostadwy a bioddiraddiadwy (Cwestiynau 39 a 40)

Amlinellodd yr ymgynghoriad y byddai deunydd pacio plastig compostadwy neu fioddiraddiadwy yn cael ei labelu 'peidiwch ag ailgylchu' ac yn denu cyfraddau ffioedd uwch o dan EPR, nes bod seilwaith i'w reoli'n briodol ar waith ledled y DU a bod

²⁶ Mae ailgylchu nad yw'n fecanyddol yn cael ei ystyried yn ailgylchu os yw'r olew neu'r syngas sy'n deillio o hynny'n cael ei droi'n gynnyrch nad yw'n danwydd (megis disodli plastig crai mewn cynhyrchion plastig newydd) ac mae'n cael ei ystyried yn weithred adfer os caiff ei ddefnyddio fel tanwydd neu i greu ynni. Gall technolegau ailgylchu plastig nad ydynt yn fecanyddol ategu ailgylchu mecanyddol traddodiadol, gan gynyddu'r capasiti domestig ar gyfer ailbroseu gwastraff plastig gan gynnwys ffilm blastig.

tystiolaeth gadarn yn bodoli ei fod yn darparu manteision ecolegol neu amaethyddol i briddoedd neu weddillion treuliad anaerobig o'i ddadelfennu'n briodol. Roeddem yn cydnabod bod tystiolaeth, pan gaiff ei ddefnyddio mewn digwyddiadau 'dolen gaeedig'²⁹ lle mae modd casglu deunydd pacio compostadwy i'w gompostio'n ddiwydiannol, y gallai defnyddio deunydd pacio compostadwy osgoi gwaredu gwastraff deunydd pacio mewn gwastraff gweddilliol. Felly, cynigiwyd eithriad o'r label 'peidiwch ag ailgylchu' ar gyfer deunydd pacio a ddefnyddir mewn digwyddiadau o'r fath, yn ogystal â chadw'r opsiwn i ystyried dull gwahanol, pe bai'r SA yn gweld achos cryf seiliedig ar dystiolaeth dros hyn.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn y dylid darparu eithriad o'r label 'peidiwch ag ailgylchu' ar gyfer deunydd pacio plastig compostadwy neu fiogdiraddiadwy sy'n cael ei lenwi a'i fwyta (a'i gasglu a'i gludo i gyfleusterau compostio neu dreulio anaerobig sy'n ei dderbyn) mewn sefyllfaoedd dolen gaeedig lle nad oes opsiynau aildefnyddio ac ailgylchu ar gael. O'r 952 o ymatebwyr, roedd 32% yn cytuno, 53% yn anghytuno ac 16% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Rhoddodd y rhai a oedd yn anghytuno amrywiaeth o resymau, gan gynnwys pwysigrwydd osgoi halogi ffrydiau ailgylchu confensiynol â phlastig compostadwy, a halogi priddoedd neu weddillion treuliad anaerobig â micro-blastigau. Roedd rhai o'r farn bod tystiolaeth wan na all digwyddiadau dolen gaeedig ddefnyddio deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio neu ei ailgylchu yn hytrach na'i gompostio, ac na fyddai cynnig o'r fath yn ymarferol.

Roedd rhai ymatebwyr o blaid ymestyn yr eithriad hwn i bob deunydd pacio compostadwy, waeth beth fo'r amgylchiadau, gyda rhai'n awgrymu hefyd y dylai fod yn berthnasol i ddeunydd pacio compostadwy wedi'i ardystio o dan safon BSI EN1342 yn unig. Roedd eraill o blaid label yn nodi compostadwyedd (boed wedi'i ardystio ai peidio), er mwyn osgoi dryswch ac i helpu defnyddwyr i ddeall sut i gael gwared ar y deunydd pacio hwnnw. Nododd rhai hefyd y dylid cyflawni'r gwaith seilwaith a/neu ymchwil priodol, a gwaith i ddatblygu label, cyn y gellid defnyddio label o'r fath. Roedd lleiafrif bach o'r ymatebwyr o blaid gwahardd deunydd pacio biogdiraddiadwy a chompostadwy yn gyfan gwbl, gan ddadlau y byddai hyn yn galluogi blaenoriaethu deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio, a deunydd pacio y gellir ei ailgylchu'n ôl i ddeunydd pacio. Roedd rhai ymatebwyr o blaid parhau i ddefnyddio deunydd compostadwy ar gyfer cymwysiadau nad ydynt yn ddeunydd pacio megis bagiau te a labeli ffrwythau. Yn gyffredinol, eglurodd y nifer fwyaf o ymatebwyr a roddodd reswm dros ddewis anghytuno eu bod yn gwneud hynny gan eu bod yn ystyried mai dim ond label 'peidiwch ag ailgylchu' ddylid ei defnyddio ar gyfer y deunydd pacio hwn.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn y gallai unrhyw ganlyniadau anfwriadol ddeillio o'r dull arfaethedig o fodiwleiddio ffioedd ar gyfer deunydd pacio plastig compostadwy a biogdiraddiadwy. O'r 918 o ymatebwyr, dywedodd 44% y gallai, dywedodd 24% na allai, ac roedd 32% yn ansicr. Roedd y canlyniadau anfwriadol a grybwyllwyd yn cynnwys:

²⁹ Gellir casglu deunydd pacio fel hambyrddau bwyd na ellir eu haildefnyddio neu eu darparu ar gyfer ailgylchu a deunydd pacio compostadwy gwastraff o ddigwyddiadau i fynd i'w compostio mewn cyfleuster sy'n trin y deunydd.

- effeithiau andwyol ar y diwydiant deunydd pacio compostadwy megis llai o broffidioldeb neu ddiffyg anogaeth i ehangu'r farchnad hon;
- diffyg anogaeth i ddatblygu mathau newydd o ddeunydd pacio biogadwy neu gompostadwy, yn enwedig os yw ffioedd wedi'u modiweiddio wedi'u gosod yn rhy uchel;
- cymell cynhyrchwyr i newid i opsiynau deunydd pacio amgen gydag ôl troed carbon neu effaith amgylcheddol uwch o bosibl; ac
- effaith micro-blastigau ar yr amgylchedd o unrhyw ddefnydd cynyddol o ddeunydd pacio biogadwy neu gompostadwy.

Penderfyniadau ar ddeunydd pacio plastig compostadwy a biogadwy

Hyd nes y gellir gwella'r seilwaith a'r sylfaen dystiolaeth, rhaid rhoi label 'peidiwch ag ailgylchu' ar ddeunydd pacio compostadwy a biogadwy. Mae angen tystiolaeth bellach i ystyried gwaredu deunydd pacio compostadwy drwy gompostio o dan amodau diwydiannol fel ailgylchu, gan gynnwys tystiolaeth annibynnol o'r budd i briddoedd a thir a geir drwy gynnwys deunydd pacio compostadwy mewn compost neu weddillion treuliad anaerobig. Byddem yn ystyried cefnogi dull amgen pe bai'r SA yn gweld achos cryf seiliedig ar dystiolaeth dros wneud hynny.

Fel rhan o'i rôl wrth bennu ffioedd cynhyrchwyr a modiweiddio'r ffioedd hyn, bydd angen i'r SA ymgysylltu â'r sector deunydd pacio compostadwy a biogadwy er mwyn sicrhau bod ffi briodol yn cael ei phennu.

Taliadau ar gyfer rheoli gwastraff deunydd pacio

Costau angenrheidiol (Cwestiwn 41)

Gwnaethom gynnig bod diffiniad a chwmpas y costau angenrheidiol yn cynnwys yr holl wasanaethau rheoli gwastraff effeithlon ac effeithiol sydd eu hangen i gyflawni amcanion y cynllun. At hynny, gwnaethom gynnig y dylid cynnwys yr holl gostau gweithredol a chymorth rhesymol cymesur i ddeunydd pacio. Darparwyd tabl yn manylu ar y costau angenrheidiol eang y gellid eu cwmpasu gan y diffiniad a'r cwmpas hwnnw (e.e. biniau, cerbydau, cludiant, samplu gwastraff a chyfathrebu ag aelwydydd).

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â diffiniad a chwmpas arfaethedig y costau angenrheidiol. O'r 971 o ymatebwyr, roedd 54% yn anghytuno â'r cwmpas, roedd 34% yn cytuno ac nid oedd 14% yn cytuno nac yn anghytuno. Dywedodd y rhai a oedd yn cytuno bod y costau o fewn cwmpas y cynllun yn deg ac yn cyd-fynd â'r egwyddorion wrth wraidd cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr. Dywedodd y rhai oedd yn anghytuno naill ai fod y diffiniad yn rhy eang a goddrychol neu nad oedd yn cwmpasu'r holl

gostau oedd yn angenrheidiol yn eu barn nhw. Mynegodd llawer (cynhyrchwyr yn bennaf) bryder ei bod yn annheg rhoi baich costau rheoli sbwriel ar gynhyrchwyr gan na ddylid eu cosbi am droseddau a gyflawnir gan eraill. Teimlai rhai ymatebwyr (cynhyrchwyr yn bennaf) y byddai costau uchel o'u cymharu â gwledydd eraill, naill ai oherwydd natur eang a goddrychedd y diffiniad arfaethedig, a rhai (ALLau yn bennaf) y gallai danariannu ALLau sydd angen trosglwyddo i systemau newydd ac ysgwyddo costau sy'n gysylltiedig â newidiadau i gontractau. Dywedodd rhai ymatebwyr a oedd yn anghytuno (ALLau yn bennaf) eu bod yn cytuno mewn egwyddor ond bod ganddynt bryderon am y diffiniad a'r cwmpas neu gwnaethant awgrymiadau ar gyfer newidiadau neu gynnwys costau. Gweithgareddau a awgrymwyd sy'n cynnwys costau i'w cynnwys oedd costau trosglwyddo i drefniadau casglu newydd; costau gwneud newidiadau eraill (e.e. i gontractau a seilwaith didoli); a chostau gorfodi a ysgwyddir gan ALLau yn ymwneud â chasglu gwastraff fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth.

Penderfyniadau ar y costau angenrheidiol

Bydd y costau angenrheidiol yn berthnasol i gasglu a rheoli gwastraff deunydd pacio a gynhyrchir gan aelwydydd drwy ystyried gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. Mae manylion am ffrydiau gwastraff sbwriel a deunydd pacio busnesau i'w gweld yn yr adran Taliadau gwastraff a'r adran Taliadau am reoli gwastraff deunydd pacio sy'n deillio o fusnesau (Cwestiynau 68 i 72).

Byddwn yn bwrw ymlaen â chwmpas eang y costau ar gyfer deunydd pacio cartrefi a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad ac yn nodi yn y rheoliadau, gyda rhai eithriadau. Rhaid i gostau o fewn cwmpas y cynllun fod yn angenrheidiol wrth gasglu, rheoli, ailgylchu a gwaredu deunydd pacio cartrefi ac yn gysylltiedig â darparu systemau effeithlon ac effeithiol. Ni fydd holl gostau ALLau yn angenrheidiol gan y gellid eu hystyried yn ddiangen neu'n afresymol wrth ddarparu gwasanaethau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau lle mae'r gost honno wedi codi.

Bydd yr SA yn penderfynu pa gostau sy'n angenrheidiol ac yn rhesymol wrth ailgylchu a gwaredu gwastraff deunydd pacio, yn gysylltiedig â'u hasesiad o systemau effeithlon ac effeithiol, wrth ystyried polisïau cenedlaethol ac amgylchiadau lleol. Bydd yn ofynnol hefyd i'r SA ymgysylltu ag ALLau, cynhyrchwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill a cheisio cytundeb gweinidogion lle bo hynny'n briodol (yn dibynnu ar drefniadau llywodraethu'r cynllun). Nid yw costau sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai a ysgwyddir gan ALL wrth ddarparu eu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â deunydd pacio yn cael eu hystyried o fewn cwmpas y cynllun (e.e. cymhellion neu wobrau ariannol).

Ni fydd yn ofynnol i gynhyrchwyr ariannu costau sy'n ymwneud â chymau gorfodi statudol sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â gofynion casglu ac ailgylchu ar wahân. Os bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r llwybr hwn, cânt eu hystyried fel rhan o'r broses ariannu beichiau newydd yn Lloegr, neu brosesau cyfatebol ym mhob Gweinyddiaeth Ddatganoledig.

Bydd angen i'r penderfyniadau a wneir gan yr SA wrth benderfynu ar y costau angenrheidiol fod yn dryloyw, yn deg ac yn unol â'r rheoliadau, gyda phroses apelio

briodol ar waith. Bydd y Llywodraeth yn ystyried ymhellach pa broses apelio fydd ei hangen.

Taliadau i awdurdodau lleol am wastraff o gartrefi (Cwestiynau 42 i 50)

Gwnaethom gynnig y bydd yr ALLau hynny sy'n gweithredu systemau rheoli gwastraff effeithlon ac effeithiol seiliedig ar arferion da yn cael y costau net llawn o reoli gwastraff deunydd pacio o'u cartrefi wedi'u talu drwy daliadau EPR. Gwnaethom awgrymu y gallai taliadau fesul tunnelli a gyfrifir o archdeipiau wedi'u modelu o systemau effeithlon ac effeithiol, ynghyd â sefydlu meincnodau perfformiad yn seiliedig ar awdurdodau tebyg, fod yn ddull ymarferol o gyfrifo lefel y taliadau. Esboniwyd mai'r SA fydd yn gyfrifol am bennu'r dull penodol o gyfrifo'r costau sy'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff deunydd pacio cartrefi. Gwnaethom gynnig bod yr SA yn gweithio gydag ALLau i ddeall amgylchiadau lleol a chenedlaethol a theilwra trefniadau talu yn unol â hynny, gan gadw'r costau ehangach i gynhyrchwyr a defnyddwyr ledled y DU mewn cof hefyd.

Nododd yr ymgynghoriad hefyd:

- y dylai taliadau gwastraff deunydd pacio cartrefi fod yn net o incwm perthnasol
- y gellid defnyddio cymhellion talu i gynorthwyo ALLau i fodloni meincnodau perfformiad ac annog mwy o ailgylchu
- y gellid codi a defnyddio taliadau heb eu neilltuo, heb eu talu i awdurdod lleol drwy addasiadau cymhelliant yn seiliedig ar feincnodau perfformiad, i gynorthwyo ALLau sy'n perfformio'n salach neu i gael eu defnyddio ar gyfer arloesi/buddsoddi ehangach gan ALLau
- y dylid cyfrifo taliadau gweddilliol gan ddefnyddio costau wedi'u modelu systemau effeithlon ac effeithiol yn seiliedig ar gyfansoddiad cyfartalog gwastraff deunydd pacio o fewn y ffrwd weddilliol
- mewn ardal ddwy haen (Lloegr yn unig), dylid gwneud taliadau'n uniongyrchol i'r awdurdod sy'n ysgwyddo'r costau.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai taliadau fod yn seiliedig ar gostau arferion da, systemau effeithlon ac effeithiol a meincnodau cymheiriaid perthnasol. O'r 963 o ymatebwyr, roedd 76% yn cytuno, roedd 18% yn anghytuno, ac nid oedd 7% yn siŵr. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn â diffyg manylion ynghylch sut y byddai'r costau a'r meincnodau effeithlon ac effeithiol yn cael eu cyfrifo a'u pennu drwy ddull wedi'i fodelu. Mynegodd ALLau bryderon hefyd ynghylch sicrhau eu bod yn cael cymorth technegol a thaliadau i dalu am y costau wrth drosglwyddo i'r systemau effeithlon ac effeithiol.

Gofynnwyd hefyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r taliad fesul tunnelli i ALLau ar gyfer deunyddiau pacio a oedd wedi'u casglu a'u didoli i'w hailgylchu fod yn net o bris cyfartalog fesul tunnelli, ar gyfer pob deunydd a gasglwyd. O'r 916 o ymatebwyr, roedd 63% yn cytuno â didynnu gwerth deunyddiau cyfartalog o gyfanswm y costau i gyfrifo costau net, roedd 23% yn anghytuno ac nid oedd 15% yn cytuno nac yn

anghytuno. Cododd y rhai a oedd yn anghytuno bryderon y gallai hyn gymell ALLau i beidio bod yn effeithlon a gwobrwyo aneffeithlonrwydd.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r SA allu cymhwyso addasiadau cymhelliant i daliadau ALI i sbarduno perfformiad ac ansawdd yn y system. O'r 930 o ymatebwyr, roedd 79% yn cytuno, 7% yn anghytuno a 14% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylid rhoi amser a chymorth rhesymol i ALLau symud i systemau effeithlon ac effeithiol a gwella eu perfformiad cyn i addasiadau cymhelliant i daliadau gael eu cymhwyso. O'r 931 o ymatebwyr, roedd 75% yn cytuno, 15% yn anghytuno a 10% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Gofynnwyd am farn ynghylch a ddylid gwarantu cyfran isafswm o'u cost rheoli gwastraff, waeth beth fo'u perfformiad. O blith 940 o ymatebwyr, roedd 54% yn anghytuno, roedd 35% yn cytuno ac roedd 11% yn ansicr. Roedd y pryderon a godwyd yn canolbwyntio ar seilio'r system gyfan ar berfformiad a pheidio â bod eisiau talu am berfformiad gwael. Fodd bynnag, nododd y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn y byddai'n fuddiol darparu lefel o sicrwydd a diogelwch wrth bennu cyllidebau, rheoli contractau a buddsoddiadau ALLau, a helpu i ddarparu systemau effeithlon ac effeithiol a bodloni meincnodau perfformiad.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cael addasiadau neu wobrau cymhelliant i annog ALLau i ragori ar eu meincnodau ailgylchu wedi'u modelu. O'r 930 o ymatebwyr, roedd 76% yn cytuno, 13% yn anghytuno ac 11% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Teimlai'r rhai a gytunodd y byddai cymhellion yn anogaeth i ALLau gan arwain at lefelau uwch o ailgylchu. Nid oedd rhai ymatebwyr o'r farn bod hyn yn deg ac roeddent yn pryderu y byddai ALLau a oedd yn rhagori ar eu meincnodau perfformiad ailgylchu ac a oedd eisoes yn cael incwm uwch yn cael taliadau ychwanegol, tra na fyddai ALLau nad oeddent yn bodloni meincnodau perfformiad ac yr oedd angen incwm a chymorth ychwanegol arnynt yn cael dim.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylid defnyddio taliadau heb eu neilltuo i helpu ALLau i gyflawni meincnodau perfformiad ailgylchu a chyfrannu at ganlyniadau cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr drwy fuddsoddi ac arloesi ehangach, lle mae'n rhoi gwerth am arian. O'r 930 o ymatebwyr, roedd 67% yn cytuno, 20% yn anghytuno ac 13% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn deall sut y gellid cael taliadau heb eu neilltuo yn y system os yw ALLau yn cael eu talu ar sail eu perfformiad.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cyfrifo taliadau am wastraff gweddilliol gan ddefnyddio costau meincnod wedi'u modelu o system effeithlon ac effeithiol, yn seiliedig ar gyfran gyfartalog deunydd pacio yn y ffrwd gwastraff gweddilliol. O'r 867 o ymatebwyr, roedd 61% yn cytuno, 24% yn anghytuno a 15% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Crybwyllodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch defnyddio cyfansoddiad cyfartalog, yn enwedig faint o ddadansoddiad cyfansoddiadol y byddai ei angen i sefydlu data cadarn i gyfrifo'r cyfartaleddau hyn. Awgrymodd rhai hefyd y dylai costau fod yn

seiliedig ar gyfansoddiad gwirioneddol gwastraff gweddilliol ym mhob ardal awdurdod lleol yn y pen draw gan ei fod yn amrywio o un awdurdod i'r llall.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai awdurdod gwaredu o fewn ardal awdurdod dwy haen (Lloegr yn unig) dderbyn elfen waredu'r taliad gwastraff gweddilliol yn uniongyrchol. O'r 854 o ymatebwyr, roedd 64% yn cytuno, 2% yn anghytuno a 34% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Teimlai llawer o ymatebwyr y dylai awdurdodau o fewn system ddwy haen dderbyn y taliad yn uniongyrchol gan eu bod yn ysgwyddo'r costau perthnasol, er bod rhai'n nodi ei bod yn bwysig cyfrifo data gweddilliol yn seiliedig ar y costau diweddaraf.

Penderfyniadau ar daliadau awdurdodau lleol am wastraff o gartrefi

Bydd yn ofynnol i'r SA ddsbarthu taliadau i ALLau am gostau gwaredu net llawn darparu systemau effeithlon ac effeithiol ar gyfer rheoli gwastraff deunydd pacio cartrefi a dangos sut mae'r costau hyn yn adlewyrchu amgylchiadau lleol a chanlyniadau polisi ym mhob gweinyddiaeth ddatganoledig yn y DU. Wrth wneud hynny, bydd disgwyl i'r SA fonitro ac adrodd ar y cydraddoldeb eang o ran costau rhwng ALLau tebyg ym mhob gweinyddiaeth ddatganoledig er mwyn sicrhau bod cynhyrchwyr a defnyddwyr ledled y DU yn cael eu trin yn deg. Pan gyflwynir polisiâu newydd ar lefel gweinyddiaeth ddatganoledig a bod y rhain yn arwain at wahaniaethau mewn costau rhwng gweinyddiaethau datganoledig, bydd yr SA yn ceisio cytundeb ar y cyd gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig cyn gwneud newidiadau i daliadau.

Byddwn yn cynnwys gofyniad mewn rheoliadau i'r SA egluro sut y mae'n bwriadu cyfrifo costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau effeithlon ac effeithiol, ar gyfer ffrydiau gwastraff deunydd pacio cartrefi ailgylchu a gweddilliol, a pha ystyriaethau y dylid eu gwneud wrth asesu systemau effeithlon ac effeithiol a pherfformiad ALI (e.e. systemau rheoli gwastraff teg, gwrthrychol, tryloyw, seiliedig ar arferion da, amgylchiadau lleol (daearyddiaeth, natur wledig, amddifadedd), a gofynion rheoliadol a galluoedd ALLau ac ati). Bydd yr SA yn gyfrifol am benderfynu ar y dull o gyfrifo taliadau, yn unol â'r rheoliadau.

Bydd gan yr SA y gallu i fodelu costau systemau effeithlon ac effeithiol neu ddefnyddio costau gwirioneddol yn y dyfodol, lle mae'r rhain yn ymwneud â chostau rheoli gwastraff deunydd pacio ac yn adlewyrchu systemau effeithlon ac effeithiol.

Pan fydd ALI yn casglu tunelli uwchben meincnodau perfformiad effeithlon ac effeithiol wedi'u modelu ac yn mynd i gostau ychwanegol, byddwn yn gwneud darpariaeth i'r SA adolygu costau a pherfformiad yr ALLau a chytuno i dalu am unrhyw gostau angenrheidiol ychwanegol a ysgwyddir gan ALI wrth ragori ar ei feincnodau.

Byddwn yn gwneud darpariaethau i'r SA asesu a yw ALI yn darparu system rheoli gwastraff effeithlon ac effeithiol wrth gyfrifo ei gostau. Byddwn yn gwneud darpariaeth hefyd i'r SA addasu taliad ALI os yw o'r farn nad yw ALI yn cyflawni yn erbyn meincnodau cost a pherfformiad rhesymol systemau effeithlon ac effeithiol. Byddwn yn gwneud darpariaethau yn y rheoliadau ar gyfer proses apelio.

Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig y gallai taliadau heb eu neilltuo mewn unrhyw flwyddyn, sy'n gysylltiedig â gostyngiadau mewn taliadau cymhelliant, gael eu dal a'u defnyddio gan yr SA i gynorthwyo ALLau i gyflawni meincnodau perfformiad ac i ddatblygu eu gwasanaethau. Fodd bynnag, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r cynigion hyn fel y nodir yn yr ymgynghoriad gan ein bod yn credu eu bod yn mynd y tu hwnt i gwmpas y costau angenrheidiol a ysgwyddir gan ALI.

Bydd angen i'r SA ddangos ei fod wedi ymgysylltu ag ALLau unigol wrth asesu costau a chyfrifo taliadau a rhoi cymorth, arweiniad a chyfnod rhesymol iddynt gyflawni meincnodau perfformiad system effeithlon ac effeithiol cyn addasu taliadau i adlewyrchu'r broses o ddarparu systemau effeithlon ac effeithiol, wrth ystyried amgylchiadau lleol a pholisi gwastraff cenedlaethol perthnasol. Disgwylwn y bydd ALI yn derbyn ei gostau net llawn os yw wedi cymryd pob cam rhesymol i sefydlu systemau effeithiol ac effeithlon. Bydd angen i'r SA ddangos bod y dull a ddefnyddir i gyfrifo meincnodau perfformiad yn ddigon cadarn cyn ystyried addasiadau. O ganlyniad, ni ddylid defnyddio addasiadau, lle y'u defnyddir, ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r EPR.

Gwneir taliadau'n uniongyrchol i'r ALI sy'n mynd i gostau sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau rheoli gwastraff, gydag awdurdodau gwaredu mewn ardaloedd dwy haen (Lloegr yn unig) yn derbyn elfen cost gwaredu'r taliad gweddilliol, oni bai bod trefniadau eraill wedi'u gwneud rhwng awdurdodau. Trafodir amseriad taliadau ymhellach yn yr adran cylch talu.

Er mwyn sicrhau bod y data angenrheidiol gan yr SA i gyfrifo taliadau ALI, bydd yr SA yn gallu gofyn i ALLau ddarparu data cywir ac amserol i gefnogi eu swyddogaethau talu, gydag ALLau yn gallu adennill costau rhesymol darparu'r data hwnnw. Os bydd ALI yn methu â darparu'r wybodaeth hon, neu os oes gan yr SA bryderon ynghylch cywirdeb y data a ddarperir (ac na all yr ALI ddarparu digon o dystiolaeth i fynd i'r afael â'r pryderon hyn), bydd y gallu gan yr SA i seilio taliadau ar y data a'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Byddwn yn parhau i ymgysylltu a gweithio gyda'r sector ac ALLau cyn dyddiad gweithredu'r EPR er mwyn sicrhau bod dull arfaethedig yr SA o fodelu costau net llawn o dan amodau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn dryloyw, yn ddibynadwy ac yn adlewyrchu amgylchiadau lleol a chostau gwirioneddol ALLau.

Taliadau ar gyfer rheoli gwastraff deunydd pacio sy'n deillio o fusnesau (Cwestiynau 51 i 55)

Amlinellwyd cynigion gennym i ddatblygu system o daliadau cost net llawn ar gyfer casglu, didoli ac ailgylchu gwastraff deunydd pacio a gynhyrchir gan fusnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus. Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno bod sail resymegol gref o hyd dros wneud cynhyrchwyr yn gyfrifol am y costau hyn. Roedd yr ymatebion yn weddol gyfartal, gyda 47% o'r 971 o ymatebwyr yn cytuno a 44% yn anghytuno (nid oedd 9% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno). Roedd mwyafrif helaeth o ymatebwyr awdurdodau lleol yn cytuno y dylai cynhyrchwyr fod yn gyfrifol am y costau hyn.

Gofynnwyd hefyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai unrhyw ddeunydd pacio masnachol a diwydiannol fod o fewn cwmpas gofynion talu'r cynhyrchydd ac eithrio pan fo gan gynhyrchydd y dystiolaeth angenrheidiol ei fod wedi talu'n uniongyrchol am ei reoli. O'r 933 o ymatebwyr, roedd 76% yn cytuno, tra roedd 15% yn anghytuno a 9% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Gofynnwyd am farn ar dri opsiwn posibl ar gyfer cyflwyno trefniadau talu a fyddai'n cydfynd yn agosach â rhwymedigaeth talu cynhyrchydd unigol am y deunydd pacio y mae'n ei roi ar y farchnad. Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gymhlethdod datblygu dull gweithredu o'r fath: o'r 927 o ymatebwyr, dywedodd 56% nad oeddent yn gwybod digon i allu dewis un o'r tri opsiwn ac, o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn a oedd yn weddill, opsiwn 2 a gafodd y gefnogaeth fwyaf (21%). Yn yr un modd, o'r 902 o ymatebwyr a atebodd gwestiwn ychwanegol, nododd 63% eu bod yn anghytuno'n gryf ag un neu fwy o'r tri opsiwn. Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch y cynigion, gan gynnwys yr effaith ar gysylltiadau masnachol presennol a/neu ailgylchwyr bach ac annibynnol, yn ogystal â'r baich posibl y gallai'r dull ei roi ar yr SA. Cododd rhai bryderon am y risg o dwyll neu lywio'r ffocws yn anfwriadol tuag at (neu oddi wrth) fathau penodol o ddeunydd.

Gofynnwyd hefyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn y byddai unrhyw broblemau yn deillio o beidio â chael naill ai Nodiadau Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio (PRNs)/Nodiadau Ailgylchu Allforio Gwastraff Deunydd Pacio (PERNs) neu'r mecanwaith talu busnes (ac o ganlyniad, targedau ailgylchu) ar waith am gyfnod byr. O'r 914 o ymatebwyr, dywedodd 47% y byddai problemau, dywedodd 17% na fyddai, ac roedd 35% yn ansicr.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi dod i'r casgliad, gan nad oes ateb ymarferol ar unwaith ar gyfer gweithredu taliadau o 2024 ymlaen, ac o ystyried yr ansicrwydd presennol yn y data, y bydd ateb dros dro yn cael ei ddatblygu.

Penderfyniad ar daliadau ar gyfer rheoli gwastraff deunydd pacio sy'n deillio o fusnesau

Byddwn yn cyflwyno ateb dros dro ar gyfer rheoli gwastraff deunydd pacio sy'n deillio o fusnesau. Bydd hyn yn seiliedig ar y system bresennol, lle mae cynhyrchwyr deunydd pacio yn prynu PRNs a PERNs i ddangos bod rhwymedigaethau ailgylchu wedi'u bodloni ar gyfer y deunydd pacio y maent wedi'i roi ar y farchnad, ac i gefnogi buddsoddiad mewn ailbroseu, ond gyda newid i un pwynt cydymffurfio fel y nodwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn.

Byddwn yn sefydlu tasglu, gyda chyfranogiad cynhyrchwyr, ALLau a'r sector gwastraff, i barhau i wella data a datblygu ac adolygu opsiynau ar gyfer taliadau ar gyfer gwastraff busnes, cyn adolygiad yn 2026/27.

Mae'r dull hwn yn cydnabod bod elfennau eraill o'n diwygiadau deunydd pacio EPR (taliadau cost net llawn ar gyfer deunydd pacio cartrefi, ffioedd wedi'u modiwlleiddio, labelu gorfodol, cyfathrebu gwell, gofynion allforio ac ati) yn mynd i'r afael â llawer o ddiffygion y system cyfrifoldeb cynhyrchwyr bresennol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth

yn cydnabod y gallai fod lle i wneud gwelliannau pellach, llai i weithrediad y system PRN ac mae wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y gwelliannau hyn ochr yn ochr â'r ymateb hwn,²⁹

gyda'r bwriad o ddeddfu ar gyfer unrhyw welliannau a nodir cyn 2024.

Wrth barhau â'r system PRN, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod risg, yn enwedig gydag alwminiwm ond hefyd plastig, y gallai deunyddiau DRS a gesglir gyda deunydd pacio EPR, danseilio gweithrediad effeithiol y farchnad PRN, hyd yn oed ar gyfradd gasglu DRS o 90%. Os nad yw ailbrosewyr ac allforwyr yn gallu eithrio cynwysyddion DRS yn glir ac yn gadarn sy'n parhau'n gymysg â deunydd EPR wrth gyhoeddi PRNs/PERNs, gallai hyn yn arwain at or-gyflenwad o dystiolaeth, gan lesteirio prisiau PRN a allai arwain at lai o fuddsoddiad angenrheidiol mewn ailbrosesu domestig yn ei dro. O ganlyniad, byddwn yn ymgynghori ar y tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd ac opsiynau i fynd i'r afael â hi. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gynhyrchwyr DRS adrodd ar y tunelledd o ddeunydd DRS a roddwyd ar y farchnad ganddynt yn 2023 i sicrhau bod y data angenrheidiol ar gael i fonitro a mynd i'r afael ag effeithiau posibl ar y farchnad PRN.

30

Bydd yr ateb interim hwn yn dilyn y dull a ddefnyddir o dan y system bresennol, lle pennir cyfraddau ailgylchu targed ar gyfer pob math o ddeunydd fel y nodir yn Nhabl 1, ac mae cynhyrchwyr yn prynu PRNs/PERNs fel tystiolaeth eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau. Bydd un math o PRN yn berthnasol i bob gwastraff deunydd pacio mewn categori deunydd eang (h.y. y categori y pennir targed ailgylchu gwastraff deunydd pacio yn ei erbyn), heb wahaniaethu rhwng gwastraff deunydd pacio cartrefi, a gwastraff deunydd pacio masnachol a diwydiannol. Bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr brynu PRNs i ddangos eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau ailgylchu; bydd hyn yn cynrychioli taliad cost rhannol ar gyfer ailgylchu gwastraff cartrefi a gwastraff busnes, fel y mae ar hyn o bryd.

Bydd cynhyrchwyr sy'n rhoi deunydd pacio ar y farchnad sy'n 'debygol o fynd i gartrefi yn y pen draw' yn gwneud taliad i'r SA hefyd, fel bod eu cyfraniad at reoli deunydd pacio cartrefi yn cyfateb i'r gost net lawn.³¹ Mae'r dull hwn yn sicrhau bod rhwymedigaeth cost net lawn cynhyrchwyr yn cael ei thalu ar gyfer gwastraff cartrefi, tra'n caniatáu i rywfaint o arian barhau i fynd yn uniongyrchol i ailbrosewyr, gan sicrhau felly nad ydynt yn talu ddwywaith.³²


³⁰ <https://consult.defra.gov.uk/packaging-extended-producer-responsibility>

³¹ Y taliad ychwanegol yw cost system wedi'i modelu ar y cyd ar gyfer gwastraff cartrefi, heb y pris a delir gan ailbrosewyr ar gyfer y deunydd eildro (sy'n ymgorffori gwerth y PRN y mae'r cynhyrchydd dan rwymedigaeth wedi'i brynu ar wahân).

³² Ystyrir hyn ymhellach yn Atodiad F yr asesiad effaith terfynol.

Er mwyn galluogi hyn, bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr adrodd ar dunelledd cynradd, cludiant (e.e. blychau a bagiau postio (neu debyg) sy'n gysylltiedig â gwerthiannau ar-lein i'r defnyddiwr terfynol), deunydd pacio eilaidd a thrydyddol y maent yn ei roi ar y farchnad ac, wrth adrodd ar y deunydd pacio cynradd a chludiant, byddant yn adrodd faint sy'n debygol o fynd i gartrefi yn y pen draw (a, drwy oblygiad, faint sy'n debygol o fynd i fusnesau yn y pen draw).

Ffigur 1: Enghreifftiau o gamau deunydd pacio



Ceir dulliau o'r fath mewn gwledydd eraill sydd â chynlluniau EPR aeddfed. Bydd y Llywodraeth yn cynnal adolygiad cyflym o'r dulliau hyn yn 2022 i ganfod i ba raddau y gellid mabwysiadu'r cyngor, y canllawiau a'r protocolau sydd ar gael i gynhyrchwyr mewn gwledydd eraill i'w defnyddio yn y DU. Lle y bo'n ymarferol, byddwn yn ceisio sefydlu cyngor, canllawiau a phrotocolau o'r fath erbyn diwedd 2022 i gefnogi adroddiadau cynhyrchwyr, gan ganolbwyntio ar feysydd â'r tunelledd uchaf i leihau ansicrwydd. Lle nad yw hyn yn bosibl, y dybiaeth fydd bod yr holl ddeunydd pacio cynradd a chludiant yn debygol o fynd i gartrefi yn y pen draw ac eithrio lle mae cynhyrchwyr yn dangos tystiolaeth glir ac argyhoeddiadol nad oedd hyn yn wir.

Yn y dyfodol, byddai'r SA, cynlluniau cydymffurfio a chynhyrchwyr yn gallu cyflwyno tystiolaeth i reoleiddwyr i lywio'r gwaith o ddatblygu protocolau ar gyfer gwahanol fathau o ddeunydd pacio.

Bydd deunydd pacio 'cefn siop' a hunan-reolir yn gymwys ar gyfer PRN/PERN fel y mae'n awr.

Adrodd ar ddata i gefnogi taliadau (Cwestiynau 56 i 65)

Yn yr ymgynghoriad, rydym yn nodi pwysigrwydd bod ALLau a chyfleusterau deunyddiau (MFs) sy'n derbyn ac yn ymdrin â gwastraff deunydd pacio yn coladu ac yn adrodd ar ddata deunydd pacio at ddibenion EPR gan gynnwys ar gyfer cyfrifo taliadau. Gwnaethom gynnig y byddai'n ofynnol i MFs y cyfeirir atynt fel 'Pwyntiau Cydgrynhoi Cyntaf' (FPOC) geisio achrediad at ddibenion EPR ac adrodd ar ddeunydd pacio a gesglir, a reolir ac a ailgylchir.

Gwnaethom gynnig y dylid cyflwyno methodolegau samplu a dadansoddi cyfansoddiadol sy'n adlewyrchu gofynion deunydd pacio drwy ddiwygiadau i'r rheoliadau samplu cyfleusterau deunyddiau presennol (Rheoliadau MF) yng Nghymru, Lloegr (Rhan 2 o Atodlen 9 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, a'r Alban (Code of Practice on Sampling and Reporting at Materials Recovery Facilities) ac i'w hymgorffori mewn rheoliadau newydd neu reoliadau presennol yng Ngogledd Iwerddon.

Wrth gyflwyno'r opsiwn hwn, awgrymwyd y byddai angen dileu neu newid trothwy de minimis presennol y Rheoliadau MF, ac ehangu cwrpas y cyfleusterau dan rwymedigaeth nid yn unig i gynnwys Cyfleusterau Adfer Deunyddiau (MRFs) sy'n derbyn 1000 tunnell o wastraff cymysg bob blwyddyn ond 'FPOC' ac MFs sy'n rheoli ffrydiau wedi'u gwahanu yn y ffynhonnell, er mwyn lleihau bylchau mewn data a gesglir at ddibenion talu EPR. Awgrymwyd diffiniad o FPOC.

Gwnaethom gynnwys rhestr arfaethedig o gategoriâu deunyddiau i samplu yn eu herbyn ac awgrymu y byddai angen cynyddu amleddau samplu hefyd er mwyn gwella cywirdeb a chynyddu'r hyder mewn data at ddibenion EPR, a'n bod yn ystyried amleddau'n amrywio o wyth tunnell i 25 tunnell. Awgrymwyd gennym hefyd y gallem fod am ystyried defnyddio protocolau cyfrannau deunydd pacio presennol ar gyfer MFs sy'n derbyn ffrydiau wedi'u gwahanu yn y ffynhonnell, ac yn y tymor hwy i fabwysiadu'r defnydd o dechnolegau canfod gweledol i gael y data a lleihau'r baich samplu. Cyflwynwyd amcangyfrifon cost lefel uchel gennym ar gyfer gweithredu cyfundrefn newydd a nodwyd bod gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu a phrofi'r fethodoleg samplu MF a gynnigir i ddeall y costau, yr effeithiau a'r cyfyngiadau posibl yn well. Gwnaethom gynnig hefyd y gellid cyflwyno safonau ansawdd allbwn deunyddiau gofynnol mewn MFs i gefnogi amcan yr EPR i gynyddu ansawdd gwastraff deunydd pacio i'w ailgylchu.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gyflwyno cyfundrefn samplu ar gyfer gwastraff deunydd pacio fel diwygiad i'r Rheoliadau FM yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a'u hymgorffori mewn rheoliadau newydd neu reoliadau presennol yng Ngogledd Iwerddon. O'r 906 o ymatebwyr, roedd 74% yn cytuno â'r cynigion, roedd 3% yn anghytuno, ac nid oedd 24% yn cytuno nac yn anghytuno.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i bob FPOC samplu ac adrodd yn unol â threfn samplu ac adrodd gwastraff deunydd pacio newydd. O'r 886 o ymatebwyr, roedd 71% yn cefnogi'r cynigion, roedd 8% yn anghytuno ac nid oedd 21% yn cytuno nac yn anghytuno.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y byddai angen dileu neu newid trothwy de minimis presennol y Rheoliadau MF ar gyfer cyfleusterau sy'n derbyn 1000 tunnell neu fwy y flwyddyn o ddeunydd gwastraff cymysg er mwyn cipio'r holl FPOCs a'r MFs sy'n rheoli ffrydiau wedi'u gwahanu yn y ffynhonnell. O'r 838 o ymatebwyr, roedd 74% yn cytuno â'r cynnig hwn, gyda 2% yn anghytuno a 24% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd y pryderon allweddol a godwyd yn ymwneud â'r uwchraddio a'r newidiadau y gallai fod eu hangen i fodloni'r rheoliadau newydd hyn a'r beichiau ariannol cysylltiedig, yn enwedig ar gyfer cyfleusterau llai.

Gofynnwyd a ddylai'r rhestr arfaethedig o ddeunyddiau a fformatau deunydd pacio fod yn sail i'r protocol samplu â llaw. O'r 849 o ymatebwyr, roedd 45% yn cefnogi'r cynnig, roedd 31% yn anghytuno a 23% yn ansicr. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys aliniad categorïau â ffioedd wedi'u modiwlleiddio, heriau o ran samplu deunydd pacio a chostau samplu yn cael eu hamcangyfrif yn rhy isel. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- cynnwys polymerau, ffilmiau a deunyddiau hyblyg plastig ychwanegol, ewyn, cwpanau papur a chyfansoddion ffeibr, pren, aerosolau, a rhestru dur ac alwminiwm ar wahân;
- gwahaniaethu rhwng deunyddiau EPR a DRS; a
- chreu rhestr derfynol ar ôl adolygu'r costau a'r goblygiadau.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn ei bod yn ymarferol gweithredu trefniadau samplu mwy trylwyr o fewn 6-12 mis i gyflwyno'r rheoliadau. O'r 850 o ymatebwyr, roedd 41% yn cytuno â'r amserlen hon, roedd 18% yn anghytuno, ac roedd 41% yn ansicr. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod 6-12 mis yn ormod o amser, tra bod eraill yn teimlo y byddai angen mwy o amser. Y prif bryderon a godwyd oedd y byddai cyfleusterau llai yn ei chael hi'n anodd bodloni'r gofynion o fewn y cyfnod hwn, ac na ellid cyflawni'r tasgau sy'n ofynnol gan rai cyfleusterau (cyflogi a hyfforddi staff, seilwaith prynu, cael caniatâd cynllunio) o fewn 12 mis.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid o'r farn y dylid cyflwyno technoleg canfod gweledol o 2025 ymlaen i wella'r drefn samplu ymhellach. O'r 845 o ymatebwyr, roedd 62% yn cytuno, roedd 5% yn anghytuno ac roedd 32% yn ansicr. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig y gallai wella cyfraddau ailgylchu mewn modd cost-effeithlon yn y tymor hir, gan leihau'r ddibyniaeth ar samplu â llaw. Roedd y pryderon a fynegwyd yn cynnwys dichonoldeb, hyfywedd ariannol, dibynadwyedd a chywirdeb y dechnoleg yn cael ei phrofi'n bendant cyn gorfod defnyddio'r dechnoleg, gyda rhai'n pryderu hefyd am y llinell amser a awgrymwyd ar gyfer cyflwyno yn 2025.

Gofynnwyd a fyddai protocolau cyfrannau deunydd pacio, a ddefnyddir gan ailbroseswyr ac allforwyr ar hyn o bryd, yn darparu system ddigon cadarn a chymesur i amcangyfrif cynnwys deunydd pacio deunyddiau wedi'u gwahanu yn y ffynhonnell. O'r 1,031 o ymatebwyr, roedd 45% yn cytuno y gallent, ymatebodd 24% arall "gallent o'u mireinio", roedd 29% yn ansicr, gyda dim ond 2% yn anghytuno. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys bod y protocolau cyfran deunydd pacio presennol wedi dyddio ac nad ydynt yn adlewyrchu arferion cyfredol nac effaith bosibl Covid-19 ar ymddygiad defnyddwyr yn gywir. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd nad yw'r protocolau presennol yn ddigon cadarn i wrthsefyll gweithgareddau twyllodrus nac i ddangos halogiad yn y ffrydiau hyn, gydag awgrymiadau y dylid cynnal dadansoddiad pellach o'r protocolau presennol a'u haddasrwydd wrth symud ymlaen a'u cefnogi drwy adolygiadau rheolaidd.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylid pennu safonau ansawdd deunydd allbwn gofynnol ar gyfer deunyddiau deunydd pacio wedi'u didoli mewn cyfleuster deunyddiau. O'r 899 o ymatebwyr, roedd 79% yn cytuno y dylid cyflwyno safonau allbwn ansawdd gofynnol mewn MFs; roedd 6% yn anghytuno, 16% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Cyfeiriodd cefnogwyr y cynnig at ddiogelu'r sector yn y tymor hir

a sicrhau safonau uchel mewn ailgylchu deunydd pacio ac y gallai helpu i ddeall sut mae ansawdd yn llifo drwy'r system. Fodd bynnag, roedd hyn yn groes i'r ymatebion a gafwyd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid (cwmnïau rheoli gwastraff, ALLau, grwpiau cynrychioliadol deunyddiau ac ailbrosewyr) yn ystod y cyfnod ymgynghori; ychydig iawn o werth a welodd y rhanddeiliaid hyn mewn gosod safonau allbwn gofynnol lle'r oedd yn ofynnol bodloni manylebau masnachol, gan ddweud mai trefniadau masnachol oedd y ffordd orau o wella ansawdd. Lle y gwnaethant sôn am fanteision, roeddent yn tynnu sylw hefyd at yr anawsterau wrth orfodi'r safonau hyn.

Roedd y pryderon allweddol a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys y byddai gorfod bodloni safonau yn cynyddu'r costau i MFs a chasglwyr, yn enwedig lle maent yn uwch na manylebau masnachol neu'n wahanol iddynt; mai'r ailbrosewyr ddylai fod yn gyfrifol am benderfyniadau am ansawdd derbyniol deunyddiau; ac na ddylem rwystro ailgylchu drwy gau marchnadoedd lle mae safonau is yn dderbyniol. Mynegwyd barn hefyd y gallai gosod safonau rwystro arloesedd yn y system rheoli adnoddau ar adeg pan fo newid sylweddol yn debygol. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut y byddai ansawdd yn cael ei fesur a sut y byddai safonau'n cael eu pennu.

Yng ngoleuni'r ymateb i'r ymgynghoriad, cychwynnwyd prosiect gennym i asesu ymhellach ddichonoldeb a chostau gweithredu'r trefniadau samplu mwy trwyadl hyn. Roedd y prosiect hwn yn cynnwys treialu trefniadau samplu gwell mewn nifer fach o MFs a gofyn i gyfleusterau ymateb i arolygon cost, gan ddarparu amcangyfrifon o gost bodloni'r Rheoliadau MF presennol a'r hyn y byddai'n ei gostio i fodloni'r drefn samplu EPR well arfaethedig. Gwnaethom asesu ymhellach beth fyddai amllder samplu priodol i gael data cadarn at ddibenion EPR. Profwyd cynyddu'r amllder samplu i sampl o 60kg bob 25 tunnell, yn unol â'r cynnig ymgynghori, ac asesu'r effeithiau ar gostau cyfleusterau deunyddiau a darparu gwasanaethau yn ogystal â chywirdeb a hyder yn y data a gynhychir.

Mae canlyniadau'r arolygon prawf a chost yn awgrymu bod y gost a'r beichiau ar gyfleusterau llai wrth weithredu cyfundrefn samplu well (yn enwedig o dan 1,000 tunnell o fewnbwn) yn uwch i raddau anghymesur o gymharu â chyfleusterau mwy. Roedd yr adborth a chanlyniadau'r prawf yn cefnogi'r farn hefyd y byddai angen o leiaf 12 mis ar gyfleusterau llai a'r rhai nad ydynt o fewn cwmpas y cynllun ar hyn o bryd i fodloni'r gofynion samplu³³.

³³ Gellir gweld yr adroddiad hwn yma: <https://wrap.org.uk/resources/report/measuring-impact-enhanced-sampling-and-reporting-extended-producer-responsibility>

Penderfyniadau ar samplu ac adrodd

Byddwn yn diwygio'r Rheoliadau MF presennol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban yn seiliedig ar y cynigion sydd yn yr ymgynghoriad. Bydd diwygiadau samplu ac adrodd a wneir ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban yn cael eu hymgorffori mewn rheoliadau newydd neu reoliadau sy'n bodoli eisoes yng Ngogledd Iwerddon.

I ddechrau, ni fyddwn yn gosod unrhyw ofynion achredu ar FPOCs o dan y rheoliadau EPR oherwydd bydd y Rheoliadau MF newydd a diwygiedig yn sicrhau bod data EPR hanfodol sy'n ofynnol gan MFs, gan gynnwys FPOCs, yn cael ei gipio. Wedyn, ni fydd yn ofynnol i FPOCs gael prawf o ailgylchu gan ailbroseswyr neu allforwyr, ar yr adeg hon.

Byddwn yn diwygio'r diffiniad o FPOC a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad i adlewyrchu mai dim ond MFs sy'n derbyn gwastraff gan gyflenwyr lluosog neu drydydd partiön ac sy'n ymgymryd â'r prosesau pwyso, swmpio neu ddioli cyntaf ar y gwastraff hwnnw, a gaiff eu diffinio fel FPOC at ddibenion EPR. Mewn geiriau eraill, os yw MF yn derbyn ac yn rheoli gwastraff gan un cyflenwr neu awdurdod lleol yn unig ac yn rheoli ei wastraff ei hun yn unig, nid yw'n FPOC.

Bydd FPOCs ac MFs eraill sy'n derbyn naill ai deunydd eildro sych cymysg a/neu ddeunydd eildro wedi'i wahanu yn y ffynhonnell yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y rheoliadau diwygiedig a bydd yn ofynnol iddynt fodloni'r gofynion samplu gwell.

Yn dibynnu ar y ffrydiau gwastraff a dderbynnir a'r prosesau a gyflawnir (swmpio a/neu ddioli) mewn MF, bydd gofynion samplu mewnbyn ac allbwn yn wahanol. Ni fyddwn yn ei gwneud yn ofynnol i MFs nad ydynt yn ymgymryd â phrosesau didoli samplu allbwn, dim ond swmpio'r gwastraff a dderbynnir.

Byddwn yn cadw'r trothwy de minimis presennol ar gyfer samplu 1000 tonnall o fewnbyn. Mae hyn oherwydd y costau anghymesur a fyddai'n wynebu cyfleusterau llai ac mae er gwaethaf y ffaith bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid ei ddileu neu ei leihau. Caiff hyn ei adolygu yn y dyfodol unwaith y bydd data samplu mwy cadarn ar gael.

Byddwn yn diwygio'r rhestr o gategorïau deunyddiau y mae'n rhaid adrodd amdanynt er mwyn cyd-fynd â'r hyn a nodwyd yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys categorïau ar wahân ar gyfer papur, cardbord, ffilmiau a deunyddiau hyblyg plastig, poteli plastig, potiau plastig, tybiau a hambyrddau, pren, cartonau bwyd a diod (a deunyddiau cyfansawdd tebyg eraill), alwminiwm, dur a deunyddiau DRS.

Rydym yn cydnabod yr anawsterau a'r pryderon iechyd a diogelwch a nodwyd o ran gallu gwahaniaethu rhwng deunydd pacio gwydr a gwydr nad yw'n ddeunydd pacio a rhwng gwydr EPR a gwydr DRS. Rydym yn ystyried datblygu methodoleg samplu ar wahân ar gyfer gwydr sy'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn a byddwn yn ymgysylltu ymhellach â'r diwydiant i asesu'r opsiynau. Er enghraifft, dileu'r angen i wahaniaethu rhwng deunydd pacio gwydr a gwydr nad yw'n ddeunydd pacio a/neu gyflwyno protocolau cyfrannau yn

hytrach na samplu â llaw). Mae angen asesu hyn ochr yn ochr â'r angen am ddata mwy cywir ar gyfrannau deunydd pacio.

Byddwn yn cynyddu'r amllder samplu o 60kg bob 125 tunnell i 60kg bob 75 tunnell. Bydd hyn yn sicrhau data mwy cywir ar gynnwys deunydd pacio i gefnogi EPR, tra'n ystyried y beichiau ychwanegol a roddir ar MFs a'r effeithiau posibl ar ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn adolygu amllder samplu ochr yn ochr â'r adolygiad o opsiynau ar gyfer taliadau busnes yn 2026/27 unwaith y bydd data samplu a chostau mwy cadarn ar gael. Rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i gyfleusterau sy'n rheoli ffrydiau gwastraff wedi'u gwahanu yn y ffynhonnell samplu ar amllder o 60kg bob 75 tunnell o fewnbwn. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud mwy o waith dadansoddi ac yn ymgysylltu ymhellach â'r diwydiant i weld a allai samplu'n llai aml neu amleddau samplu penodol i ddeunyddiau yn y cyfleusterau hyn fod yn fwy priodol.

Ni fydd angen defnyddio protocolau cyfran gwastraff ailbroseyydd ac allforiwr ar hyn o bryd, o ystyried yr angen i gael data deunydd pacio mwy cadarn ar lefel cyflenwr unigol i gefnogi taliadau EPR.

Ni fyddwn yn pennu dyddiad penodol ar gyfer cyflwyno technoleg canfod gweledol ar hyn o bryd. Yn hytrach, byddwn yn darparu'r opsiwn i ddefnyddio hyn i gefnogi gofynion samplu â llaw lle gellir dangos eu bod yn bodloni neu'n rhagori ar y gofynion samplu â llaw ac y gall adrodd ddigwydd mewn modd cyson a gwiriadwy. Gall hyn fod yn opsiwn i leihau gofynion samplu â llaw a chostau a beichiau cysylltiedig. Mae gosod gofyniad i ddefnyddio canfod gweledol ar gyfer samplu yn destun adolygiad hefyd ochr yn ochr â'r adolygiad o opsiynau ar gyfer taliadau busnes yn 2026/27 unwaith y bydd data mwy cadarn ar y dechnoleg, y costau a chywirdeb data ar gael, o'i gymharu â samplu â llaw.

Rydym yn bwriadu mynd ati'n raddol i gyflwyno'r gofynion samplu ac adrodd newydd er mwyn cael gwell data ar gyfansoddiad deunydd pacio cyn gynted â phosibl i gefnogi EPR. Rydym yn disgwyl i MFs sydd o fewn cwmpas y Rheoliadau MF presennol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban fodloni'r gofynion newydd o fewn 6 mis i'r rheoliadau ddod i rym, ac i bob MS o fewn cwmpas y Rheoliadau fodloni'r rheoliadau o fewn 12 mis i'r rheoliadau ddod i rym, a fydd yn cynnwys y rhai yng Ngogledd Iwerddon. Bydd y dull gweithredu fesul cam hwn yn rhoi ychydig mwy o amser paratoi i MFs nad ydynt o fewn cwmpas y Rheoliadau ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl i'r rheoliadau ddod i rym yn 2023.

Ni fyddwn yn cyflwyno safonau ansawdd allbwn gofynnol mewn MFs ar hyn o bryd. Er ein bod yn cydnabod y gefnogaeth gref i'r cynnig hwn o'r ymgynghoriad, nid ydym am greu rhwystrau yn y farchnad yn anfwriadol na rhwystro arloesedd pan nad yw effeithiau mesurau EPR ar ansawdd deunydd pacio yn cael eu deall yn llawn eto. Bydd safonau ansawdd gofynnol yn cael eu hystyried unwaith y bydd ymgynghoriad ac ymchwil wedi'u cynnal ynghylch sut y gellid datblygu a gosod safonau, a sut y mae mesurau EPR wedi effeithio ar ansawdd deunydd pacio. Byddwn yn archwilio heriau rheoliadol gweithredu safonau hefyd.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector a'i annog, a'r SA ar ôl ei sefydlu, i arwain y gwaith o ddatblygu safonau gwirfoddol y gellid eu defnyddio i arwain cyfleusterau

deunyddiau a rheolwyr gwastraff i wella ansawdd gwastraff deunydd pacio i'w ailgylchu. Mae grwpiau diwydiant yn gweithio gyda'i gilydd eisoes i ddatblygu safonau gwirfoddol, a allai fod yn sail i safonau gofynnol yn y dyfodol.

Cylchoedd adrodd a thalu (Cwestiynau 66 a 67)

Gofynnwyd a ddylid gwneud taliadau i awdurdodau lleol ar ffurf ôl-daliadau chwarterol, ar sail blwyddyn ariannol, ac a ddylid cyfrifo taliadau yn seiliedig ar ddeunydd pacio'r flwyddyn flaenorol a roddwyd ar y farchnad a data tunelledd gwastraff. Roedd y rhesymau dros y cynigion hyn yn cynnwys yr aliniad ag adrodd am ddeunydd pacio a roddwyd ar y farchnad, yr amser sydd ei angen i gyflwyno a dilysu data tunelledd gwastraff, pa mor gyflym y mae data'n llifo drwy'r system, hyblygrwydd i ymdopi ag addasiadau a darparu sicrwydd at ddibenion cyfrifyddu ariannol.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylid gwneud taliadau i ALLau bob chwarter, ar sail blwyddyn ariannol. O'r 863 o ymatebwyr, roedd 71% yn cytuno, 5% yn anghytuno a 24% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mynegodd llawer o ymatebwyr gefnogaeth eang. Mynegodd rhai bryder bod y llinell amser yn afrealistig, bod y cylch talu'n rhy gymhleth, ac y gallai ôl-daliadau gael effaith negyddol ar gyllid awdurdodau lleol, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio sydd ei angen i weithredu systemau effeithlon ac effeithiol a bodloni meincnodau perfformiad. Awgrymodd rhai daliadau blynyddol i leihau'r baich gweinyddol.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai taliadau rheoli gwastraff deunydd pacio cartrefi a busnesau fod yn seiliedig ar ddata tunelledd y flwyddyn flaenorol. O'r 863 o ymatebwyr, roedd 75% yn cytuno, 8% yn anghytuno ac 17% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi y byddai'n rhoi mwy o sicrwydd o ran cost i gynhyrchwyr ac yn galluogi diwydrwydd dyladwy. Awgrymodd rhai ymatebwyr o awdurdodau lleol y byddent yn cefnogi'r cynnig hwn ond dim ond lle na ellid defnyddio set ddata dreigl 12 mis. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai data'r flwyddyn flaenorol yn ystyried newidiadau annisgwyl neu dymhorol yn ystod y flwyddyn, ac y byddai'n anodd ariannu'r flwyddyn gyntaf o weithredu. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys seilio taliadau ar ragolygon ar ddechrau'r flwyddyn ac yna cael taliad ar ddiwedd y flwyddyn i wneud iawn. Awgrymodd rhai y gellid defnyddio'r dull gweithredu i ddechrau a'i ailystyried ar ôl i'r system gael ei gweithredu.

Penderfyniadau ar gylchoedd talu

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr dalu ffioedd gwaredu bob chwarter o fis Ebrill i fis Mawrth yn seiliedig ar y deunydd pacio a roddwyd ar y farchnad ganddynt yn y flwyddyn galendr flaenorol.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ALLau gael eu talu am reoli gwastraff deunydd pacio cartrefi ar ffurf ôl-daliadau chwarterol, ar sail blwyddyn ariannol, gyda thaliadau i'w penderfynu o fis Ebrill 2024 ymlaen. Gall trefniadau talu ar gyfer y flwyddyn gyntaf fod yn

wahanol (e.e. dau daliad chwemisol) yn dibynnu ar pryd y gall yr SA ddechrau paratoi, pryd mae cynhyrchwyr yn dechrau adrodd a phryd yr anfonebir ffoedd cynhyrchwyr.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r SA roi rhagolwg o'r taliadau y gall pob awdurdod lleol ddisgwyl eu derbyn yn flynyddol cyn diwedd y flwyddyn galendr flaenorol, gan roi rhybudd i ALLau er mwyn sicrhau bod ganddynt amser i gynllunio eu cyllidebau.

Bydd yr SA yn penderfynu pa ddata a ddefnyddir wrth benderfynu ar daliadau ALI drwy broses dryloyw, yn unol â'r rheoliadau. Bydd disgwyl i'r SA weithio gydag ALLau i seilio taliadau ar yr wybodaeth ddiweddaraf. Fodd bynnag, bydd angen i hyn ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i gasglu a dilysu data, modelu costau systemau effeithlon ac effeithiol, a rhoi amcanestyniadau blynyddol i ALLau a chynhyrchwyr cyn blwyddyn ariannol newydd.

Taliadau sbwriel (Cwestiynau 68 i 72)

Gwnaethom gynnig y byddai cynhyrchwyr eitemau deunydd pacio 'sy'n cael eu taflu'n gyson' yn gyfrifol am y costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'w clirio a'u trin. Awgrymwyd y byddai gwneud cynhyrchwyr deunydd pacio'n gyfrifol am gostau clirio deunydd pacio sy'n cael ei daflu (a ysgwyddir gan ALLau ar hyn o bryd) yn creu cymhelliad clir i leihau deunydd pacio yn gyffredinol ac, yn benodol, faint ohono sy'n cael ei daflu fel sbwriel yn y pen draw. Gwnaethom gynnig y dylai fod yn ofynnol i gynhyrchwyr dalu costau rheoli gwastraff deunydd pacio mewn biniau wrth fynd ac a gaiff ei glirio oddi ar y llawr, ac y dylent ariannu mesurau i helpu i atal sbwriel. Gofynnwyd am farn hefyd ar ba gynhyrchwyr y dylid rhoi rhwymedigaeth arnynt (er mwyn sicrhau bod y costau'n deg ac yn gymesur), a pha gyrff sy'n darparu gwasanaethau ddylai fod yn derbyn taliadau, gan gynnwys a ddylai hyn gynnwys a) cyrff sy'n rheoli tir preifat hygyrch a b) grwpiau gwirfoddol.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai costau rheoli sbwriel gael eu talu gan gynhyrchwyr eitemau sy'n cael eu taflu'n gyson, yn seiliedig ar eu mynychder yn y gwastraff sbwriel. O'r 945 o ymatebwyr, roedd 50% yn cytuno, 42% yn anghytuno a 7% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd cefnogaeth i sefydlu rhestr o 'eitemau deunydd pacio sy'n cael eu taflu'n gyson' i'w defnyddio fel sail ar gyfer dosrannu costau i gynhyrchwyr, gyda rhai ymatebwyr o blaid nodi brandiau unigol i roi cymhelliad cryfach i gynhyrchwyr fynd i'r afael â sbwriel eu deunydd pacio. Roedd rhywfaint o bryder na fyddai'r dull hwn yn arwain at ostyngiad cyffredinol mewn sbwriel nac yn mynd i'r afael ag ymddygiad taflu sbwriel, gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu bod angen mwy o orfodi a/neu dargedau penodol yn ymwneud â lleihau sbwriel.

Gofynnwyd pa gyrff dyletswydd (yn ogystal ag ALLau) y credai rhanddeiliaid ddylai dderbyn taliadau cost net llawn hefyd ar gyfer rheoli deunydd pacio sy'n cael ei daflu. Gallai

ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb o ddetholiad o opsiynau.³⁴ O'r 883 o ymatebwyr, dewisodd 48% yr opsiwn 'dim un o'r uchod', gan awgrymu eu bod yn credu mai dim ond ALLau ddylai gael taliadau sbwriel. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i awdurdodau sbwriel (39%), cyrff dyletswydd eraill (31%), ac ymgymerydd statudol (30%) derbyn taliadau hefyd. Cafodd gwneud taliadau i 'unrhyw un arall' rywfaint o gefnogaeth (19%); roedd awgrymiadau'n cynnwys unrhyw un sy'n mynd i gostau yn sgil rheoli sbwriel neu sydd â rhwymedigaeth i'w glirio, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, ysgolion a thirfeddianwyr.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cynhyrchwyr gyfrannu at gostau mentrau atal sbwriel a gweithgareddau rheoli ar dir arall (h.y. tir nad oes gan neb ddyletswydd statudol i'w gadw'n glir o sbwriel). O'r 940 o ymatebwyr, roedd 53% yn anghytuno, roedd 40% yn cytuno ac ni fynegodd 7% farn. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch cynhyrchwyr yn ysgwyddo cyfrifoldeb am gostau atal a rheoli sbwriel ar dir nad yw'n destun gofynion clirio statudol, yn hytrach na'r cyflawnwr neu'r tîrfeddianwr. Yn yr un modd, awgrymodd llawer mai cyfrifoldeb tîrfeddianwyr yw atal sbwriel drwy ddarparu cyfleusterau gwaredu gwastraff, ac y dylent o leiaf rannu costau taliadau sbwriel gyda chynhyrchwyr.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai taliadau sbwriel awdurdodau lleol fod yn gysylltiedig ag adrodd data'n well. O'r 912 o ymatebwyr, roedd 64% yn cytuno, roedd 5% yn anghytuno ac ni fynegodd 31% farn. Awgrymodd y rhai a gytunodd y byddai cysylltu taliadau sbwriel awdurdodau lleol ag adrodd data'n well yn sicrhau proses glir ar gyfer casglu data a bod cymorth yn cael ei ddarparu i ardaloedd daearyddol sydd â heriau fel amddifadedd uchel. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn anghytuno esbonio pam: roedd rhai o'r 377 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn pryderu bod y cynnig yn canolbwyntio ar ddeunydd pacio EPR yn unig ac nid ar fathau eraill o sbwriel, er eu bod yn cydnabod y byddai cofnodi cymysgedd o sbwriel yn heriol, gydag asesiadau'n dod yn 'oddrychol' o bosibl yn seiliedig ar amgylchedd adeiledig neu ddemograffeg yr ardal. Roedd pryderon eraill yn cynnwys y gost weithredol o gasglu data, data anghywir, a diffyg safoni a gwrthrychedd cyffredinol o ran systemau data.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai taliadau fod yn gysylltiedig â safonau glendid dros amser. O'r 902 o ymatebwyr, roedd 55% yn cytuno, roedd 20% yn anghytuno ac ni fynegodd 25% farn. Teimlai'r rhai a gytunodd y byddai'r cynnig yn cymell cynghorau i wella eu glendid a allai arwain at lai o sbwriel. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn anghytuno esbonio pam, gyda'r rhan fwyaf o'r 372 o ymatebwyr yn pryderu ynghylch ble y dylai cyfrifoldebau fod; roedd llawer yn cwestiynu'r rheolaeth sydd gan ALLau dros faint o sbwriel a ollyngir, ac roedd rhai'n teimlo na ddylid ystyried cynhyrchwyr yn gyfrifol. Roedd rhai'n pryderu am y gost gysylltiedig i ALLau ac yn teimlo y byddai dulliau ataliol yn fwy effeithiol. Cyflwynwyd awgrymiadau amrywiol, gan gynnwys gwahaniaethu

³⁴ Roedd y rhain yn cynnwys cyrff dyletswydd eraill, awdurdodau sbwriel, ac ymgymerydd statudol, yn ogystal â 'dim un o'r uchod' ac 'unrhyw rai eraill' (lle gallai ymatebwyr bennu corff dyletswydd wedyn).

rhwng sbwriel sy'n ddeunydd pacio a sbwriel nad yw'n ddeunydd pacio yn y mesur glendid, cysylltu taliadau â gweithgarwch gorfodi, a mesur perfformiad ALLau yn erbyn ALLau cymharol.

Penderfyniadau ar daliadau sbwriel

Byddwn yn rheoleiddio i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr dalu a) cost gweithgareddau cyfathrebu sydd â'r nod o atal deunydd pacio rhag cael ei daflu, a b) costau rheoli deunydd pacio sy'n debygol o gael ei waredu mewn biniau stryd.³⁵ Bydd y pedair gweinyddiaeth yn adolygu'r cynnydd o ran lleihau cyfanswm y deunydd pacio a waredir mewn biniau stryd a sbwriel ar y llawr yn 2026/27 ac yn ystyried unrhyw gamau ymarferol pellach y gellir eu cymryd ar lefel y DU. Mae'r sefyllfa hon yn lleihau cymhlethdod y cynllun EPR sydd i'w gyflwyno o 2024 ymlaen ac yn lleihau'r baich ar gynhyrchwyr.

Mae Llywodraethau Cymru a'r Alban yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r sefyllfa a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad: bod cost clirio deunydd pacio oddi ar y llawr (y cyfeirir ato fel 'sbwriel llawr' yn yr ymgynghoriad) wedi'i gynnwys yng nghostau cynhyrchwyr, gan adlewyrchu cyfrifoldeb cynhyrchwyr am ddyluniad deunydd pacio a'r dewis o ddeunydd, ac y byddai'r rhwymedigaeth hon yn cymell cynhyrchwyr i leihau faint o ddeunydd pacio untro a ddefnyddir a chymryd camau eraill i atal sbwriel. Ochr yn ochr â hyn, byddai cyrff a sefydliadau y tu hwnt i awdurdodau lleol yn unig yn gallu elwa ar y cyllid hwn ar gyfer ymgyrchoedd atal sbwriel neu gasgliadau sbwriel lleol. Bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i adolygu taliadau sbwriel gyda'r bwriad o'u rhoi ar waith yn ehangach yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU yn pryderu am gymhlethdod ychwanegol EPR a'r baich ychwanegol ar gynhyrchwyr a fyddai'n dod yn sgil trosglwyddo'r gost o ollwng sbwriel o drethdalwyr i gynhyrchwyr; byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn 2026 ac yn ystyried mesurau ychwanegol os oes eu hangen.

Er mwyn cyflawni'r sefyllfa a nodir yn yr ymgynghoriad, mae Llywodraethau Cymru a'r Alban yn ystyried camau i orfodi cynhyrchwyr mewn perthynas â'r costau hyn, lle mae'r deunydd pacio hwn yn cael ei roi ar y farchnad yng Nghymru a'r Alban yn y drefn honno, a byddant yn egluro eu bwriad yn fanwl maes o law. Mae'r pedair gweinyddiaeth yn cytuno y bydd yr SA penodedig yn cyflawni'r swyddogaethau hyn, yn amodol ar y canlynol:

- Bydd unrhyw ddull a fabwysiedir yn sicrhau bod costau rheoli sbwriel ar y llawr yn cael eu cyfyngu i ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad yng Nghymru a'r Alban yn unig;
- Mae unrhyw ddull a fabwysiedir wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r cynhyrchwyr deunydd pacio sydd â rhwymedigaeth; a
- bod cyflawni'r cynllun ar gyfer y DU gyfan o 2024 ymlaen yn cael ei flaenoriaethu.

Bydd Cymru a'r Alban yn arwain y gwaith o ddatblygu cynigion manwl ynghylch sut y gallai hyn weithio. Mae pob un o'r pedair llywodraeth yn ymrwymo i ddefnyddio'r Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff i gynorthwyo gyda'r broses hon, gan gynnwys mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gyflawni'n llwyddiannus.

Gweinyddu a Llywodraethu'r Cynllun

Opsionau ar gyfer gweinyddu cynlluniau (Cwestiynau 73 i 83)

Cyflwynwyd dau opsiwn gennym yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer gweinyddu'r cynllun. Roedd Opsiwn 1 ar gyfer un SA a fyddai'n gyfrifol am weinyddu'r gofynion costau rheoli gwastraff ('gwaredu') ac am gydymffurfio â rhwymedigaethau ailgylchu ar ran eu haelodau sy'n gynhyrchwyr. Roedd Opsiwn 2 ar gyfer SA a chynlluniau cydymffurfio, lle mae'r SA yn gyfrifol am y swyddogaethau hynny yr ystyrir eu bod yn elwa ar ddull cyson ledled y DU gan gynnwys gweinyddu taliadau costau gwaredu ar gyfer gwastraff deunydd pacio cartrefi, ac mae cynlluniau cydymffurfio'n gyfrifol am reoli rhwymedigaethau cynhyrchwyr sy'n ymwneud â gwastraff deunydd pacio ac ailgylchu nad yw'n dod o gartrefi (busnes).

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoli rhwymedigaethau cynhyrchwyr mewn perthynas â gwastraff deunydd pacio cartrefi a sbwriel (h.y. perthynas ag ALLau) gael eu rheoli gan un sefydliad. O'r 952 o ymatebwyr, roedd 83% yn cytuno, roedd 9% yn anghytuno ac ni fynegodd 8% farn.

Gofynnwyd hefyd pa ddull sydd orau gan randdeiliaid (Opsion 1 neu Opsion 2). O'r 1,026 o ymatebion, roedd 35% yn ffafrio Opsion 1, 56% yn ffafrio Opsion 2 a 9% ddim yn ffafrio'r naill opsiwn na'r llall. Roedd y rhai a oedd yn ffafrio Opsion 1 yn tueddu i fod yn ymatebwyr o lywodraeth leol, rhai o'r gweithgynhyrchwyr cynnyrch mwy a rhai manwerthwyr a chyrrff masnach. Roeddent o'r farn y byddai un sefydliad yn galluogi mwy o oruchwyliaeth a chraffu strategol, mewn ffordd fwy cost-effeithiol a symlach yn weinyddol nag Opsion 2. Roedd ymatebwyr o'r farn hefyd y byddai'n galluogi mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau gwahanol bartïon a'r SA ei hun. Ar y llaw arall, mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai'r dull hwn wanhau'r canlyniadau a fwriadwyd, gan mai'r SA fyddai'n rheoli'r cyfrifoldeb o gyrraedd targedau ailgylchu yn hytrach na chynhyrchwyr, ac efallai na fyddai sefydliad unigol yn gallu cynnig y cymorth priodol i gynhyrchwyr a busnesau llai.

Roedd y rhai a oedd yn ffafrio Opsion 2 yn tueddu i fod yn weithgynhyrchwyr cynnyrch/llenwyr pecynnau, rhai manwerthwyr a rhai cyrrff masnach. Roedd y rhesymau a roddwyd dros ffafrio Opsion 2 yn cynnwys ei fod yn cadw profiad/arbenigedd cynlluniau cydymffurfio, yn rhoi dewis i gynhyrchwyr o ran sut maent yn cydymffurfio, a allai yn ei dro helpu i leihau effaith newid ar fusnesau a hwyluso'r broses o drosglwyddo i'r trefniadau

³⁵ Biniâu yw'r rhain sy'n cael eu rheoli gan awdurdod lleol

newydd. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'n lleihau cymhlethdod i'r SA hefyd, gan ganiatáu iddo ganolbwyntio ar amcanion strategol a'r berthynas ag ALLau, a galluogi dull mwy hyblyg ac ymatebol yn gyffredinol. Roedd y rhai nad oeddent yn cefnogi Opsiwn 2 yn pryderu y byddai'n gwneud pethau'n fwy cymhleth ac yn arwain at gostau uwch o gymharu â sefydliad unigol, a allai elwa o arbedion maint. Cafwyd sylwadau hefyd nad oedd y cynnig yn glir ynghylch sut y byddai cynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio yn cael gafael ar y dystiolaeth angenrheidiol (ynghylch casglu ac ailgylchu gwastraff), gan bwysleisio y dylai gofynion sy'n ymwneud â thystiolaeth a thaliadau fod yn syml ac yn dryloyw.

Yr unig opsiwn amgen sylweddol a gyflwynwyd oedd y gallai fod dau weinyddwr, un yn gyfrifol am elfennau'r cynllun sy'n cynnwys ALLau, cyrff sbwriel a'r canlyniadau a'r targedau cysylltiedig, a'r llall ar gyfer yr elfennau sy'n wynebu busnesau.

Gofynnwyd am farn hefyd ar ddulliau o reoli ansicrwydd cost yn ystod y flwyddyn i gynhyrchwyr gan SA a/neu gynlluniau cydymffurfio. O'r 925 o ymatebion, roedd yn well gan 31% gronfa wrth gefn, roedd yn well gan 5% addasiad yn ystod y flwyddyn i ffioedd, roedd yn well gan 9% roi'r dewis i gynhyrchwyr unigol (cronfa wrth gefn neu addasiad ffioedd); ni fynegodd 19% unrhyw ddewis ac roedd angen mwy o wybodaeth ar 36% cyn mynegi barn.

Penodi Gweinyddwr y Cynllun a dechrau gweithredu

Ar gyfer Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 gofynnwyd a oedd cyfnod y contract cychwynnol arfaethedig o 8-10 mlynedd yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r SA fabwysiadu dull strategol o reoli a chyflawni ei swyddogaethau a gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol i gyflawni targedau a chanlyniadau. Roedd yr ymatebion yn debyg, p'un a oedd yna sefydliad unigol (Opsiwn 1) neu sefydliad unigol ynghyd â chynlluniau cydymffurfio (Opsiwn 2) yn cael eu hystyried. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (61% yn achos Opsiwn 1 a 60% yn achos Opsiwn 2) o'r farn bod yr amserlen hon yn briodol tra bod 4% (Opsiwn 1) a 2% (Opsiwn 2) yn anghytuno ac ni fynegodd 36% a 38% farn, yn y drefn honno. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig o'r farn y byddai'n caniatáu amser i adennill costau ymlaen llaw wrth sefydlu'r SA tra'n darparu lefel o hyblygrwydd pe bai angen unrhyw newidiadau yn y cyfnod hyd at 2030.

O'r gyfran fach o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd rhai o blaid cyfnod contract hirach ac eraill o blaid cyfnod contract byrrach. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn ei chael yn anodd gwneud sylwadau ar gyfnod contract priodol gan nad oedd digon o fanylion ac felly eglurder ynghylch cwmpas rôl yr SA.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r amserlen a gynigiwyd ar gyfer penodi'r SA. O'r 895 o ymatebwyr, roedd 54% yn cefnogi'r llinell amser arfaethedig, nid oedd 21% yn cefnogi'r llinell amser, ac nid oedd 25% yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r llinell amser arfaethedig. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r llinell amser o'r farn ei bod yn bwysig sefydlu SA cyn gynted â phosibl. Roedd pryderon am y llinell amser yn cynnwys diffyg amser i gorff gweithredol baratoi'n effeithiol ar gyfer y cyfrifoldebau a ddisgwyllir ganddo.

Gofynnwyd hefyd a oedd ymatebwyr o'r farn y byddai gan yr SA, pe bai'n cael ei benodi ym mis Ionawr 2023, ddigon o amser i baratoi er mwyn gwneud taliadau i ALLau o fis Hydref 2023 ymlaen. O'r 951 o ymatebwyr, nid oedd 51% o'r farn bod hyn yn ddigon o amser, roedd 39% yn ansicr, ac roedd 10% o'r farn bod hyn yn ddigon o amser. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y llinell amser hon yn afrealistig, o ystyried y nifer fawr o dasgau cymhleth y byddai angen i'r SA eu cyflawni i ddod yn weithredol. Soniodd llawer o ymatebwyr hefyd am yr effaith y byddai'r llinell amser hon yn ei chael ar fusnesau gan nad oes dim lle i unrhyw oedi a allai ddigwydd wrth roi SA ar waith. Awgrymwyd y gallai unrhyw oedi o'r fath amharu ar fusnesau a pho gyflymaf y byddai disgwyl i fusnes addasu, po uchaf fyddai'r costau i'r busnes.

Cynlluniau Cydymffurfio

Rydym yn egluro cwmpas y cymeradwyaethau y credwn y byddai eu hangen ar gyfer cynlluniau cydymffurfio, gan gynnwys cymeradwyo cynllun gweithredu tair blynedd a chynlluniau penodol ar gyfer monitro, archwilio ac adrodd. Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cynlluniau cydymffurfio. O'r 927 o ymatebion, roedd 74% yn cytuno, roedd 3% yn anghytuno a 22% yn ansicr. Roedd yr awgrymiadau ychwanegol a wnaed yn cynnwys meini prawf ariannol cryfach a'i gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr egluro eu cynigion yn eu cynlluniau i helpu i ategu capasiti ailgylchu/aillbrosesu newydd yn y DU.

Gofynnwyd a ddylem ystyried cyflwyno Cod Ymarfer Cynllun Cydymffurfio a/neu brawf 'person addas a phriodol' ar gyfer gweithredwyr cynlluniau cydymffurfio. Cafodd y ddau gynnig lefel uchel o gefnogaeth. O'r 918 o ymatebion, roedd 81% o blaid cyflwyno Cod Ymarfer a phrawf 'person addas a phriodol', roedd 8% yn cefnogi'r Cod Ymarfer yn unig, roedd 2% yn cefnogi'r prawf 'person addas a phriodol' yn unig. Dim ond 1% o'r ymatebion oedd ddim yn cefnogi'r naill na'r llall ac roedd 9% yn ansicr. Roedd y rhai a oedd o blaid cyflwyno'r ddau o'r farn y byddai'r rhain gyda'i gilydd yn sicrhau mwy o atebolrwydd. Roedd rhai o'r farn, o ystyried y costau uwch disgwylidig o gydymffurfio yn y dyfodol, ei bod yn hanfodol bod y partiön cyfrifol yn 'addas' i ymgymryd â'r rhwymedigaethau ar ran cynhyrchwyr.

Wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i gynnig sylwadau ehangach ar y drefn fonitro a gorfodi a rôl y rheoleiddwyr (amgylcheddol) ac i ailadrodd sylwadau a wnaed mewn ymateb i gwestiynau eraill. Mynegwyd pryderon ynghylch cymhlethdod ein cynigion ar gyfer monitro ac archwilio data ailgylchu ar hyd y gadwyn gyflenwi gan ystyried eu bod yn afrealistig o ran effeithiolrwydd, logisteg ac amserlenni. Cafwyd sylwadau hefyd yn gofyn am eglurhad ynghylch rôl cynlluniau cydymffurfio â'r SA mewn perthynas â thargedau ailgylchu ac roedd rhai'n cwestiynu ai'r rheoleiddwyr amgylcheddol yw'r cyrff priodol o ystyried ei fod yn gynllun mor fawr yn ariannol.

Gofynion adrodd

Roedd y cwestiynau olaf yn yr adran hon yn ymwneud â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i'r SA (o dan Opsiwn 1) neu'r SA a chynlluniau cydymffurfio (o dan Opsiwn 2) gyhoeddi

adroddiadau blynyddol yn egluro eu perfformiad a'u cyflawniadau cyffredinol, gyda dadansoddiadau am y gweinyddiaethau datganoledig. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion hyn, ac ychydig iawn o wahaniaeth a welwyd rhwng ymatebion o dan Opsiynau 1 a 2. O'r 907 o ymatebion (a oedd yn ymwneud ag Opsiwn 1), roedd 78% yn cytuno, roedd 4% yn anghytuno ac roedd 18% yn ansicr. O'r 914 o ymatebion (a oedd yn ymwneud ag Opsiwn 2), roedd 79% yn cytuno, roedd 3% yn anghytuno ac roedd 17% yn ansicr.

Penderfyniadau ar weinyddu'r cynllun

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith y byddai'r gwaith o lywodraethu a gweinyddu'r trefniadau cyfrifoldeb cynhyrchwyr newydd yn cael ei lywio gan y dull o ymdrin â rhwymedigaethau cynhyrchwyr ar gyfer gwastraff deunydd pacio a gynhyrchir gan fusnesau. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod rôl barhaus i gynlluniau cydymffurfio o ran cefnogi cynhyrchwyr i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau hyd nes y gellir rhoi trefniadau amgen ar waith.

Rydym wedi bod yn ymgysylltu â Thrysorlys EM ynghylch sefydlu Gweinyddwr y Cynllun. Barn ddangosol gan Drysorlys EM yw bod yr SA yn debygol o gael ei ddsbarthu i'r sector cyhoeddus oherwydd y gweithgareddau y mae'n eu cyflawni a'r lefel ddisgwyliedig o reolaeth gan y sector cyhoeddus.³⁶ Yng ngoleuni'r cyngor hwn, mae'r Llywodraeth yn ystyried opsiynau i sefydlu'r SA yn y sector cyhoeddus gyda chyfleoedd i'r sector preifat gyflawni rhai o'i swyddogaethau. Byddwn yn ymgysylltu â chynhyrchwyr a rhanddeiliaid eraill wrth i ni ddatblygu'r cynigion hyn.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i sefydlu'r SA yn ystod 2023 ac iddo fod yn gwbl weithredol yn 2024. Nodir swyddogaethau allweddol yr SA yn Atodlen 2. Bydd gan yr SA gylch gwaith sy'n cynnwys y DU gyfan.

Er mwyn cynnal parhad a hwyluso'r broses o drosglwyddo i'r trefniadau cyfrifoldeb cynhyrchwyr newydd, bydd cymeradwyaethau ar gyfer cynlluniau cydymffurfio o dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 yn cael eu cadw a bydd cynlluniau'n gallu parhau i weithredu o dan y rheoliadau EPR newydd tan ddiwedd blwyddyn gydymffurfio 2024. Bydd angen i gynlluniau cydymffurfio sy'n dymuno parhau i weithredu ar ôl 2024 wneud cais am gymeradwyaeth o dan y rheoliadau EPR newydd.

³⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol annibynnol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau dosbarthu yn y pen draw. Mae Trysorlys EM yn rhoi safbwyntiau dangosol i adrannau'r llywodraeth mewn rhai achosion lle nad yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi adolygu'r dosbarthiad yn ffurfiol eto. Ni chaiff y Swyddfa Ystadegau Gwladol adolygu'r dosbarthiad hyd nes y bydd y sefydliad wedi'i sefydlu ac yn gweithredu.

Ni fydd cynlluniau cydymffurfio'n ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â gweinyddu taliadau costau gwaredu (Deddf yr Amgylchedd 2021, Atodlen 5) gan y bydd disgwyl i gynhyrchwyr sydd â rhwymedigaeth wneud y taliadau hyn yn uniongyrchol i'r SA. Fodd bynnag, bydd cynlluniau cydymffurfio yn gallu cynorthwyo cynhyrchwyr gyda'u cyflwyniadau data.

Bydd y rheoliadau EPR yn egluro'r meini prawf y bydd yn ofynnol i gynlluniau cydymffurfio eu dangos yn eu ceisiadau i'w cymeradwyo. Bydd y meini prawf hyn yn seiliedig ar y rhai yn y ddogfen ymgynghori, wedi'u llywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd prawf cymhwysedd gweithredwr yn cael ei gyflwyno fel gofyniad i gymeradwyo/cofrestru a bydd ei fanylion yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar welliannau i'r system PRN. Byddwn yn ymgysylltu â Fforwm y Cynllun Deunydd Pacio a'r rheoleiddwyr ynghylch datblygu Cod Ymarfer newydd ar gyfer Cynlluniau Cydymffurfio.

37

Ailbroseswyr ac Allforwyr

Ailbroseswyr ac allforwyr (Cwestiynau 84 i 91)

Nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad na fyddai angen Nodiadau Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio (PRNs) a Nodiadau Ailgylchu Allforio Gwastraff Deunydd Pacio (PERNs) o dan EPR, sy'n golygu na fyddai angen achredu ailbroseswyr ac allforwyr mwyach.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y bydd yn ofynnol i bob ailbrosesydd ac allforiwr sy'n ymdrin â gwastraff deunydd pacio gofrestru gyda rheoleiddiwr. O'r 888 o ymatebwyr, roedd 93% yn cefnogi'r angen i gofrestru ailbroseswyr ac allforwyr yn orfodol, roedd 1% yn anghytuno ac nid oedd 6% yn cytuno nac yn anghytuno.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai pob ailbrosesydd ac allforiwr adrodd ar ansawdd a maint y gwastraff deunydd pacio a dderbynnir. O'r 894 o ymatebwyr, roedd 90% yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd 2% yn anghytuno ac nid oedd 8% yn cytuno nac yn anghytuno. Dywedodd y rhai a oedd o blaid eu bod yn ystyried ei bod yn hanfodol ar gyfer cysondeb, tryloywder a monitro, a lleihau allforion anghyfreithlon ac o ansawdd isel. Roedd y pryderon allweddol a godwyd yn ymwneud â methiant i dalu costau gweinyddol a rheoliadol, y diffyg cymhelliant i gymryd rhan adeiladol yn y system a sut y byddai mesur ansawdd yn digwydd.

Gofynnwyd cwestiwn penagored yn ymwneud â'r heriau y mae rhanddeiliaid yn eu gweld wrth adrodd ar ansawdd y gwastraff deunydd pacio a dderbynnir adeg ailbrosesu a/neu allforio. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 649 o ymatebwyr, gyda llawer yn mynegi pryderon am oblygiadau'r cynnig hwn gan y gall ailbroseswyr ei chael hi'n anodd nodi ffynhonnell y deunyddiau, eu bod yn derbyn deunyddiau o ansawdd isel neu halogedig i'w hailgylchu oherwydd arferion casglu a didoli gwael, ac yn cael anawsterau wrth adrodd data'n gywir. Roedd rhai'n pryderu hefyd y byddai'r gofynion adrodd ychwanegol yn faich ariannol a gweinyddol ar fusnesau ac y gallai rhai fethu â chydymffurfio a cham-adrodd. Serch hynny, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion, gyda rhai'n awgrymu bod ailbroseswyr eisoes yn olrhain ansawdd deunyddiau a bod adrodd ar feintiau'n ofyniad achredu.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r defnydd o drefniadau cytundebol rhwng ailbroseswyr a MRFs/casglwyr neu gludwyr gwastraff fel ffordd o hwyluso'r broses o ddostrannu a llif data ailgylchu. Yr oedd diffyg consensws ar y pwynt hwn; o'r 836 o ymatebwyr, roedd 37% yn cytuno, roedd 22% yn anghytuno, ac roedd 40% yn ansicr. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr anawsterau y byddai hyn yn eu cyflwyno wrth olrhain tystiolaeth wrth iddi symud drwy'r gadwyn wastraff a sôn am yr angen am reoleiddio priodol.

Gofynnwyd hefyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i allforwyr ddarparu tystiolaeth bod gwastraff deunydd pacio a allforiwyd wedi'i dderbyn a'i brosesu gan ailbrosesydd tramor. O'r 848 o ymatebwyr, roedd 91% yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd 2% yn anghytuno ac nid oedd 7% yn cytuno nac yn anghytuno. Teimlai rhai y gallai'r cynigion hyn helpu i sicrhau bod ailbroseswyr ac allforwyr domestig yn cael eu trin yn gyfartal a rhoi hyder i'r cyhoedd yng nghanlyniadau'r EPR. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr y gallai fod anawsterau, fel sydd ar hyn o bryd, o ran cael y dystiolaeth hon o rai cyrchfannau, gan ei bod yn bosibl na fydd yn bosibl gwahanu gwastraff sy'n tarddu o'r DU oddi wrth wastraff o'r tu allan i'r DU.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno mai dim ond gwastraff deunydd pacio sydd wedi cyflawni statws diwedd gwastraff y dylid gallu ei allforio a'i gyfrif tuag at gyflawni targedau ailgylchu. O'r 838 o ymatebwyr, roedd 60% yn cytuno, 13% yn anghytuno a 27% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Dywedodd rhai ymatebwyr nad yw gwastraff deunydd pacio sy'n bodloni statws diwedd gwastraff yn wastraff mwyach ac na fyddai'n cyfrif tuag at gyflawni targedau ailgylchu. Roedd rhai'n pryderu nad oes digon o seilwaith yn y DU ar hyn o bryd i hwyluso'r gofyniad hwn ac y gallai busnesau wynebu costau ychwanegol o ganlyniad i'r gofyniad i roi'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod statws diwedd gwastraff yn cael ei gyflawni. Ers hynny, rydym wedi ystyried a ddylai fod yn ofynnol i wastraff deunydd pacio fodloni safon y cytunwyd arni cyn ei allforio, ond ni fyddwn yn mynd ar drywydd gofyniad o'r fath ar hyn o bryd.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn orfodol i allforwyr gyflwyno ffurflenni Atodiad VII wedi'u cwblhau'n llawn, contractau a dogfennau archwilio eraill fel rhan o'r wybodaeth ategol wrth adrodd ar allforio gwastraff deunydd pacio. O'r 839 o ymatebwyr, roedd 83% yn cytuno, 1% yn anghytuno a 16% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Yn olaf, gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno bod rheoleiddwyr yn ceisio cynnal arolygiadau ychwanegol o safleoedd sy'n

derbyn, drwy weithredwyr trydydd parti. O'r 830 o ymatebwyr, roedd 86% yn cytuno, 1% yn anghytuno ac 13% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Penderfyniadau ar ailbrosewyr ac allforwyr

Gan y bydd y 'system PRN' yn cael ei chadw, bydd y gofyniad i ailbrosewyr ac allforwyr gael eu hachredu os ydynt yn dymuno cyhoeddi PRNs neu PERNs yn parhau i fod yn gymwys.

Yn ogystal, byddwn yn bwrw ymlaen â gofyniad gorfodol i bob ailbrosesydd ac allforiwr sy'n ymdrin â gwastraff deunydd pacio gofrestru gyda rheoleiddiwr a fydd yn cynnwys gofyniad i adrodd data ar faint o wastraff deunydd pacio a drafodir a'i ansawdd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn casglu data ar yr holl wastraff deunydd pacio a gaiff ei ailgylchu a bydd yn gwella ein dealltwriaeth o sut mae deunydd pacio'n symud drwy'r system rheoli gwastraff.

Bydd yn ofynnol i ailbrosewyr ac allforwyr adrodd ar:

- y tunelli o wastraff deunydd pacio a dderbynnir ar y safle (yn ôl math o ddeunydd a gradd)
- y tunelli o ddeunydd pacio na ellir ei ailgylchu neu ddeunydd pacio nad yw wedi'i dargedu
- y tunelli o wastraff deunydd pacio i'w ailbroseu neu ei allforio yn dilyn unrhyw brosesau glanhau a didoli pellach
- y tunelli o ddeunyddiau deunydd pacio wedi'u hailbroseu ar y safle a/neu eu hanfon i safle neu gyfleuster cyrchfan pellach. Er enghraifft, safle cyrchfan tramor i allforwyr, neu safle ailbroseu neu gyfleuster gwaredu arall yn y DU.

Fel rhan o'r broses gofrestru, bydd yn ofynnol i ailbrosewyr ac allforwyr gyflwyno cynllun samplu ac arolygu i reoleiddiwr i'w gymeradwyo. Bydd hyn yn manylu ar sut y maent yn bwriadu bodloni eu gofynion adrodd a pha samplu y byddant yn ymgymryd ag ef a/neu brotocolau y byddant yn eu defnyddio i bennu faint o ddeunydd pacio a drafodir a'i ansawdd. Bydd yn ofynnol hefyd iddynt adrodd i'r rheoleiddiwr ar ddata samplu.

Bydd angen i'r rhai sy'n dymuno cyhoeddi PRNs/PERNs gymryd cam pellach i gael eu hachredu a bydd yn ofynnol iddynt adrodd gwybodaeth a thystiolaeth yn ychwanegol at yr hyn sy'n ofynnol drwy gofrestru.

Bydd y gofynion presennol ar gyfer allforwyr gwastraff deunydd pacio achrededig yn cael eu cryfhau o dan y Rheoliadau newydd. Bydd yn ofynnol i allforwyr gael tystiolaeth bod llwythi wedi'u derbyn yn y safleoedd cyrchfan terfynol a rhaid iddynt gael tystiolaeth o ailgylchu gan yr ailbrosesydd tramor. Rydym yn cynnig mai dim ond ar ôl cael cadarnhad o dderbyn y deunydd gan y safleoedd cyrchfan terfynol y bydd allforwyr yn gallu cadarnhau cyhoeddi PERNs. Rydym yn cydnabod ei bod yn anodd cael tystiolaeth o dderbyn deunydd ac ailgylchu o safleoedd tramor a byddwn yn parhau i weithio gyda'r rheoleiddwyr i ddatrys hyn.

Bydd yn ofynnol i allforwyr gyflwyno ffurflenni Atodiad VII a/neu ddogfennau ategol perthnasol eraill i'r rheoleiddwr cyn i'r gwastraff gael ei allforio. Byddwn yn ystyried ymhellach pa wybodaeth/tystiolaeth ychwanegol y dylai fod yn ofynnol i allforwyr ei darparu i ddangos bod y deunyddiau a allforiwyd wedi'u derbyn a'u prosesu gan ailbrosesydd tramor neu, lle nad yw hynny'n bosibl, bod y deunyddiau o ansawdd derbyniol cyn eu hallforio.

Byddwn yn cyflwyno gofyniad gorfodol ar gyfer arolygiadau o safleoedd tramor gan weithredwyr trydydd parti yn y Rheoliadau. Bydd y rheoleiddwyr yn cyhoeddi canllawiau i helpu ailbroseswyr ac allforwyr i ddeall y gofynion sy'n ymwneud â chofrestru ac achredu.

Ni fyddwn yn gwneud y canlynol yn ofynnol ar hyn o bryd:

- gwneud i ailbroseswyr ac allforwyr ddarparu tystiolaeth o ailgylchu yn ôl i lawr y gadwyn gyflenwi fel rhan o drefniadau cytundebol. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach i benderfynu a oes angen cefnogi canlyniadau EPR, taliadau ac adrodd ar dargedau ar lefel gweinyddiaeth ddatganoledig, ac i ba raddau y gallai olrhain gwastraff yn ddigidol ddarparu'r data hwn. Felly, efallai y byddwn yn ystyried ei gyflwyno yn y dyfodol os bydd tystiolaeth yn awgrymu y byddai'n fuddiol o ran cyflawni EPR yn llwyddiannus.
- gwastraff deunydd pacio i sicrhau statws diwedd gwastraff cyn allforio (ac i gyfrannu at dargedau ailgylchu). Byddwn yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr i ystyried pa ofynion y gallai fod angen eu cyflwyno yn y dyfodol i sicrhau bod gwastraff a allforir o safon debyg i wastraff sy'n cael ei ailbrosesu yn y DU.

Ar wahân, mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn ymrwymedig i roi terfyn ar allforio gwastraff plastig i wledydd nad ydynt yn rhan o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac i ymgynghori ar ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth cludo gwastraff er mwyn gweithredu'r ymrwymiad hwn.

Cydymffurfio a gorfodi

Cydymffurfio a Gorfodi (Cwestiynau 92- 95)

Gofynnodd yr ymgynghoriad gwestiynau ynghylch y dull arfaethedig o fonitro a gorfodi'r system EPR ar gyfer deunydd pacio, gan ofyn am farn rhanddeiliaid ar unrhyw broblemau tybiedig ac awgrymiadau ar sut y gellid ei rheoleiddio'n effeithiol. Gwahoddodd yr ymgynghoriad sylwadau ar unrhyw amodau a meini prawf ychwanegol y gallai'r rheoleiddwyr amgylcheddol eu cynnwys yn eu cynlluniau monitro ac arolygu gweithredwyr nad ydynt yn eu cynnwys ar hyn o bryd.

Roedd y cwestiwn cyntaf yn yr adran hon yn benodol am y dull cyffredinol o ymdrin ag EPR fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac fel yr amlinellir yn yr ymateb hwn, mae ein cynigion wedi newid mewn sawl ffordd gan gynnwys ein penderfyniad i gadw'r mecanwaith PRN/PERN am gyfnod, felly nid yw'r

cwestiwn hwn yn uniongyrchol berthnasol bellach. Fodd bynnag, mae'r sylwadau a ddarparwyd gan ymatebwyr yn berthnasol ar lefel ehangach.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion cyffredinol ar gyfer gorfodi, gan bwysleisio'r angen am dryloywder ac i'r rheoleiddwyr gael adnoddau priodol. Roedd pryderon am orfodi'r rheoliadau'n effeithiol ac yn gyson os nad oedd cyllid ar gyfer y rheoleiddwyr, a chapasiti/gallu'r rheoleiddwyr, yn ddigonol. Awgrymodd ymatebwyr y dylid sefydlu Grŵp Cyswllt Technegol ffurfiol gyda gweithredwyr i hwyluso cyfathrebu ar faterion manwl; yn ogystal â gwelliannau i systemau casglu data er mwyn i'r rheoleiddwyr allu olrhain data'n well a'i dadansoddi'n fwy cynhwysfawr.

Gofynnwyd a oedd gan randdeiliaid unrhyw awgrymiadau pellach ar yr hyn y dylai'r rheoleiddwyr ei gynnwys yn eu cynlluniau monitro ac arolygu nad yw wedi'i gynnwys ar hyn o bryd. Roedd rhai o'r 577 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn o'r farn bod y system fonitro bresennol yn anghyson ac nad oedd yn ddigon trylwyr. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylid cyhoeddi'r meini prawf monitro a sicrhau eu bod ar gael i bob gweithredwr, ac i gyrff eraill yn y diwydiant adolygu a nodi gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd. Awgrymwyd sut y gellid gwneud gwaith casglu tystiolaeth gan y rheoleiddwyr yn fwy effeithiol gan gynnwys drwy ddefnyddio fideos, ffotograffau a ffynonellau data eraill. Yn ogystal, nododd llawer o ymatebwyr sut y gellid gwella cynlluniau monitro ac arolygu'r rheoleiddwyr, gan gynnwys drwy weithio gyda chyrrff allforio, ac yn fwy cyffredinol drwy gryfhau arolygiadau a'r Rheoliadau Cludo Gwastraff, a thrwy wella'r broses o gasglu data a chroeswiro â data arall megis data allforio a TAW CThEM.

Gofynnwyd am opsiynau ar gyfer gorfodi hefyd, gan ofyn am farn ynghylch a ddylid defnyddio ffioedd a thaliadau'r rheoleiddiwr i ariannu gwaith gorfodi. Atebodd 577 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth i ddefnyddio ffioedd a thaliadau rheoleiddiwr am waith gorfodi, gan nodi'r angen am weithgarwch gorfodi priodol i sicrhau bod yr holl gwmnïau yr effeithir arnynt yn cydymffurfio. Fodd bynnag, roedd rhai'n pryderu am degwch y cynnig ac yn pwysleisio y dylid trin busnesau'n gyfartal, ac y dylai'r system fod yn dryloyw. Gwnaeth llawer o ymatebwyr awgrymiadau gan gynnwys ariannu'r cyrrff rheoleiddio'n llawn yn unol ag egwyddor y 'llygrwr sy'n talu', gan ddefnyddio arian sy'n deillio o ffioedd y rheoleiddiwr ar gyfer addysg a buddsoddi ar draws y diwydiant gwastraff. Byddai'r cyllid hwn yn cefnogi cyfathrebu manteision economi gylchol, arferion da a sicrhau atebolrwydd cynhyrchwyr.

Gofynnwyd a fyddai'n well gan randdeiliaid weld cosb ariannol ar unwaith am beidio â chydymffurfio, neu gosb arall a restrir, megis erlyn. Atebwyd y cwestiwn hwn gan 577 o ymatebwyr. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r camau gorfodi cymesur a gynigir yn atal lleiafrif rhag cael pethau am ddim. Fodd bynnag, roedd rhai'n pryderu na fyddai cosbau ariannol yn effeithiol oni bai eu bod yn fwy na'r costau y gellid eu hosgoi drwy beidio â chydymffurfio, a/neu'n credu na fyddai dirwy yn unioni'r broblem a bod angen atebion amgen ar gyfer peidio â chydymffurfio.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder am y gallu i orfodi cydymffurfiaeth cynhyrchwyr unigol neu am y dull arfaethedig o gymell y rheoleiddiwr i gymhwyso ffioedd a thaliadau amlach.

Teimlai'r ymatebwyr hyn, yn dibynnu ar faint a phroffidioldeb busnesau, na fyddai dirwyon o bosibl yn rhwystr digonol.

Cafwyd awgrymiadau niferus gan ymatebwyr. Yn benodol, awgrymodd llawer raddfa symudol o gosbau y gellid eu defnyddio yn dibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio a gwahaniaethu rhwng 'camgymeriad gonest' a thwyll bwriadol. Nodwyd mai cosbau ariannol ddylai fod y cyntaf mewn casgliad o sancsiynau posibl sydd ar gael i'r Rheoleiddwyr, gan ganiatáu iddynt ddefnyddio'r mwyaf priodol ar gyfer unrhyw drosedd benodol.

Penderfyniadau ar y dull o fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth

Byddwn yn sefydlu cyfundrefn fonitro a gorfodi yn unol â'r hyn a gynigir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y Rheoliadau'n egluro cyfrifoldebau a dyletswyddau penodol y rheoleiddwyr a'r gweithgareddau monitro a gorfodi mewn perthynas â chynhyrchwyr, cynlluniau cydymffurfio, ailbroseswyr ac allforwyr.

Bydd y gwaith monitro a gorfodi a eglurir yn y Rheoliadau yn cael ei gyflawni drwy'r rheoleiddwyr amgylcheddol ar lefel gweinyddiaeth ddatganoledig³⁸ gan gydnabod yr angen am gydweithio agos rhwng y rheoleiddwyr oherwydd natur drawsffiniol deunydd pacio a deunydd pacio gwastraff.

Bydd y rheoleiddwyr yn cael casgliad lawn o gosbau, fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, i'w galluogi i gymryd camau priodol.

Byddwn yn adolygu cwmpas Cynllun Monitro ac Arolygu'r rheoleiddwyr, er mwyn ehangu cwmpas yr arolygiadau a'r archwiliadau a chynyddu cysondeb. Byddwn yn ceisio cynnwys meini prawf cyson a chaniatáu i amrywiaeth ehangach o dystiolaeth gael ei hystyried. Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o groeswrio data gyda data gan reoleiddwyr eraill.

Ynghyd â'r rheoleiddwyr, byddwn yn sefydlu Grŵp Cyswllt Technegol i hwyluso deialog rhwng partïon â rhwymedigaeth, y rheoleiddwyr a llunwyr polisi i ddarparu adborth manwl a sicrhau bod y Rheoliadau'n gweithio'n effeithlon. Ni fyddai hyn yn rhan o'r Rheoliadau.

Byddwn yn gwneud newidiadau i reoliadau eraill lle bo angen y rhain i gefnogi'r gwaith o gyflawni EPR yn effeithiol, megis y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol mewn perthynas â gofynion ar gyfleusterau deunyddiau.

³⁸ The Environment Agency for England, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Scottish Environment Protection Agency (SEPA) a'r Northern Ireland Environment Agency (NIEA)

Llinell amser gweithredu

Gweithredu EPR deunydd pacio yn raddol o 2023 ymlaen Cwestiynau 96-100

Gofynnwyd a oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno â'r gweithgareddau y byddai angen i'r SA eu cyflawni er mwyn gwneud taliadau cychwynnol i ALLau yn 2023 (fel y disgrifir ar gyfer Cam 1). O'r 931 o ymatebwyr, roedd 49% yn cytuno, roedd 25% yn anghytuno, ac roedd 26% yn ansicr. Awgrymodd rhai ymatebwyr a gytunodd y gallai fod angen i'r SA ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r amserlen yn bosibl oherwydd graddfa a/neu gymhlethdod y dasg(tasgau) i'w cwblhau, ochr yn ochr â'r gofynion i fusnesau gael amser priodol i baratoi.

Gofynnwyd hefyd a oedd ymatebwyr yn credu bod dull graddol o weithredu EPR deunydd pacio, gan ddechrau yn 2023, yn bosibl ac yn ymarferol. O'r 953 o ymatebwyr, roedd 30% yn cytuno, roedd 53% yn anghytuno, ac roedd 17% yn ansicr. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn teimlo ei fod yn rhy uchelgeisiol, ac nad oedd yn rhoi digon o amser i'r diwydiant baratoi, a theimlent y byddai'r dull graddol yn creu cymhlethdod, yn achosi dryswch ac yn arwain at gostau ychwanegol. Roedd pryderon hefyd ynghylch rhedeg dwy system ar gyfer adrodd data a allai arwain at golli taliadau gan rai neu gostau dwbl i eraill. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder hefyd am y goblygiadau o ran cost i fusnesau, yn enwedig y rhai y byddai'n rhaid iddynt dalu costau o dan y system PRN bresennol a'r cynllun EPR newydd yn 2023.

Gofynnwyd a fyddai'n well gan ymatebwyr ddull graddol o weithredu EPR gan ddechrau yn 2023 gan adennill costau rheoli gwastraff deunydd pacio cartrefi yn rhannol, neu ei weithredu'n ddiweddarach a allai alluogi adennill costau llawn ar gyfer gwastraff deunydd pacio cartrefi o'r cychwyn. O'r 927 o ymatebwyr, roedd yn well gan 33% ddull gweithredu fesul cam, roedd 55% o blaid gweithredu'n ddiweddarach, ac roedd 12% yn ansicr. Roedd ymatebwyr a oedd o blaid dyddiad gweithredu diweddarach yn teimlo y byddai'n haws gweithio tuag at un dyddiad y cytunwyd arno, gan ddarparu amserlen glir ac osgoi dryswch. Nododd llawer hefyd na fyddai 2023 yn caniatáu amser i fusnesau baratoi ac adeiladu'r seilwaith angenrheidiol. Ar y llaw arall, dywedodd y rhai a fynegodd gefnogaeth i ddull gweithredu fesul cam o 2023 ymlaen y byddai'n caniatáu i unrhyw broblemau gael eu nodi a'u datrys a rheoli'r gromlin dysg. Byddai'n caniatáu rhywfaint o brofion ar y system hefyd a gallai alluogi i daliadau cynhyrchwyr gael eu gwneud cyn gynted â phosibl, gan gydnabod yr amserlenni tynn ar yr un pryd.

Gofynnwyd pa opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer adrodd ar ddata deunydd pacio ar gyfer 2022 yr oedd ymatebwyr yn eu ffafrio. O'r 878 o ymatebwyr, roedd 13% o blaid Opsiwn 1 (cynhyrchwyr yn adrodd data ar gyfer deunydd pacio sydd fwyaf tebygol o ddod yn wastraff cartref sy'n ddeunydd pacio sylfaenol a deunydd pacio cludiant), roedd 78% o blaid Opsiwn 2 (cynhyrchwyr yn adrodd data ar gyfer pob math o ddeunydd pacio, gan gynnwys deunydd pacio tramwy a diwydiannol, ynghyd â data ar wastraff deunydd pacio y

maent yn ei 'hunanreoli'), ac roedd 9% yn ansicr. Roedd ymatebwyr yn cefnogi Opsiwn 2 gan ei fod yn cyd-fynd â'r arfer presennol ac o bosibl gallai fod yn ddull mwy cyfannol o adrodd am ddata deunydd pacio ac yn llai dwys i gynhyrchwyr gydymffurfio ag ef. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder ynghylch y galwadau cynyddol ar gynhyrchwyr i gydymffurfio â gofyniad adrodd ychwanegol, yn enwedig os mai dim ond am flwyddyn y bydd ar waith. Ystyriwyd bod angen canllawiau ychwanegol, yn achos Opsiwn 1, ar sut y dylai cynhyrchwyr bennu cyfrannau deunydd pacio sy'n debygol o ddigwydd fel gwastraff cartrefi.

Gofynnwyd hefyd a oes angen i gynhyrchwyr roi gwybod am setiau data eraill er mwyn i'r SA bennu'r costau i'w talu gan gynhyrchwyr yn 2023. O'r 839 o ymatebwyr, roedd 89% yn ansicr, gyda 6% yn credu bod angen setiau data eraill, a 5% yn ystyried nad oes angen setiau data eraill. Soniodd llawer o ymatebwyr am lefel y manylder yn y ddogfen ymgynghori a theimlent fod angen mwy o wybodaeth, gan gynnwys sut y byddai disgwyl i gynhyrchwyr bennu cyfran y deunydd pacio sy'n cyrraedd aelwydydd a busnesau, a mwy o fanylion am y data y byddai ei angen a sut y byddai angen ei gyflwyno.

Penderfyniad ar weithredu EPR yn raddol o 2023 ymlaen

Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno EPR yn 2023. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn bwrw ymlaen i gyflwyno OS adrodd data ar wahân yn 2022 i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr â rhwymedigaeth gasglu data deunydd pacio yn 2022 ac ni fydd yn ofynnol i gynhyrchwyr dalu ffioedd yn 2023 er mwyn galluogi i daliadau rhannol gael eu gwneud i ALLau yn 2023.

Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal ag adborth gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar gyflawni o 2 ymlaen. Bwriad y Llywodraeth o hyd yw bwrw ymlaen i sefydlu'r SA yn 2023 fel y nodir yn yr adran ar SA. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno OS adrodd data ar wahân hefyd i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gasglu ac adrodd ar ddata deunydd pacio ar gyfer 2023. Bydd y data hwn yn darparu'r sail ar gyfer sefydlu'r ffioedd rheoli gwastraff deunydd pacio y bydd cynhyrchwyr yn eu talu yn 2024.

Deunydd pacio y gellir ei ail-lenwi a'i aildefnyddio

Nododd y Llywodraeth yn yr ymgynghoriad y byddai'r mesurau EPR newydd yn canolbwyntio ar gynyddu ailgylchu deunydd pacio a chydabu bod mwy o ddefnydd o gymwysladau deunydd pacio y gellir eu haildefnyddio yn ddymunol er mwyn cynyddu cylcholdeb deunydd pacio. Yn wir, dywedodd rhanddeiliaid wrthym ei bod yn bwysig bod y Llywodraeth yn darparu arwydd o'r fath. Felly, ein bwriad o hyd yw ystyried mesurau priodol naill ai ar ffurf targedau neu rwymedigaethau ar gynhyrchwyr i annog defnyddio deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio/ail-lenwi. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r adolygiad ôl-weithredu o Reoliadau Deunydd Pacio (Gofynion Hanfodol)

2015 a ddechreuodd yn 2021. Byddwn yn cyflwyno ein cynigion gyda'r bwriad o gyflwyno mesurau yn 2025. Bydd yr adborth a roddwyd i Gwestiynau 101 i 104 a grynhoir isod yn helpu i lywio'r gwaith hwn.

Diffiniadau

Gofynnwyd am farn ar ddiffiniad o ddeunydd pacio y gellir ei aildefnyddio gan y byddai angen hyn pe baem yn gosod targedau neu rwymedigaethau ar gynhyrchwyr mewn perthynas â defnyddio deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio. Gwnaethom gynnig tri diffiniad (gweler Atodiad 1 yr ymgynghoriad), a gofynnwyd i ymatebwyr a ellid eu cymhwyso i dargedau neu rwymedigaethau aildefnyddio/ail-lenwi posibl yn y dyfodol mewn rheoliadau.

O'r 900 o ymatebwyr, roedd 34% yn ffafrio'r diffiniad yn y Gyfarwyddeb Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio, roedd 29% yn ffafrio'r un a ddefnyddiwyd gan UK Plastic Pact/The Ellen MacArthur Foundation, roedd 19% yn ffafrio diffiniadau yn Rheoliadau Deunydd Pacio (Gofynion Hanfodol) 2015, a dywedodd 18% 'dim un o'r uchod'.³⁹ I'r rhai a ddewisodd 'dim un o'r uchod', gofynnwyd pam, ac am awgrymiadau ar gyfer diffiniadau amgen y gallem eu hystyried. Atebodd cyfanswm o 286 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Roedd llawer yn pryderu y gallai dull Dadansoddi Cylch Bywyd fod yn annibynadwy, gan y gallai deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio fod yn drymach na deunydd pacio plastig untro ysgafn, ac nid yw manteision carbon a manteision iechyd cyhoeddedig deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio wedi'u profi. Awgrymodd rhai ymatebwyr ddiffiniad newydd; bod cynnyrch yn rhywbeth y gellir ei aildefnyddio os caiff ei lunio a'i gynllunio i'w aildefnyddio sawl gwaith, a bod defnyddwyr yn ystyried ei fod felly.

Dulliau o gymell y defnydd o ddeunydd pacio y gellir ei aildefnyddio a'i ail-lenwi

Gofynnwyd cwestiwn penagored yn gofyn am sylwadau ar y dulliau a restrwyd gennym, ac unrhyw ddulliau amgen, ar gyfer gosod targedau a rhwymedigaethau aildefnyddio ac ail-lenwi. Atebodd cyfanswm o 747 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r ddau dull canlynol:

- rhaid bod modd aildefnyddio canran benodol o ddeunydd pacio y mae cynhyrchwyr unigol yn ei roi ar y farchnad bob blwyddyn. Roedd ymatebwyr o'r farn

³⁹ Yn anfwriadol, ni wnaethom gynnwys opsiwn 'ddim yn siŵr' ar gyfer y cwestiwn hwn. Nid oes gennym unrhyw ffordd o wybod pa ateb, os o gwbl, a ddewiswyd gan bobl a oedd yn ansicr.

y gallai'r dull hwn leihau cyfanswm y deunydd pacio sydd ar y farchnad, bod fwyaf ymarferol ac effeithiol, a lleihau'r baich gweinyddol ac ariannol a roddir ar fusnesau.

- gosod targed lleihau deunydd pacio. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai'r opsiwn hwn sy'n cyd-fynd orau ag egwyddorion hierarchaeth gwastraff ac y gallai wneud y cyfraniad mwyaf at dargedau lleihau carbon. Roedd rhai ymatebwyr o blaid addasu targedau ailgylchu blynyddol hefyd drwy ystyried y gyfran gyfartalog o ddeunydd pacio gwerthiant y gellir ei aildefnyddio.

Roedd rhai ymatebwyr o blaid ei gwneud yn ofynnol cael deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio neu ei ail-lenwi ar gyfer rhai cynhyrchion, gan gredu y byddai'r opsiwn hwn yn alwad glir i weithredu i ddefnyddwyr, yn lleihau'r pwysau ar fanwerthwyr, ac yn osgoi creu dewisiadau amgen rhatach na ellir eu haildefnyddio yn lle cynhyrchion mewn deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio. Roedd cefnogaeth hefyd i gyflwyno mesurau i gymhell y defnydd o ddeunydd pacio y gellir ei ail-lenwi a'i aildefnyddio, ac i osod targedau aildefnyddio.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r SA ariannu'r gwaith o ddatblygu a masnacheiddio systemau aildefnyddio mewn ffordd ragweithiol. O'r 943 o ymatebwyr, roedd 37% yn cytuno, 41% yn anghytuno a 22% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Croesawyd y cynnig hwn gan lawer o ymatebwyr gan eu bod o'r farn y byddai'n arwain at gynnydd yn y defnydd o systemau aildefnyddio. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r SA fynd ati hefyd i hyrwyddo systemau atal ac aildefnyddio gwastraff gan y gallai gwneud ailgylchu'n haws a dim arall arwain at fwy o aildefnyddio deunydd pacio.

Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon y gallai sybsideiddio systemau aildefnyddio ystumio'r farchnad ac felly ni ddylai fod yn brif flaenoriaeth i'r SA. Roedd ymatebwyr yn pryderu hefyd am ddisgwyliad y llywodraeth i sefydliadau masnachol, y mae eu busnesau wedi'u seilio'n bennaf ar ddarparu 'deunydd pacio untro', gefnogi'r gwaith o hyrwyddo 'deunydd pacio aml-daith'.

Gofynnwyd a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r SA geisio defnyddio ffioedd wedi'u modiwlleiddio i gymhell mabwysiadu systemau deunydd pacio aildefnyddio ac ail-lenwi. O'r 952 o ymatebwyr, roedd 41% yn cytuno, 35% yn anghytuno a 24% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr roi rheswm dros eu hymateb a gwnaeth 571 o ymatebwyr hynny. Cefnogwyd ffioedd wedi'u modiwlleiddio oherwydd bod ymatebwyr o'r farn y byddent yn sbarduno dewisiadau deunydd pacio mwy cynaliadwy, yn cymhell mabwysiadu systemau aildefnyddio ac ail-lenwi, yn annog newid ymddygiad, yn hyrwyddo arloesedd, ac mai dyma fyddai'r ffordd decaf o adennill costau gan gynhyrchwyr.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu bod y cynnig hwn y tu hwnt i gwmpas swyddogaethau'r SA. Teimlent y dylid cynnal dadansoddiad o faterion cymhleth fel hylendid, buddsoddiadau ac effeithiau amgylcheddol, ac ni ddylai'r SA arwain ar hyn. Roedd rhai pryderon hefyd fod y cynnig yn codi problemau'n ymwneud â chystadleuaeth, yn benodol camdefnyddio'r farchnad, ac y gallai felly fod yn wrth-gystadleuol. Teimlai rhai

ymatebwyr y byddai ei gwneud yn ofynnol i'r gadwyn gyflenwi deunydd pacio hyrwyddo system deunydd pacio y gellir ei ail-lenwi / aildefnyddio a oedd yn tanseilio ei chynnig busnes craidd yn 'wrthun'. Mynegwyd ychydig o bryderon hefyd y gallai system deunydd pacio y gellir ei ail-lenwi / aildefnyddio gymell cynhyrchu a phrynu deunydd pacio a fyddai'n cael ei ddefnyddio unwaith oherwydd nad yw defnyddwyr yn ei ddefnyddio yn y ffordd a fwriadwyd a'i fod yn cael effeithiau amgylcheddol mwy niweidiol na deunyddiau y gellir eu hailgylchu'n hawdd. Yn ogystal, dywedodd rhai ymatebwyr y gallai baich gweinyddol mawr a chostus ddeillio o gael yr SA i ddefnyddio ffoedd wedi'u modiwlleiddio fel cymhelliad ar gyfer systemau aildefnyddio/ail-lenwi.

Crynodeb o gostau a manteision y polisiau

Crynodeb o gostau a manteision amcangyfrifedig o'r Aseiad Effaith

Mae Aseiad Effaith Terfynol (FIA) yn cyd-fynd â'r ymateb hwn gan y llywodraeth ac yn ystyried y costau a'r manteision i fusnesau, y sector cyhoeddus a chymdeithas o ddiwygio'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr. Mae'r FIA yn ddiweddariad o'r dadansoddiad yn yr Aseidiadau Effaith a oedd yn cyd-fynd ag ymgynghoriadau 2019 a 2021, ac mae'n adlewyrchu penderfyniadau polisi terfynol, gwell tystiolaeth, ac adborth gan y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r costau a'r manteision; rhoddir mwy o fanylion yn yr FIA. Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol o'r FIA ochr yn ochr â'r rheoliadau.

Dull a methodoleg asesu effaith

Ers ymgynghoriad 2021, casglwyd tystiolaeth bellach a gwnaed y gwelliannau canlynol:

- Diweddariad i amcangyfrifon o gostau casglu gwastraff deunydd pacio cartrefi, gan gynnwys tystiolaeth bellach ar gostau ychwanegu ffilm blastig a deunyddiau deunydd pacio eraill at gasgliadau ailgylchu (o gartrefi a busnesau).
- Cynnwys costau casglu deunydd pacio cartrefi sy'n benodol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (yn hytrach na chynyddu amcangyfrifon Lloegr)
- Tystiolaeth ychwanegol ar gostau a manteision derbyn cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr yn ôl yn orfodol.
- Dadansoddiad o effaith costau EPR ar ddefnyddwyr
- Amcangyfrifon o gostau samplu a dadansoddi deunyddiau mewnbwn ac allbwn ychwanegol i Gyfleusterau Deunyddiau (MFs).

O ystyried y cysylltiad rhwng y cynigion polisi ar gasgliadau ailgylchu trefol cyson ('Cysondeb') yn Lloegr a'r bwriad i gyflwyno DRS ar gyfer cynwysyddion diodydd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yn yr Alban, mae'r FIA yn mabwysiadu dull haenog. Mae'r llinell sylfaen yn rhagdybio bod y mesurau arfaethedig a nodir yn yr

ymgyngoriadau ar Gysondeb a'r DRS ar waith a bod y costau, y manteision a'r cyfraddau ailgylchu cysylltiedig ar gyfer deunyddiau pacio yn cael eu hadlewyrchu yn y llinell sylfaen hon. Mae hyn yn ein galluogi i ystyried effeithiau cyflwyno EPR ar ben cyflwyno'r mesurau sydd yn y cynigion hyn.

Mae'r FIA yn asesu un opsiwn rheoleiddio gyda dwy senario ar gyfer yr opsiwn hwnnw, yn erbyn senario llinell sylfaen ar gyfer y cyfnod 2024-2033.

Senario 1: y gost i gynhyrchwyr o dalu Cost Net Lawn (FNC) casglu a thrin deunydd pacio cartrefi a thriniaeth diwedd oes drwy ailgylchu ar garreg y drws a chasgliadau gweddilliol yn ogystal â Chanolfannau Gwastraff ac Ailgylchu Cartrefi. Asesir costau sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff deunydd pacio wrth fynd hefyd o fewn yr FNC a gaiff eu talu gan gynhyrchwyr. Asesir costau a manteision cymhwyso ffioedd wedi'u modiwlleiddio i daliadau cynhyrchwyr yn ogystal â chostau a manteision cyflwyno labelu gorfodol. Yn olaf, mae'r senario hon yn cynnwys costau o ddiwygio gofynion adrodd data ar MFs ac ailbrosesydd ac allforwyr.

Mae **Senario 2** yn cael ei hymestyn i gynnwys costau a manteision derbyn yn ôl gorfodol ar gyfer cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr a thargedau ailgylchu ffeibr-cyfansawdd.

Crynodeb o'r costau a'r arbedion ariannol o dan bob opsiwn polisi dros y cyfnod gwerthuso (£ miliwn)

Gwerth Presennol (2024-33) £ miliwn	Opsiwn 1	Opsiwn 2
Costau Pontio		
Cynhyrchydd - Pontio Labelu	£77.89	£77.89
Cynhyrchydd - Ymgylfarwyddo ag EPR	£1.30	£1.30
Cynhyrchydd - Pontio Derbyn yn Ôl Gorfodol Ffeibr		£35.32
Cyfleuster Deunyddiau - Cyfalaf ac Ymgylfarwyddo	£6.54	£6.54
Ailbrosesydd/Allforiwr - Ymgylfarwyddo	£0.52	£0.52
Sector Cyhoeddus - Buddsoddi mewn TG	£10.82	£10.82
Costau		
Cynhyrchydd - Casgliadau Deunydd Pacio Cartref FNC (Casgliadau ar garreg y drws, HWRC, Sbwriel) - Trosglwyddo	£9,573.53	£9,573.53
Cynhyrchydd - Gweinyddwr y Cynllun, Cynllun Cydymffurfio a Rheoleiddiwr	£447.14	£447.14
Cynhyrchydd - Labelu'n Parhau	£51.16	£51.16
Cynhyrchydd - Derbyn yn Ôl Gorfodol Ffeibr (gorfodi, hyfforddi, costau casglu net)	£43.93	
Cyfleuster Deunyddiau - Gweithredol a Rheoleiddiwr	£177.47	£177.47
Ailbrosesydd/Allforiwr - Parhaus	£5.01	£5.01
Sector Cyhoeddus - Colli Treth Tirlenwi - Trosglwyddo	£70.02	£72.12
Manteision		
Cymdeithas - Arbedion Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	£450.58	£469.72
Cynhyrchydd - Arbedion Cost Casglu Net	£280.76	£280.76
Cynhyrchydd - Arbedion gweddilliol ffeibr		£14.42

Cynhyrchydd - Arbedion sbwriel ffeibr		£1.74
Busnesau - Cartrefi Net - Fel Arbedion Gwastraff Busnes	£28.70	£28.70
Ailbroesydd - Marchnad Deunydd Eilaidd - Anuniongyrchol	£107.16	£119.42
Sector Cyhoeddus - Casgliadau Deunydd Pacio Cartrefi (Carreg y Drws, HWRC, Sbwriel) - Trosglwyddo	£9,573.53	£9,573.53
Cyfanswm Costau	£10,421.41	£10,502.75
Cyfanswm Manteision	£10,440.72	£10,488.29
NPV	19.3	-14.5

Effaith EPR ar ddefnyddwyr

Gall cynhyrchwyr benderfynu trosglwyddo rhai o'u costau ychwanegol i ddefnyddwyr sy'n prynu nwyddau mewn deunydd pacio. Bydd y graddau y bydd hyn yn digwydd yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan gynhyrchwyr, ond mae'r FIA yn darparu amcangyfrifon o'r costau ychwanegol i ddefnyddwyr o dan senarios gwahanol. O dan y senario canolog,⁴⁰ tybir bod cynhyrchwyr yn trosglwyddo 85% o'r costau ychwanegol y maent yn eu hysgwyo. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arwain at gynydd o 0.13% yng ngwariant cyfartalog aelwydydd, sy'n cyfateb i 78c yr wythnos neu £41 y flwyddyn.

	Senario Isel	Senario Canolog	Senario Uchel
Defnyddwyr – cynnydd mewn gwariant wythnosol fesul cartref, £	0.46	0.78	0.92
Cynnydd fel cyfran o wariant wythnosol⁴¹	0.08%	0.13%	0.15%
Defnyddwyr - cynnydd mewn gwariant bob blwyddyn fesul cartref, £	23.87	40.57	47.73

Cafodd amcangyfrif o effaith y gost a drosglwyddir i ddefnyddwyr ar chwyddiant CPI ei gynnwys yn yr asesiad effaith hefyd. Unwaith eto, mae'r senario canolog yn rhagdybio bod cynhyrchwyr yn trosglwyddo 85% o gostau ychwanegol o dan EPR i ddefnyddwyr. O dan y senario hwn, amcangyfrifir mai 0.29% yw'r cynnydd yng ngwerth gwerthiannau manwerthu, gyda chwyddiant y CPI yn 0.07%.

	Senario Isel	Senario Canolog	Senario Uchel
Cynnydd mewn gwerthiannau manwerthu	0.17%	0.29%	0.34%

⁴⁰ Mae cynhyrchwyr yn trosglwyddo 50% o'r costau i ddefnyddwyr o dan yr opsiwn isel, 85% yn yr opsiwn canolog a 100% yn yr opsiwn uchel.

⁴¹ Mae hyn yn seiliedig ar wariant wythnosol cyfartalog aelwydydd o 592 a gafwyd gan y SYG.

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/expenditure/bulletins/familyspendingintheuk/april2018tomarch2019>

Cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr	0.04%	0.07%	0.09%
--	-------	-------	-------

Er y bydd y cynhyrchwyr hynny sy'n gorfod talu yn wynebu costau ychwanegol o dan EPR, mae'r costau ychwanegol hyn yn cynnwys trosglwyddiad sylweddol o'r sector cyhoeddus i fusnesau.

Dylunio digidol

Yn yr ymgynghoriad, aethom i'r afael â'r gofyniad am seilwaith digidol i fod yn sail i EPR. Pennir union ofynion y seilwaith hwn gan y penderfyniadau polisi a nodir mewn manau eraill yn yr ymateb hwn. Bydd y dyluniad a'r adeiladwaith yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.

Wrth i'r Llywodraeth ystyried cynigion ar gyfer sefydlu Gweinyddwr y Cynllun, rydym wedi dechrau gweithio ar yr agweddau ar y seilwaith digidol sydd ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys cofrestru, achredu a chasglu data. Bydd y data a gesglir drwy'r gwasanaeth hwn ar gael i'r rheoleiddwyr ei brosesu a'i ddefnyddio yn unol â'u rolau. Os nad yw Gweinyddwr y Cynllun wedi'i sefydlu o fewn y sector cyhoeddus, byddai data a gesglir drwy'r gwasanaeth TG hwn ar gael i gorff sector preifat ei ddefnyddio o fewn ei gylch gwaith. Bydd costau unrhyw wasanaethau a ddarperir gan y Llywodraeth ar gyfer EPR yn cael eu hadennill drwy godi tâl ar y rhai sydd â rhwymedigaeth o dan y cynllun.

Yn ogystal â'r elfennau o'r seilwaith TG sydd ar gyfer y cyhoedd, bydd elfennau ychwanegol yn ymwneud â gweinyddu'r cynllun. Maent yn cynnwys cyfrifo ac anfonebu rhwymedigaethau cynhyrchwyr, a rheoli ad-daliadau i ALLau i dalu am gost casgliadau gwastraff deunydd pacio cartrefi. Mae'r seilwaith hwn yn ganolog i rôl Gweinyddwr y Cynllun. Felly, os penodir Gweinyddwr y Cynllun yn y sector preifat, mae'n well i'r SA ei gyflawni, ar yr amod nad yw'n effeithio ar amserlenni gweithredu. Os caiff Gweinyddwr y Cynllun ei sefydlu o fewn y sector cyhoeddus, bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y seilwaith TG llawn yn cael ei ddarparu. Yn y naill senario neu'r llall, bydd y Llywodraeth yn integreiddio cymaint â phosibl rhwng systemau TG, er mwyn lleihau ffrithiant a sicrhau taith esmwyth i ddefnyddwyr. Yn ogystal, lle mae elfennau cyffredin rhwng y seilwaith sydd ei angen ar gyfer EPR a'r DRS ar wahân, byddwn yn ceisio darparu gwasanaeth digidol syml a chyson i gefnogi defnyddwyr y naill gynllun a'r llall.

At hynny, mae gweithrediad EPR yn gofyn am ddata manwl o'r gadwyn wastraff. Darperir llawer o'r data hwn gan system TG ar wahân, a elwir yn Olrhain Gwastraff Digidol, y disgwylir iddi fod yn gwbl weithredol yn 2024. Bydd y system ar wahân hon yn cwmpasu'r holl wastraff, gan ei olrhain hyd at ddiwedd ei oes. Bydd data a gesglir drwy Olrhain Gwastraff Digidol yn rhoi golwg fanylach ar y gadwyn wastraff na'r systemau presennol ac felly caiff ei ddefnyddio i lywio'r adolygiad arfaethedig o EPR.

Atodiad 1 - Swyddogaethau craidd

Gweinyddwr y Cynllun

- **Ymgymryd â chynllunio strategol a gweithredol** – yn gyfrifol am gynllunio gweithredol o ddydd i ddydd a chyflawni ei swyddogaethau ac am gynllunio strategol tymor hwy.
- **Cyfrifo costau gwaredu i'w talu gan y cynhyrchydd am reoli gwastraff deunydd pacio a gaiff ei waredu gan gartrefi** gan ystyried y paramedrau a bennir yn y rheoliadau – rhagwelir y bydd yr SA yn pennu'r costau hyn drwy fabwysiadu dull modelu ond gall ddewis cyfrifo cyfanswm y costau yn seiliedig ar gostau gwirioneddol dros amser
- **Pennu'r cyfraddau ffioedd sydd i'w talu gan gynhyrchwyr** (gan gynnwys ffioedd wedi'u modiwlleiddio) ar gyfer gwahanol fathau o ddeunydd pacio - gan ystyried y paramedrau a bennir yn y rheoliadau, bydd yr SA yn penderfynu sut i bennu'r cyfraddau ffioedd fel eu bod yn adlewyrchu costau gwaredu gwahanol ddeunyddiau/mathau o ddeunydd pacio, ac yn cymell cynhyrchwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau a chanlyniadau ehangach gan gynnwys defnyddio deunydd pacio y gellir ei ailgylchu
- **Cyfrifo'r costau gwaredu sydd i'w talu gan gynhyrchwyr unigol** yn flynyddol ac adennill y costau hyn gan gynhyrchwyr
- **Gwneud taliadau i'r rhai sydd wedi mynd i gostau gwaredu a/neu sy'n darparu gwasanaethau ar ran cynhyrchwyr** fel y'u gweinyddir gan yr SA – megis awdurdodau lleol, awdurdodau sbwriel, ac ati. Bydd angen i'r SA ymgysylltu â phob awdurdod lleol a sefydlu perthynas â nhw, nodi gofynion data a gofynion eraill, cytuno ar drefniadau talu a chynnig cymorth ar bethau megis gwella safonau gwasanaeth, darparu gwasanaethau mwy effeithlon, cynyddu'r deunydd pacio a gesglir i'w ailgylchu, ac ati
- **Darparu goruchwyliaeth strategol a dyrannu cyllid cynhyrchwyr** ar gyfer ymgyrchoedd gwybodaeth
- **Rhoi cymorth a chynghor i gynhyrchwyr** wrth adrodd data ar ddeunydd pacio y maent yn ei roi ar y farchnad a darparu 'offeryn' / dull gweithredu i alluogi cynhyrchwyr i asesu pa mor ailgylchadwy yw eu deunydd pacio a llywio'r defnydd o ffioedd wedi'u modiwlleiddio
- **Paratoi adroddiadau blynyddol** sy'n darparu ffigurau cyfunol ar gyfanswm y symiau a dalwyd, newidiadau i ddeunydd pacio a roddir ar y farchnad, y canlyniadau a gyflawnwyd, ac ati i'w haelodau, i Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, ac i'r Rheoleiddwyr.